Cyngor sir ddinbych
denbighshire
County Council

DATGANIAD CYFRIFON 2018/19

Cyngor Sir Ddinbych
Datganiad Cyfrifon
2018/19

Cyflwyniad **1**

Adran 1 - Adroddiad Naratif **4**

Adran 2 - Datganiad Cyfrifoldebau **10**

Adran 3 - Datganiadau Ariannol A Nodiadau Ynglŷn Â'r Cyfrifon **11**

Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu 14

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr 17

Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn 19

Y Fantolen 21

Datganiad Llif Arian 23

Nodiadau Ynglŷn â'r Cyfrifon 24

Adran 4 - Datganiadau Atodol **89**

Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai 90

Symudiadau'r Datganiad Cyfrif Refeniw Tai 91

Nodiadau ynglŷn â'r Datganiadau Atodol 92

Adran 5 - Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Aelodau Cyngor Sir Ddinbych **95**

Adran 6 - Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2018-19 ..... **98**

Adran 7 - Geirfa **104**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Cyflwyniad

Awdurdod unedol yng Nghymru yw Cyngor Sir Ddinbych gyda phoblogaeth o tua 96,000. Mae Sir Ddinbych yn cynnwys cyrchfannau gwyliau'r Rhyl a Phrestatyn ar hyd arfordir gogledd Cymru, Dyffryn Clwyd, Corwen yn ne'r Sir a thref Llangollen, sy'n boblogaidd ymhlith twristiaid. Mae hefyd yn cynnwys trefi castellog hanesyddol Rhuddlan, Dinbych a Rhuthun, a dinas gadeiriol fechan Llanelwy. Mae 47 o gynghorwyr etholedig i gynrychioli amrywiol wardiau'r sir. Mae'r Cyngor yn cyflogi oddeutu 4,300 o staff.

Daeth y Cyngor Sir i fodolaeth ym mis Ebrill 1996 ac mae'n gyfrifol am ystod fawr o wasanaethau gan gynnwys ysgolion, gofal cymdeithasol, priffyrdd, casglu a gwaredu gwastraff, cynllunio, datblygu economaidd, twristiaeth, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a llawer yn rhagor.

Ar ddiwedd pob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Cyngor gynhyrchu Datganiad Cyfrifon sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth ac sy'n dangos ar be y gwariodd y Cyngor ei arian. Mae'r cyfrifon hyn yn mynd yn fwyfwy technegol ac yn anos eu deall. Pwrpas y Cyflwyniad yn yr adran nesaf yw ceisio cyflwyno rhai o'r rhifau mwyaf pwysig mewn dull mwy dealladwy.

Pe bai gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r cyfrifon, byddai croeso i chi gysylltu â'r Prif Swyddog Cyllid, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ. Yn ogystal, mae gennych hawl gyfreithiol i archwilio'r cyfrifon cyn i'r archwiliad gael ei gwblhau. Hysbysebir argaeledd y cyfrifon i'w harchwilio ar wefan Cyngor Sir Ddinbych ac yn y dderbynfa yn Neuadd Y Sir, Rhuthun.

Datganiad Cyfrifon

Mae'r Cyngor yn cynhyrchu Datganiad Cyfrifon bob blwyddyn yn unol â gofynion cyfreithiol, safonau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol (y Cod) yn y Deyrnas Unedig, gyda'r amcanion canlynol:

- Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a phroffesiynol.
- Rhoi gwybodaeth ynglŷn â chyllid y Cyngor i ddefnyddwyr gwasanaeth, etholwyr, trethdalwyr busnes, trethdalwyr lleol, Cynghorwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb.
- Dangos stiwardiaeth o arian cyhoeddus

Yn dilyn adolygiad "Dweud y Stori" o'r cyflwyniad o ddatganiadau ariannol awdurdodau lleol mae Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol 2016/17 CIPFA (y Cod) wedi newid y trefniadau adrodd cylchrannol ar gyfer y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (DI&GC) a chyflwynwyd y Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu. Mae'r DI&GC a'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn cynnwys dadansoddiad cychrannol yn seiliedig ar sut mae'r Cyngor wedi ei strwythuro, yn gweithredu, yn monitro ac yn rheoli perfformiad ariannol. Yn flaenorol, adroddodd y Cyngor cost gwasanaethau unigol yn y DI&GC yn unol â'r fformat a nodir yn y Cod Ymarfer Adroddiadau Gwasanaeth (SerCOP).

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys yr adrannau canlynol:

Adran 1 – Adroddiad Naratif

Mae'r Rhagymadrodd hwn gan y Prif Swyddog Cyllid yn darparu crynodeb o weithgareddau ariannol y Cyngor yn ystod y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn.

Adran 2 - Datganiad Cyfrifoldebau

Mae hyn yn amlinellu dyletswyddau'r Prif Swyddog Cyllid wrth baratoi'r cyfrifon, a chyfrifoldebau'r Cyngor wrth gadw at y rheoliadau perthnasol.

Adran 3 – Prif Ddatganiadau Ariannol a Nodiadau ynglŷn â'r Cyfrifon

Mae Cod 2017 yn mynnu fod cyfrifon awdurdod lleol yn cydymffurfio gyda'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh). Mae'r prif ddatganiadau ariannol yn cynnwys:

Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu
Mae hyn yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei ddefnyddio ac ariannu o adnoddau mewn cymhariaeth â'r adnoddau hynny a ddefnyddiwyd neu a enillwyd yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
Mae'r cyfrif hwn yn grynodeb o'r arian a gynhyrchwyd ac a wariwyd wrth ddarparu gwasanaethau ac wrth reoli'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n cynnwys pob gwariant beunyddiol ac incwm perthynol ar sail groniadol, ynghyd â thrafodion sy'n mesur gwerth yr asedau a dreuliwyd mewn gwirionedd yn ystod y flwyddyn. Mae hefyd yn dangos amcanestyniad o werth y buddiannau ymddeol a enillwyd gan gyflogeion yn ystod y flwyddyn.

Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn
Mae hyn yn dangos yr addasiadau a wnaed i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i gyflawni gofynion cyfrifeg statudol, i'w alinio gyda'r sail gyfrifyddol y seiliwyd y lefel Treth y Cyngor am y flwyddyn arni.

Y Fantolen
Mae'r Fantolen yn rhoi ciplun o sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2019. Mae'n amlinellu gwerth yr eitemau y mae'n berchen arnynt (asedau) a gwerth yr hyn sy'n ddyledus i eraill (ymrwymiadau). Mae' ymgorffori holl gyllid y Cyngor, o ran cyfalaf a refeniw.

Datganiad Llif Arian
Mae hyn yn rhoi crynodeb ynglŷn ag arian parod y Cyngor a thrafodion sy'n gyfwerth ag arian parod dros y flwyddyn, gan ddangos yr union arian parod a dderbyniwyd ac a wariwyd a'r newid a fu yn sefyllfa'r Cyngor o safbwynt arian parod.

Nodiadau Ynglŷn â'r Cyfrifon
Darperir nodiadau eglurhaol ar ôl y prif ddatganiadau ariannol ac ar ôl y datganiadau ariannol atodol. Mae'r nodiadau yn cyflwyno gwybodaeth ychwanegol i roi cymorth er mwyn deall y cyfrifon.

Adran 4 - Datganiadau Ariannol Atodol a Nodiadau

Cyfrif Refeniw Tai (CRT)
Mae gofyn ar i Gynghorau gyfrifo costau gwasanaeth tai'r Cyngor ar wahân trwy gyfrwng Cyfrif Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai a Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau ym

Mantolen y Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r cyfrif hwn yn dangos ymhle y caiff arian ei wario'n cynnal ac yn rheoli tai'r Cyngor a sut y cyfarfyddir â'r costau hyn gyda rhenti ac incwm arall.

Mae'r Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau ym Malansau'r Cyfrif Refeniw Tai yn dod â'r holl symudiadau o fewn cronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai ynghyd.

Adran 5 - Adroddiad yr Archwiliwr Allanol

Mae'r cyfrifon hyn yn amodol ar archwiliad allanol annibynnol gan archwilydd a benodir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'r adroddiad hwnnw wedi ei gynnwys yn yr adran hon.

Adran 6 - Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae hyn yn amlinellu dull gweithredu'r Cyngor wrth sicrhau ei fod yn cynnal system effeithiol o lywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol.

Adran 7 - Geirfa

Mae'r adran hon yn cynnwys rhestr o rai o'r diffiniadau a fabwysiedir at ddiben cyfrifon a gwblheir yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Adran 1 - Adroddiad Naratif

1.1 Adolygiad Y Flwyddyn – Gwariant Refeniw

Bydd y Cyngor yn sefydlu cyllideb refeniw pob blwyddyn. Mae hon yn gyllideb ar gyfer y gwasanaethau y bydd yn eu darparu yn ystod y flwyddyn ac a fydd yn cael eu hariannu gan ddefnyddwyr gwasanaeth, Grantiau Llywodraeth Cymru a Threth y Cyngor a Threthdalwyr Busnes. Ar gyfer 2018/19, y gyllideb gwariant gros oedd £305.8m. Ar ôl defnydd cyllidebol o Gronfeydd wrth Gefn, roedd yn ofynnol i gael arbedion o £4.6m a nodwyd rhain yn llwyddiannus i sicrhau cyllideb gytbwys. Cyflawnwyd yr holl arbedion a nodwyd yn ystod 2018/19. Mae'r Cyngor wedi nodi arbedion cyllideb o £5.7m ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 ac mae'r rhagamcanion ar gyfer y blynyddoedd i ddod, er yn ansicr, yn dangos bod angen parhau i nodi arbedion blynyddol sylweddol.

Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y Cyngor wedi gwario £0.5m llai nag yr oedd wedi cyllidebu ar gyfer cyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol. Er ei fod yn parhau i fod yn gyfnod ariannol anodd i ysgolion, mae buddsoddiad mewn cyllidebau ysgolion yn 2018/19, sy'n fwy na phwysau chwyddiant a ariennir a'r berthynas waith agos rhwng y Cyngor ac ysgolion wrth gynhyrchu cynlluniau ariannol 3 blynedd cadarn, wedi arwain at sefyllfa ariannol well ar gyfer ysgolion (adroddodd ysgolion tanwariant o £0.173m yn ystod y flwyddyn).

Cymeradwyodd y Cabinet ym mis Mehefin ceisiadau gan y gwasanaethau i gario ymlaen tanwariant o £0.308m. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i helpu i liniaru'r pwysau hysbys a darparu arian ar gyfer buddsoddi mewn gwasanaethau.

Balansau, Darpariaethau a Chronfeydd Wrth Gefn

Mae'r cyfraniad net i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn y cyfrifon yn £1.1m (gweler Nodyn 20 am fanylion). Mae'r symudiad yn cynnwys gostyngiad net o falensau diffyg ysgolion a'r defnydd a gyllidwyd ac arfaethedig o gronfeydd wrth gefn ar gyfer dibenion fel ariannu'r Cynllun Cyfalaf, y Cynllun Corfforaethol newydd a gostyngiadau cyllidebol yn y blynyddoedd i ddod.

Balansau cyffredinol y Cyngor erbyn hyn yw £7.1m. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud yn siŵr ei fod yn cadw digon o arian yn y balansau hyn i fod yn siŵr y gall ymdrin ag unrhyw broblemau annisgwyl y bydd yn eu hwynebu.

Sut Rydym yn Rhoi Gwybod am ein Cyllideb

Bob mis, bydd adroddiad cyllideb yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor (grŵp o 8 o Gynghorwyr sy'n gwneud nifer o benderfyniadau ar ran y Cyngor) sy'n esbonio sut y mae gwasanaethau yn gwario eu harian o'i gymharu â'u cyllideb. Ar ddiwedd y flwyddyn, bydd adroddiad terfynol (a elwir yn ganlyniad) yn dangos y sefyllfa diwedd blwyddyn.

Ond, mae'n rhaid i'r Cyngor gynhyrchu ei Ddatganiad Cyfrifon mewn modd sy'n diwallu gofynion rhoi gwybod ariannol y DU a rhyngwladol. Yn anffodus, mae'r gofynion hyn yn gymhleth iawn ac yn dechnegol eu natur. Mae hyn yn golygu bod angen nifer o addasiadau cyfrifo ar gyfer yr adroddiadau cyllideb arferol i sicrhau y gall y Cyngor gynhyrchu ei Gyfrifon. Mae'r tabl isod yn dangos y sefyllfa derfynol y rhoddwyd gwybod i'r Cynghorwyr amdani. Yn y Nodiadau ynglŷn â'r Cyfrifon mae esboniad o'r addasiadau a wnaed rhwng y sefyllfa refeniw terfynol y rhoddwyd gwybod amdani a'r symiau y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Ceir rhagor o fanylion am berfformiad ariannol y gwasanaethau yn yr Addroddiad Alldro Terfynol a gyflwynwyd i'r Cabinet ar y 25ed o Fehefin 2019.

Mae'r tabl isod yn dangos y sefyllfa refeniw derfynol a gyflwynir yn y cyfarfod hwn.

	Adroddiad Canlyniad Refeniw Terfynol £000
Cyllidebau Gwasanaeth a Chorfforaethol	
Gwella Busnes a Moderneiddio	4,521
Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd	2,584
Cyfleusterau, Asedau a Tai	7,328
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	19,556
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	2,983
Gwasanaethau Cymorth Cymunedol	35,111
Cyllid	3,138
Addysg a Gwasanaethau Plant	15,227
Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata	2,964
Ysgolion	68,405
Corfforaethol	15,061
Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth a Chorfforaethol	**176,928**
Arall	
Arian Cyfalaf/ Llog Buddsoddi	11,427
Lefiau	4,569
Cyfanswm Gwariant (ac eithrio CRT)	**192,924**
Llai Cyllid	(192,625)
Cyfraniad wedi'i gyllidebu o'r Gronfa wrth Gefn wedi'i glustnodi	(780)
Canlyniad Terfynol	**(481)**
Dyrannwyd fel a ganlyn:	
Balansau wedi'u Clustnodi – Gwasanaethau	(308)
Balansau Ysgolion	(173)
Cyfanswm	**(481)**

1.2 Adolygiad Y Flwyddyn – Gwariant Cyfalaf

Bob blwyddyn bydd y Cyngor yn gwario arian ar eitemau fydd yn bodoli am gyfnod hir fel tir, adeiladau, ffyrdd, cerbydau ac offer. Bydd yr eitemau hyn yn cael eu galw yn asedau a bydd y Cyngor yn eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau am flynyddoedd i ddod. Bydd gwariant ar yr asedau hyn yn cael ei alw yn wariant cyfalaf.

Mae'r tabl canlynol yn dangos faint y gwnaeth y Cyngor ei wario ar ei asedau fesul bloc gwasanaeth yn 2018/19 a sut yr ariannwyd y gwariant:

Gwariant	£000
Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd	67
Cyfleusterau, Asedau a Tai	18,347
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	8,419
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	3,319
Gwasanaethau Cymorth Cymunedol	635
Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata	222
Gwella Busnes a Moderneiddio	313
Addysg a Gwasanaethau Plant	21,994
Cyfrif Refeniw Tai	8,631
Cyfanswm	**61,947**
Ariannu	
Grantiau	24,257
Benthyca â Chymorth	2,218
Benthyca Darbodus	26,941
Derbyniadau Cyfalaf	1,462
Gwariant Cyfalaf sy'n cael ei dalu o Gronfa'r Cyngor	7,069
Cyfanswm	**61,947**

Mae gwariant ar Brosiectau Mawr yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

Prosiect	Disgrifiad	2018/19 £000
Y Rhyl	Gwaith Amddiffyn yr Arfordir Dwyrain Y Rhyl	865
A548Ffordd Tŷ Newydd,Y Rhyl	Cynllun Adnewyddu Llwybr Beicio a Arwyddion	248
A543/5 – Triongl EVO	Gosodiad Camera Cyflymder Cyfartalog	393
Y Rhyl	Datblygiad Glan y Dŵr	2,444
Y Rhyl	Adeiladu Parc Dwr (SC2)	9,002
Y Rhyl	Ailddatblygu Adeiladau'r Frenhines	3,023
Y Rhyl	Cyfraniad at Ailddatblygu 45-47 Stryd Y Dŵr	493
Canolfan Hamdden Y Rhyl	Cyfleusterau Ffitrwydd Newydd	662
Canolfan Hamdden Rhuthun	Gwelliannau i Ystafelloedd Newid	691
Canolfan Hamdden Prestatyn	Gwelliannau i Ysafelloedd Newid	225
Llanfair Dyffryn Clwyd	Ysgolion yr 21ain Ganrif – Adeilad Ysgol Newydd	3,199
Ysgol Carreg Emlyn, Clocaenog	Ysgolion yr 21ain Ganrif – Adeilad Ysgol Newydd	2,448
Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy	Ysgolion yr 21ain Ganrif – Gwaith Estyniad, Ailfodelu ac Ailwampio	246
Y Rhyl	Ysgolion yr 21ain Ganrif - Adeilad Ysgol Gatholig Newydd 3-16.	12,812
Stryd Y Rhos a Ysgol Pen Barras, Rhuthun	Ysgolion yr 21ain Ganrif – Ysgolion Newydd	890
Rhuthun	Cyfraniad at Gyfleuster Gofal Ychwanegol Llys Awelon Cam 2	265
Casglu Gwastraff	Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Newydd	925
Tai Cyngor	Gwelliannau / Caffaeliadau Mawr	5,945
Tai Cyngor	Addasiadau i'r Anabl	526

1.3 Materion Eraill

Pensiynau
Mae Cyngor Sir Ddinbych yn aelod o Gronfa Bensiwn Clwyd

Mae safonau cyfrifyddu rhyngwladol yn disgwyl i gynghorau gyfrifo am gost hawliau pensiwn enilledig yn y flwyddyn, yn hytrach na cost y cyfraniadau a dalwyd i'r gronfa pensiwn. Mae'n rhaid i'r gronfa bensiwn gyfrifo faint o arian fyddai'n ddyledus ganddo pe bai pob aelod unigol â hawl i gael eu taliad pensiwn yn syth. Yna, bydd rhaid iddo gyfrifo faint o arian sydd ganddo mewn buddsoddiadau. Mae enillion ar fuddsoddiadau yn cael eu heffeithio gan yr amgylchedd economaidd cenedlaethol a rhyngwladol ehangach, a gyda'r ffaith bod pobl yn byw yn hirach yn gyffredinol, mae gan y gronfa bensiwn lai mewn buddsoddiadau na'r swm y byddai'n gorfod ei dalu allan mewn theori. Gelwir hyn yn ddiffyg. Er ei bod yn annhebygol iawn y bydd y Cyngor yn gorfod talu'r arian hwn, mae'n rhaid iddo ddangos y diffyg yn y cyfrifon. Mae'r Gronfa Bensiwn yn amodol ar brisiad tair blynedd ac mae'r amcangyfrifon a gynhwysir yn y cyfrifon yn seiliedig ar brisiad llawn ddiweddaraf y cynllun ar 31 Mawrth 2019. Mae'r nodiadau ynglŷn â'r cyfrifon yn dangos manylion pellach.

Cynllun Busnes Tai
Mae'r Cyngor yn berchen ar 3,378 o dai cyngor – a elwir y stoc dai. Ers 2005, mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol i wella ei stoc dai a bydd yn cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru yn 2014. Mae rhan o'r buddsoddiad hwn wedi cael ei ariannu drwy fenthyca ac mae gan y Cyngor Gynllun Busnes Stoc Tai 30-mlynedd manwl sy'n helpu i sicrhau fod y buddsoddiad mewn tai y Cyngor yn parhau i fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn y tymor hir. Mae Cynllun Busnes y Stoc Tai yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'i gymeradwyo'n ffurfiol gan Gabinet y Cyngor bob blwyddyn ac mae'n parhau i fod yn gryf yn ariannol.Mae'r Cynllun Busnes Stoc Tai diweddaraf yn caniatáu buddsoddiad o £25m mewn stoc newydd a £23m i wella'r stoc bresennol ymhellach dros y pedair blynedd nesaf.

Benthyca a Buddsoddiadau
Strategaeth y Cyngor yn 2018/19 oedd parhau i gadw balansau benthyca a buddsoddi mor isel â phosibl trwy ddefnyddio gweddill arian dros dro, ond cadw lefel arian sy'n ddigonol. Mae balansau buddsoddi yn cael eu monitro yn barhaus gyda'r nod o gynnal lefelau digonol i ddiwallu gofynion llif arian y Cyngor. Mae sefyllfa trysorlys y Cyngor yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol gydol y flwyddyn. Roedd dyled y Cyngor ar 31 Mawrth 2019 yn £228.1m, balans y buddsoddiadau oedd £4.4m a daliwyd £5.3m arall mewn cyfrif banc sydd ar gael ar unwaith.

Polisïau Cyfrifo a Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh)
Mae'r Polisïau Cyfrifo wedi'u nodi yn llawn yn Nodyn 1 y cyfrifon. Dyma'r nawfed flwyddyn y mae cyfrifon y Cyngor wedi'u cynhyrchu i gydymffurfio â safonau rhyngwladol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol. Bu newidiadau sylweddol i'r Cod Ymarfer 2018/19 ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod) yn dilyn mabwysiadu Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) 9 - Offerynnau Ariannol o 1 Ebrill 2018. Mae'r Cod yn nodi sut y dylai'r Cyngor ddosbarthu a Mesur asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol. Mae'r newidiadau wedi arwain at greu cronfa wrth gefn newydd wedi'i chlustnodi ar gyfer Benthyciadau Wedi'u Haddasu. Bydd y gronfa'n cael ei defnyddio i niwtralu effaith taliadau llog uwch effeithiol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr dros weddill oes y benthyciad.

Newid pellach i'r Cod yw mabwysiadu SAARh15 - Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid Wrth gymhwyso SAARh15 mae'r Cyngor yn cydnabod refeniw i adlewyrchu trosglwyddiad nwyddau a gwasanaethau a addawyd i dderbynnydd gwasanaeth mewn swm sy'n adlewyrchu'r ystyriaeth y mae'r cyngor yn disgwyl bod â hawl iddi yn gyfnewid am y nwyddau

a'r gwasanaethau hynny. Nid yw'r newid hwn wedi cael unrhyw effaith sylweddol ar y Cyngor.

Swyddogaethau Statudol
Doedd dim newidiadau sylweddol i swyddogaethau statudol y Cyngor yn ystod 2018/19.

Y Cynllun Corfforaethol
Yn ystod 2018/19 parhaodd y Cyngor ei ymrwymiad i gyflwyno Cynllun Corfforaethol 2012-2017 a oedd yn anelu at ddarparu buddsoddiad sylweddol mewn ysgolion, cyfleusterau gofal cymdeithasol a ffyrdd. Mae gwariant ar brosiectau'r cynllun corfforaethol yn cynnwys £ 12.8m ar Ysgol Gatholig Newydd Crist y Gair yn Y Rhyl a £ 5.6m ar ysgolion newydd yn Llanfair Dyffryn Clwyd a Clocaenog. Er i'r cynllun pum mlynedd blaenorol ddod i ben yn 2017/18, rhagwelwyd erioed y byddai rhai o'r prosiectau buddsoddi mawr oddi mewn iddo yn cael eu cyflwyno dros amserlen hirach. Mae'r rhan fwyaf o'r prosiectau wedi'u cyflawni ond bydd rhywfaint o wariant pellach yn 2019/20, gan gynnwys y prif brosiectau ysgolion a'r cyfleusterau gofal cymdeithasol.

Mae'r cynllun corfforaethol presennol 2017-22: "Gweithio Gyda'n Gilydd Dros Ddyfodol Sir Ddinbych ", yn adeiladu ar y record hon o gyflawni. Uchelgais cyffredinol y Cynllun hwn yw sicrhau bod Sir Ddinbych yn lle ble mae trigolion a busnesau wedi'u cysylltu'n dda ac yn wydn; lle mae cyfleoedd i bobl ifanc gael tai fforddiadwy a chael sgiliau a swyddi i fyw bywydau llwyddiannus a chyflawn, lle mae pob un ohonom yn mwynhau amgylchedd deniadol ac wedi ei ddiogelu. Fel y cynllun diwethaf, mae'r Cynllun Corfforaethol hwn yn cynnwys camau penodol a fydd yn cael eu cyflawni dros bum mlynedd ond, hyd yn oed yn bwysicach fyth, mae'r camau hyn wedi'u cynllunio i gael effaith y tu hwnt i'r pum mlynedd nesaf gyda chenedlaethau'r dyfodol mewn golwg.

Mae'r Cynllun Corfforaethol hwn yn nodi ein blaenoriaethau uchelgeisiol ond y gellir eu cyflawni ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd 2017-22. Bydd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol ar rai o'r blaenoriaethau hyn, cyllid refeniw ar gyfer eraill, a gellir rhai eu darparu heb unrhyw gost ychwanegol. Credwn fod angen inni fuddsoddi rhywle yn y rhanbarth o £135 miliwn o bunnoedd ychwanegol yn ein blaenoriaethau corfforaethol dros y pum mlynedd nesaf, os ydym am gyflawni popeth yr hoffem ni.

I dalu am y buddsoddiad cyfalaf a nodwyd, bydd angen i ni ymrwymo cyllideb refeniw ac arian parod i'r blaenoriaethau. Yn ystod 2017/18, fe wnaethom nodi £0.5 miliwn o'n cyllideb refeniw ar gyfer 2018/19 ac arian o £1 miliwn i gefnogi'r blaenoriaethau corfforaethol newydd. Sicrhawyd cyfraniad refeniw pellach o £ 0.5m drwy broses y gyllideb 2019/20.Bydd angen dyraniadau cyllideb flynyddol yn y dyfodol, ond cydnabyddir y bydd hyn yn anodd ei gyflawni wrth i gyfanswm cyllideb y Cyngor leihau.

Er bod swm o £135 miliwn yn swm mawr, ni fyddai'r Cyngor yn gorfod darparu'r holl arian hwn ei hun. Disgwyliwn y bydd grantiau gan Lywodraeth Cymru ar gael i helpu i ariannu'r gwaith arfaethedig i wella ein hysgolion ac amddiffynfeydd llifogydd. Rydym hefyd yn bwriadu defnyddio incwm o rent tai i helpu i ariannu tai cyngor newydd. Mewn gwirionedd, credwn y bydd yn rhaid i'r Cyngor gyfrannu tua £71 miliwn o'r £135 miliwn.

Gyda'r lefelau buddsoddi ychwanegol hyn, mae'n rhaid inni gyflawni gwelliannau sylweddol. Os ydym yn llwyddiannus - a chredwn y byddwn ni - bydd Sir Ddinbych yn addas ar gyfer y dyfodol, ac yn parhau i fod yn un o'r llefydd gorau yn y DU i fyw, dysgu, gweithio ac ymweld.

Edrych i’r Dyfodol

Mae'n debygol y bydd setliadau cyllid y llywodraeth leol yn lleihau ymhellach yn y tair i bum mlynedd sydd i ddod, ar yr un pryd wrth i'r galw am wasanaethau a chostau codi, felly bydd yn rhaid lleihau'r swm mae'r Cyngor yn ei wario bob blwyddyn yn unol a hynny.

Er bod ansicrwydd ynglŷn â lefel union y gostyngiadau bob blwyddyn, bydd rhaid gwneud penderfyniadau anodd i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i ymdopi gyda'r arian sydd ar gael, ac yn parhau i gyflawni ei flaenoriaethau.
Fodd bynnag, mae record y Cyngor o lwyddiant wrth nodi a chyflawni arbedion wrth reoli cronfeydd wrth gefn a balansau yn ofalus yn arwain at lefel uchel o hyder y bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol tra'n darparu rhyw fraint o fuddsoddiad yn y Cynllun Corfforaethol newydd yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Mae diwygio llywodraeth leol yng Nghymru yn parhau i fod ar yr agenda cenedlaethol, ond nid yw cynigion wedi cael eu cwblhau eto. Bydd integreiddio peth gofal cymdeithasol a darpariaeth iechyd ar draws y rhanbarth yn symud ymlaen yn ystod 2019/20 ac mae'n debygol o ddatblygu ymhellach yn y blynyddoedd i ddod.

Mae manylion llawn am gyllideb y Cyngor ar gyfer 2019/20, gan gynnwys manylion am gyllidebau gwasanaethau, cyllidebau Cyfalaf a Chyfrif Refeniw Tai i'w gweld yn y ddogfen Crynodeb y Gyllideb a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd gan y Cabinet ym Mehefin 2019 fel rhan o'r Adroddiad Cyllid

Mae yna lefel uchel o ansicrwydd ynghylch goblygiadau Prydain yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl rhagweld pa lwybr a gymerir ac a fydd gwerthoedd asedau a'r gyfradd ddisgowntio yn newid o ganlyniad. Gwnaed y rhagdybiaeth na fydd hyn yn amharu'n sylweddol ar werth asedau'r Cyngor nac yn newid y gyfradd ddisgownt. Bydd angen adolygu'r rhagdybiaeth a wneir yn rheolaidd.

Steve Gadd
Prif Swyddog Ariannol (Swyddog Adran 151)

Adran 2 - Datganiad Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r Cyngor Sir

Mae'n rhaid i'r Cyngor Sir:

(i) wneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, y Prif Swyddog Cyllid yw'r unigolyn hwnnw;

(ii) rheoli ei faterion i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o'r adnoddau a diogelu ei asedau;

(iii) cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

Tystysgrif Yr Awdurdod

Rwy'n cymeradwyo Datganiad Cyfrifon Cyngor Sir Ddinbych.

Llofnod…… Dyddiad:……..

Cadeirydd Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon yr Awdurdod yn unol â'r arferion priodol a nodwyd yng Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig ('y Cod').

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:

(i) dewis polisïau cyfrifo addas a'u cymhwyso yn gyson;

(ii) gwneud dyfarniadau a rhagamcanion sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;

(iii) cydymffurfio â Chod yr awdurdod lleol.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd wedi:

(i) cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfredol;

(ii) cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Tystysgrif: Prif Swyddog Cyllid

Rwy'n tystio bod y cyfrifon a gyflwynwyd yn rhoi trosolwg gwirioneddol a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ddinbych ar y dyddiad rhoi gwybod a'i incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019.

Llofnod…… Dyddiad:……..

Steve Gadd
Prif Swyddog Ariannol (Swyddog Adran 151)

Adran 3: Datganiadau Ariannol A Nodiadau Ynglŷn Â'r Cyfrifon 2018/19

Adran 3 Cynnwys

Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu **14**

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr **17**

Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn **19**

Y Fantolen **21**

Datganiad Llif Arian **23**

Nodiadau Ynglŷn â'r Cyfrifon **24**

1. Polisïau Cyfrifo 24
2. Safonau Cyfrifyddu Sydd Wedi'u Cyhoeddi ond heb eu Mabwysiadu eto 39
3. Dyfarniadau Beirniadol wrth Gymhwyso Polisïau Cyfrifo 40
4. Tybiaethau a Wneir am y Dyfodol a Ffynonellau Eraill o Ansicrwydd Amcangyfrif Mawr 40
5. Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen 41
6. Gwariant ac incwm a ddadansoddir yn ôl ei natur 42
7. Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Ariannu dan y Rheoliadau 42
8. Gwariant Gweithredu Arall 46
9. Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi 46
10. Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol 46
11. Treth y Cyngor 47
12. Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR) 48
13. Eiddo, Peiriannau ac Offer 49
14. Eiddo Buddsoddi 52
15. Dyledwyr 53
16. Dyledwyr ar gyfer Trethiant Lleol 53
17. Offerynnau Ariannol 53
18. Asedau i'w Gwerthu 56
19. Credydwyr 56
20. Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd 57
21. Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir Eu Defnyddio 60
22. Cronfeydd Wrth Gefn na Ellir eu Defnyddio 61
23. Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Gweithredol 63
24. Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Buddsoddi 63
25. Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Ariannu 64
26. Cysoniad Rhwymedigaethau S'yn Codi o Weithgareddau Ariannu 64
27. Lwfansau Aelodau 64
28. Tâl Swyddogion 65
29. Costau Archwilio Allanol 69
30. Incwm Grant 70

31. Partïon Cysylltiedig 71
32. Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf 73
33. Prydlesau 74
34. Cynlluniau Pensiwn y Rhoddir Cyfrif Amdanynt fel Cynlluniau Cyfraniad Diffiniedig 75
35. Cynlluniau Pensiwn â Buddiannau Diffiniedig 76
36. Natur a Maint y Risgiau sy'n Deillio o Offerynnau Ariannol 82
37. Asedau Treftadaeth 85

Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu

Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn dangos sut y defnyddir ac ariannir gwariant blynyddol o adnoddau (grantiau llywodraeth, rhenti, treth y cyngor a threthi busnes) gan awdurdodau lleol o gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddiwyd neu a enillwyd gan awdurdodau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'n dangos hefyd sut y dyrannir y gwariant ar gyfer dibenion gwneud penderfyniadau rhwng gwasanaethau'r Cyngor. Cyflwynir incwm a gwariant a gyfrifir o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Nodyn 1 Addasiadau ar gyfer Dibenion Cyfalaf

Mae'r golofn hon yn ychwanegu dibrisiant ac amhariad ac enillion a cholledion ailbrisio yn y llinell gwasanaethau, ac ar gyfer:

- **Gwariant gweithredu arall** – yn addasu ar gyfer gwarediadau cyfalaf gyda throsglwyddiad o incwm ar waredu asedau a'r symiau a ddilëwyd ar gyfer yr asedau hynny.
- **Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi** – didynnir y taliadau statudol ar gyfer ariannu cyfalaf h.y. Darpariaeth Refeniw Isafswm a chyfraniadau refeniw eraill o incwm a gwariant arall gan nad yw'r rhain yn daladwy o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.
- **Trethiant ac incwm grant amhenodol** – addasir grantiau cyfalaf ar gyfer incwm nad yw'n daladwy o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Addasir grantiau refeniw o'r rhai sy'n dderbyniadwy yn y flwyddyn i'r rhai sy'n dderbyniadwy heb amodau neu lle bodlonir amodau trwy gydol y flwyddyn. Mae'r llinell Treth ac Incwm Grant Amhenodol yn cael ei gredydu â grantiau cyfalaf sy'n dderbyniadwy yn y flwyddyn heb amodau neu lle bodlonir amodau yn y flwyddyn.

Nodyn 2 Newid Net ar gyfer yr Addasiadau Pensiwn

Mae'r golofn hon yn dangos y newid net ar gyfer cael gwared o gyfraniadau pensiwn ac ychwanegiad incwm a gwariant Budd-daliadau Gweithwyr IAS19 sydd yn gysylltiedig â phensiwn.

- **Ar gyfer gwasanaethau** mae hyn yn cynrychioli cael gwared o gyfraniadau pensiwn y cyflogwr a wnaed gan yr awdurdod fel a ganiateir drwy statud a rhoi costau gwasanaeth presennol a chostau gwasanaeth y gorffennol yn ei le.
- **Ar gyfer incwm a gwariant ariannu a buddsoddi** – codir y llog net ar y ddyled buddiannau diffiniedig ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Nodyn 3 Gwahaniaethau Eraill

Mae'r golofn hon yn cynnwys gwahaniaethau eraill rhwng symiau a gafodd eu debydu / credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a symiau taladwy/derbyniadwy i'w cydnabod o dan statud.

- **Ar gyfer incwm a gwariant ariannu a buddsoddi** mae hwn yn cydnabod addasiadau i Gronfa'r Cyngor am y gwahaniaethau amseru ar gyfer premiymau a gostyngiadau.

2018/19	Adroddiad Alldro Terfynol (Cyfrifon Rheoli) £000	Addasiadau technegol i Gyfrifon Rheoli £000	Gwariant Net sydd yn daladwy i Gronfa'r Cyngor a Balansau CRT £000	Addasiadau rhwng Sail yr Ariannu a'r Cyfrifyddu: Addasiadau ar gyfer Diberion Cyfalaf (Nodyn 1) £000	Newid Net ar gyfer yr Addasiadau Pensiwn (Nodyn 2) £000	Gwahaniaethau Eraill (Nodyn 3) £000	Cyfanswm yr Addasiadau £000	Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £000
Cwsmeriad, Cyfathrebu a Marchnata	2,964	290	3,254	339	85	0	424	3,678
Gwasanaethau Addysg a Phlant	15,277	(200)	15,077	81	365	(115)	331	15,408
Ysgolion	68,405	(117)	68,288	12,320	(150)	464	12,634	80,922
Gwella Busnes a Moderneiddo	4,521	152	4,673	461	31	(5)	487	5,160
Gwasanaethau Cyffreithiol, AD a Democrataidd	2,584	63	2,647	29	75	14	118	2,765
Corfforaethol a Amrywiol	15,061	(2,890)	12,171	6	(762)	(2)	(758)	11,413
Cyfleusterau, Asedau a Thai	7,328	(516)	6,812	3,414	375	36	3,825	10,637
Cyllid	3,138	(83)	3,055	0	72	4	76	3,131
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	19,556	141	19,697	6,986	335	25	7,346	27,043
Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	2,983	(98)	2,885	1,751	140	(7)	1,884	4,769
Gwasanaethau Cymorth Cymunedol	35,111	1,089	36,200	306	465	(98)	673	36,873
Tai Awdurdod Lleol (CRT)	0	(5,339)	(5,339)	6,485	97	2	6,584	1,245
Cost Net Gwasanaethau	**176,928**	**(7,508)**	**169 420**	**32,178**	**1,128**	**318**	**33,624**	**203,044**
Incwm a Gwariant Arall	0	(165,215)	(165,215)	(35,525)	6,863	(18)	(28,680)	(193,895)
(Arian Dros Ben) neu Ddiffyg	**176,928**	**(172,723)**	**4,205**	**(3,347)**	**7,991**	**300**	**4,944**	**9,149**
Balans agoriadol Cronfa'r Cyngor a'r CRT			**(39,203)**					
Addasiad SAARh9			**(4,733)**					
Balans Cronfa'r Cyngor a'r CRT ar 01.04.18			**(43,936)**					
Llai/Ychwanegu Arian dros Ben neu Ddiffyg ar Falans Gronfa'r Cyngor a'r CRT yn y Flwyddyn			**4,205**					
Balans Terfynol Cronfa'r Cyngor a'r CRT ar 31 Mawrth*			**(39,731)**					

*Am ymraniad o'r balans hwn rhwng gronfa'r Cyngor a'r CRT – gweler y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn

2017/18	Adroddiad Alldro Terfynol (Cyfrifon Rheoli) £000	Addasiadau technegol i Gyfrifon Rheoli £000	Gwariant Net sydd yn daladwy i Gronfa'r Cyngor a Balansau CRT £000	Addasiadau rhwng Sail yr Ariannu a'r Cyfrifyddu: Addasiadau ar gyfer Diberion Cyfalaf (Nodyn 1) £000	Newid Net ar gyfer yr Addasiadau Pensiwn (Nodyn 2) £000	Gwahaniaethau Eraill (Nodyn 3) £000	Cyfanswm yr Addasiadau £000	Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £000
Cwsmeriad, Cyfathrebu a Marchnata	3,004	(218)	2,786	287	113	(10)	390	3,176
Gwasanaethau Addysg a Phlant	13,415	749	14,164	79	444	54	577	14,741
Ysgolion	66,229	(254)	65,975	9,965	61	(763)	9,263	75,238
Gwella Busnes a Moderneiddo	4,556	715	5,271	538	159	2	699	5,970
Gwasanaethau Cyffreithiol, AD a Democrataidd	2,590	(16)	2,574	12	162	(5)	169	2,743
Corfforaethol a Amrywiol	18,021	(4,819)	13,202	2,409	(986)	(6)	1,417	14,619
Cyfleusterau, Asedau a Thai	6,668	(474)	6,194	4,325	537	(75)	4,787	10,981
Cyllid	2,914	217	3,131	0	106	(3)	103	3,234
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	17,765	(856)	16,909	7,047	453	(57)	7,443	24,352
Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	3,001	111	3,112	3,194	216	(14)	3,396	6,508
Gwasanaethau Cymorth Cymunedol	32,356	(242)	32,114	364	736	26	1,126	33,240
Tai Awdurdod Lleol (CRT)	0	(5,666)	(5,666)	7,063	139	15	7,217	1,551
Cost Net Gwasanaethau	**170,519**	**(10,753)**	**(159,766)**	**35,283**	**2,140**	**(836)**	**36,587**	**196,353**
Incwm a Gwariant Arall	0	(159,663)	(159,663)	(31,265)	7,209	(6)	(24,062)	(183,725)
(Arian Dros Ben) neu Ddiffyg	**170,519**	**(170,416)**	**103**	**4,018**	**9,349**	**(842)**	**12,525**	**12,628**
Balans agoriadol Cronfa'r Cyngor a'r CRT			**(39,306)**					
Llai/Ychwanegu Arian dros Ben neu Ddiffyg ar Falans Gronfa'r Cyngor a'r CRT yn y Flwyddyn			**103**					
Balans Terfynol Cronfa'r Cyngor a'r CRT ar 31 Mawrth*			**(39,203)**					

*Am ymraniad o'r balans hwn rhwng gronfa'r Cyngor a'r CRT – gweler y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Mae'r datganiad yn dangos y gost gyfrifeg yn ystod y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â'r arferion cyfrifeg a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant neu renti. Mae Awdurdodau yn codi trethi a rhenti i dalu am wariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifeg. Mae'r sefyllfa trethiant wedi'i dangos yn y Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu ac yn y Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

2017/18				2018/19		
Gwariant Gros £000	**Incwm Gros £000**	**Gwariant Net £000**		**Gwariant Gros £000**	**Incwm Gros £000**	**Gwariant Net £000**
3,353	(177)	3,176	Cwsmeriad, Cyfathrebu a Marchnata	4,289	(611)	3,678
27,395	(12,654)	14,741	Gwasanaethau Addysg a Phlant	29,066	(13,658)	15,408
84,652	(9,414)	75,238	Ysgolion	89,418	(8,496)	80,922
6,179	(209)	5,970	Gwella Busnes a Moderneiddo	5,266	(106)	5,160
3,513	(770)	2,743	Gwasanaethau Cyffreithiol, AD a Democrataidd	3,550	(785)	2,765
49,172	(34,553)	14,619	Corfforaethol a Amrywiol	43,699	(32,286)	11,413
21,784	(10,803)	10,981	Cyfleusterau, Asedau a Thai	22,917	(12,280)	10,637
4,903	(1,669)	3,234	Cyllid	4,459	(1,328)	3,131
35,768	(11,416)	24,352	Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	36,683	(9,640)	27,043
9,987	(3,479)	6,508	Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	9,408	(4,639)	4,769
55,914	(22,674)	33,240	Gwasanaethau Cymorth Cymunedol	62,027	(25,154)	36,873
15,881	(14,330)	1,551	Tai Awdurdod Lleol (CRT)	16,604	(15,359)	1,245
318,501	**(122,148)**	**196,353**	**Cost y Gwasanaethau**	**327,386**	**(124,342)**	**203,044**

2017/18				2018/19		
Gwariant Gros £000	**Incwm Gros £000**	**Gwariant Net £000**		**Gwariant Gros £000**	**Incwm Gros £000**	**Gwariant Net £000**
19,080	(1,397)	17,683	Gwariant Gweithredu Arall (Nodyn 8)	18,687		18,687
16,087	(963)	15,124	Incwm a Gwariant Buddsoddi ac Ariannu (Nodyn 9)	16,267	(551)	15,716
	(216,532)	(216,532)	Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol (Nodyn 10)		(228,298)	(228,298)
353,668	**(341,040)**	**12,628**	**(Arian dros Ben) neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau**	**362,340**	**(353,191)**	**9,149**
		(17,559)	(Arian dros Ben) neu Ddiffyg ar adbrisio Eiddo, Peiriannau ac Offer		0	(9,151)
		4,730	Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn.		0	1,599
		(33,746)	Ail-fesuriad y ddyled budd net a ddiffiniwyd /(Ased)		0	26,255
		(46,575)	**Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall**			**18,703**
		(33,947)	**Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**			**27,852**

Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn yng ngwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor, wedi'u dadansoddi yn 'gronfeydd y gellir eu defnyddio' (h.y. y rhai sy'n cael eu defnyddio i ariannu gwariant neu leihau trethi lleol) a chronfeydd eraill. Mae'r llinell (Arian dros ben) neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Cyngor, ac mae'r manylion wedi'u dangos yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sy'n berthnasol i Falans Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer pwrpasau sefydlu treth y cyngor a rhent. Mae'r Cynnydd/Lleihad Net cyn Trosglwyddo i'r llinell Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn dangos Balans Cronfa'r Cyngor statudol a'r Balans Cyfrif Refeniw Tai cyn unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd gan y Cyngor.

		Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn			Cronfeydd Cyfalaf				
2018/19	**Nodyn**	**Balans Cronfa'r Cyngor £000**	**Cronfeydd Wrth Gefn sydd wedi'u Clustnodi £000**	**Cyfrif Refeniw Tai £000**	**Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £000**	**Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £000**	**Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio £000**	**Cronfeydd Wrth Gefn na Ellir eu Defnyddio £000**	**Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £000**
Balans ar 31 Mawrth 2018		**(7,541)**	**(29,459)**	**(2,203)**	**(5,374)**	**(3,150)**	**(47,727)**	**(5,737)**	**(53,464)**
*** Addasiadau technegol.**			**(4,733)**				**(4,733)**	**580**	**(4,153)**
Balans ar 1 Ebrill,2018		**(7,541)**	**(34,192)**	**(2,203)**	**(5,374)**	**(3,150)**	**(52,460)**	**(5,157)**	**(57,617)**
Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod 2018/19									
(Arian Dros Ben) neu ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	D.I. & G.C.	8,163		986			9,149		17,931
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	D.I. & G.C.							19,780	19,780
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		**8,163**		**986**			**9,149**	**19,780**	**37,711**
Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Ariannu dan y Rheoliadau	7	(4,517)		(427)	(1,060)	(1,445)	(7,449)	16,231	
(Cynnydd)/Lleihad Net cyn Trosglwyddo i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd		**(3,646)**		**559**	**(1,060)**	**(1,445)**	**1,700**	**36,011**	**37,711**
Trosglwyddiadau i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	20	3,579	3,619	(40)			0		
(Cynnydd)/Lleihad yn 2018/19		**67**	**3,619**	**519**	**(1,060)**	**(1,445)**	**1,700**	**36,011**	**37,711**
Balans ar 31 Mawrth 2019		**(7,474)**	**(30,573)**	**(1,684)**	**(6,434)**	**(4,595)**	**(50,760)**	**30,854**	**(19,906)**

***** Cyfeiriwch at Nodyn 17 Offerynnau Ariannol ar gyfer addasiad SAARh9 o (£ 4,609k). Gwnaed addasiad pellach wrth i £ 456k gael ei drin fel grant cyfalaf yn 2017/18 yn lle benthyca darbodus.

		Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn			Cronfeydd Cyfalaf				
2017/18	**Nodyn**	**Balans Cronfa'r Cyngor £000**	**Cronfeydd Wrth Gefn sydd wedi'u Clustnodi £000**	**Cyfrif Refeniw Tai £000**	**Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £000**	**Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £000**	**Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio £000**	**Cronfeydd Wrth Gefn na Ellir eu Defnyddio £000**	**Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod £000**
Balans ar 31 Mawrth 2017		**(7,549)**	**(29,210)**	**(2,547)**	**(4,846)**	**(3,807)**	**(47,959)**	**28,442**	**(19,517)**
Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod 2017/18									
(Arian Dros Ben) neu ddiffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau	D.I. & G.C.	9,994		2,634			12,628		12,628
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	D.I. & G.C.							(46,575)	(46,575)
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		**9,994**	**0**	**2,634**	0	0	**12,628**	**(46,575)**	**(33,947)**
Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Ariannu dan y Rheoliadau	7	(10,172)		(2,353)	(528)	657	(12,396)	12,396	0
Cynnydd/Lleihad Net cyn Trosglwyddo i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd		**(178)**	**0**	**281**	**(528)**	**657**	**232**	**(34,179)**	**33,947**
Trosglwyddiadau i/o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd	20	186	(249)	63			0		0
Cynnydd/Lleihad yn 2017/18		**8**	**(249)**	**344**	**(528)**	**657**	**232**	**(34,179)**	**(33,947)**
Balans ar 31 Mawrth 2018		**(7,541)**	**(29,459)**	**(2,203)**	**(5,374)**	**(3,150)**	**(47,727)**	**(5,737)**	**(53,464)**

Y Fantolen

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r dyledion sy'n cael eu cydnabod gan y Cyngor fel ag yr oeddent ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyngor (asedau llai dyledion) yn cael eu cydweddu â'r cronfeydd wrth gefn y mae'r Cyngor yn eu dal. Adroddir ynglŷn â chronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Mae'r categori cyntaf o gronfeydd wrth gefn yn gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio, h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny y gall yr awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o gronfeydd wrth gefn ac ar unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (er enghraifft y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn na ellir ei defnyddio ond i gyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled). Mae'r ail categori o gronfeydd wrth gefn yn rhai na all y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n dal enillion a cholledion sydd heb eu gwireddu (er enghraifft y Gronfa Adbrisio Wrth Gefn), ble y deuai symiau ar gael i ddarparu gwasanaeth dim ond os gwerthir yr asedau; a chronfeydd wrth gefn sy'n dal gwahaniaethau amseru a gaiff eu dangos yn y llinell 'Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail gyllido o dan reoliadau' yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

31 Mawrth 2018 £000		Nodyn	31 Mawrth 2019 £000	31 Mawrth 2019 £000
100,841	*Anheddau Cyngor*		98,942	
232,385	*Tir ac Adeiladau Eraill*		230,454	
8,546	*Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer*		10,527	
120,165	*Isadeiledd*		122,102	
2,466	*Asedau Cymunedol*		2,466	
18,779	*Asedau sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd*		41,114	
4,258	*Asedau Dros Ben na chânt eu Dal i'w Gwerthu*		5,316	
487,440	Eiddo, Peiriannau ac Offer	13	510,921	
8,495	Asedau Treftadaeth	37	15,145	
8,623	Eiddo Buddsoddi	14	8,581	
1	Buddsoddiadau Hirdymor	17	1	
661	Dyledwyr Hirdymor	17	2,392	
505,220	**Asedau Hirdymor**			**537,040**
7,400	Buddsoddiadau Byrdymor	17	4,400	
4,946	Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu (<1bl)	18	2,898	
1,127	Rhestrau Eiddo		1,238	
23,204	Dyledwyr Byrdymor	15	30,811	
4,027	Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod	DLlA	4,177	
40,704	**Asedau Cyfredol**			**43,524**
(31,935)	Benthyciadau Tymor Byr	17	(26,502)	
(25,950)	Credydwyr Byrdymor	19	(30,603)	
(641)	Darpariaethau		(350)	
(2,298)	Darpariaeth ar gyfer Absenoldebau Cronedig		(2,617)	
(1,042)	Derbyniadau Grantiau Refeniw Ymlaen Llaw		(2,191)	
(2,082)	Grantiau Cyfalaf A Dderbyniwyd Ymlaen Llaw		(2,332)	
(63,948)	**Dyledion Presennol**			**(64,595)**

31 Mawrth 2018 £000		Nodyn	31 Mawrth 2019 £000	31 Mawrth 2019 £000
(3,340)	Credydwyr Hirdymor	17	(3,340)	
(347)	Darpariaethau		(162)	
(175,364)	Benthyciadau Hirdymor	17	(198,539)	
(249,461)	Dyledion Hirdymor Eraill	22	(283,707)	
(428,512)	**Dyledion Hirdymor**			**(485,748)**
53,464	**Asedau Net**			**30,221**
(7,541)	Cronfa'r Cyngor	21	(7,474)	
(29,459)	Cronfeydd Wrth Gefn sydd wedi'u Clustnodi	20	(30,573)	
(2,203)	Cyfrif Refeniw Tai	21	(1,684)	
(5,374)	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	21	(6,434)	
(3,150)	Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso	21	(4,595)	
(47,727)	**Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir Eu Defnyddio**			**(50,760)**
(100,153)	Y Gronfa Adbrisio Wrth Gefn		(102,667)	
249,461	Y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn		283,707	
(205)	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig		(205)	
(157,489)	Cyfrif Addasiadau Cyfalaf		(163,369)	
351	Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol		456	
2,298	Cyfrif Absenoldebau Digolledol Cronedig Byrdymor		2,617	
(5,737)	**Cronfeydd Wrth Gefn na Ellir eu Defnyddio**	22		**20,539**
(53,464)	**Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn**			**(30,221)**

Datganiad Llif Arian

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newid mewn arian parod a chywerthoedd arian parod y Cyngor yn ystod y cyfnod rhoi gwybod. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r awdurdod yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a chywerthoedd arian parod, drwy ddosbarthu llifoedd arian fel gweithgareddau gweithredol, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llifoedd arian net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu'n ddangosydd allweddol o'r graddau y mae gweithrediadau'r Cyngor yn cael eu hariannu drwy drethiant ac incwm grant, neu gan bobl sy'n derbyn gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod. Mae gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli'r graddau y mae all-lifoedd arian parod wedi'u gwneud ar gyfer adnoddau sydd wedi'u bwriadu i gyfrannu at ddarpariaeth gwasanaeth y Cyngor yn y dyfodol. Mae llifoedd arian sy'n codi o weithgareddau ariannol yn ddefnyddiol i ragweld hawliau ar lifoedd arian y dyfodol drwy ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyca) i'r Cyngor.

2017/18 £000		Nodyn	2018/19 £000
12,628	Net (arian dros ben) neu ddiffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau		9,149
(27,053)	Addasiadau i net (arian dros ben) neu ddiffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad yw'n arian parod		(23,821)
2,220	Addasiadau i eitemau a gynhwysir yn y net (arian dros ben) neu ddiffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi neu ariannu		2,738
(12,205)	**Llifoedd arian net gan Weithgareddau Gweithredol**	23	**(11,934)**
29,087	Gweithgareddau Buddsoddi	24	35,623
(20,070)	Gweithgareddau Cyllido	25	(23,839)
(3,188)	**(Cynnydd) neu leihad net mewn arian parod neu gywerthoedd arian parod**		**(150)**
839	Arian parod neu gywerthoedd arian parod ar ddechrau'r cyfnod		4,027
3,188	Cynnydd/(Lleihad) mewn arian parod		150
4,027	**Arian parod neu gywerthoedd arian parod ar ddiwedd y cyfnod**		**4,177**

Mae balans arian parod a chywerthoedd arian parod yn cynnwys yr elfennau a ganlyn:

326	Arian sydd gan y Cyngor		346
(1,499)	Cyfrifon cyfredol banc		(1,469)
5,200	Arian sydd yn y cyfrif mynediad uniongyrchol		5,300
4,027	**Arian parod neu gywerthoedd arian parod ar ddiwedd y cyfnod rhoi gwybod**		**4,177**

Nodiadau Ynglŷn â'r Cyfrifon

1. Polisïau Cyfrifo

i. Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 a'i sefyllfa diwedd blwyddyn o 31 Mawrth 2019. Mae gofyn i'r Cyngor baratoi Datganiad Cyfrifon Blynyddol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru)(Diwygiad) 2018. Mae'r Rheoliadau hynny'n gofyn iddynt gael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifo priodol. Mae'r arferion hyn yn cynnwys 'Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018/19' (y Cod) yn bennaf, a gefnogir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Mae'r confensiwn cyfrifo a fabwysiadir yn y Datganiad Cyfrifon yn gost hanesyddol yn bennaf, wedi'i addasu gan ailbrisio categorïau penodol o asedau ac offerynnau ariannol nad ydynt yn gyfredol.

Mae cyflwyniad y Cyngor o'r cyfrifon yn cydymffurfio â mabwysiadu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh). Mae'r Prif Datganiadau yn cynnwys:

- Datganiad ynglŷn â'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn
- Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
- Y Fantolen
- Datganiad Llif Arian

ii. Cyfrifyddu ar gyfer Ysgolion yr Awdurdod Lleol

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig yn cadarnhau bod y cydbwysedd rheoli ar gyfer ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol (h.y. y categoriau hynny o ysgol a nodir yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, fel y'i diwygiwyd) yn gorwedd gyda'r awdurdod lleol.

Mae y cod hefyd yn nodi bod asedau, rhwymedigaethau, cronfeydd wrth gefn a llifau arian parod yr ysgolion yna yn cael eu cydnabod yn natganiadau ariannol yr awdurdod lleol.

Felly mae trafodion, llifau arian parod a balansau ysgolion yn cael eu cydnabod ym mhob un o ddatganiadau ariannol yr awdurdod fel pe baent yn drafodion, llifau arian a balansau yr awdurdod.

iii. Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir gweithgaredd ar gyfer y flwyddyn y caiff ei gynnal, nid pan wneir neu derbynnir taliadau arian parod. Yn benodol:

- Caiff ffioedd, taliadau a rhenti gan gwsmeriaid eu cyfrif fel incwm ar y dyddiad y mae'r Cyngor yn darparu'r nwyddau neu'r gwasanaethau perthnasol.

- Caiff cyflenwadau o nwyddau a gwasanaethau eu cofnodi fel gwariant pan gânt eu defnyddio. Lle ceir bwlch rhwng y dyddiad y derbynnir cyflenwadau a phryd y cânt eu defnyddio, cânt eu cario fel rhestr eiddo ar y Fantolen.

- Cyfrifir y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau ac sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau ar sail cyfradd log effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na llifoedd arian sydd wedi'u gosod neu eu penderfynu gan y contract.

- Lle cydnabyddir incwm a gwariant ond nad ydyw arian parod wedi'i dderbyn neu ei dalu, cofnodir y dyledwr neu gredydwr ar gyfer y swm perthnasol ar y Fantolen. Lle ceir amheuaeth y caiff dyledion eu setlo, ysgrifennir balans y dyledwyr i lawr a gwneir tâl i refeniw am yr incwm na fydd yn cael ei gasglu o bosibl.

iv. Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod

Caiff arian parod ei gynrychioli gan arian parod mewn llaw ac arian parod a gedwir mewn cyfrifon adnau sy'n ad-daladwy ar orchymyn. Mae cywerthoedd arian parod yn fuddsoddiadau hynod hylifol, byr dymor, sy'n hawdd eu cyfnewid am symiau hysbys o arian parod gyda risg ansylweddol o unrhyw newid yn eu gwerth. Mae hyn yn golygu bod 'Arian Parod a Chywerthoedd Arian Parod' yn cynnwys arian parod a gedwir mewn banc, cyfrifon adnau ar alw a chyfrifon galw mynediad uniongyrchol.

v. Codi taliadau ar Refeniw ar gyfer Asedau nad ydynt yn Gyfredol

Caiff gwasanaethau, gwasanaethau cefnogi a chyfrifon masnachu eu debydu â'r symiau canlynol i gofnodi'r gost o ddal asedau nad ydynt yn gyfredol yn ystod y flwyddyn:

- dibrisiad i'w briodoli i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol
- colledion ailbrisio a lleihad yng ngwerth asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes unrhyw enillion cronedig yn y Gronfa Adbrisio wrth gefn y gall y colledion gael eu dileu yn eu herbyn
- amorteiddio asedau sefydlog annirweddol i'w priodoli i'r gwasanaeth.

Nid oes gofyn i'r Cyngor godi treth y cyngor i ariannu dibrisiad, ailbrisiad a cholledion lleihad yn y gwerth neu amorteiddio. Fodd bynnag, mae gofyn iddo roi cyfraniad ariannol o refeniw tuag at leihad yn ei ofyniad benthyca cyffredinol sy'n gyfystyr â swm a gyfrifir ar sail darbodus a benderfynir gan y Cyngor yn unol â chanllaw statudol. Felly caiff dibrisiad, ailbrisiad a cholledion lleihad yn y gwerth neu amorteiddio eu disodli gan gyfraniad ym Malans Cronfa'r Cyngor (MRP) drwy drafodyn addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn, ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

vi. Buddiannau Gweithwyr

Buddiannau'n daladwy yn ystod cyflogaeth

Telir buddion gweithwyr tymor byr fel cyflogau, gwyliau blynyddol â thâl, absenoldeb salwch a threuliau yn fisol a'u codi ar sail croniadau i linell wasanaeth perthnasol y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Buddiannau Dod â Swydd i Ben

Mae buddiannau dod â swydd i ben yn symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Cyngor i ddod â chyflogaeth swyddog i ben cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad gan y swyddog i dderbyn diswyddiad gwirfoddol, ac yn cael eu codi ar sail croniad i'r llinell gwasanaeth addas yn unol â'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, yn gynt na phryd na chaiff yr awdurdod bellach dynnu'r cynigion buddion yn ôl neu bryd y bydd yr awdurdod yn cydnabod costau ailstrwythuro.

Lle bydd buddiannau dod â swydd i ben yn cynnwys codi pensiynau, mae darpariaethau statudol yn gofyn i falans Cronfa'r Cyngor gael ei godi gyda'r swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu bensiynwr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â safonau cyfrifo perthnasol. Yn Natganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn, mae angen dyraniadau i a gan y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn i gael gwared ar ddebydau a chredydau tybiannol ar gyfer buddion pensiwn wrth ddod â swydd i ben, a'u disodli gyda debydau ar gyfer yr arian parod a delir i'r gronfa bensiynau a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy, ond heb eu talu, ar ddiwedd y flwyddyn.

Buddiannau ar ôl cyflogaeth
Mae gweithwyr y Cyngor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Y Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Bensiynau Athrawon Capita neu ar ran yr Adran Addysg (DfE).

- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Sir y Fflint.

Darparodd y ddau gynllun fuddiannau wedi'u diffinio i aelodau (cyfandaliadau a phensiynau ymddeoliad), a enillwyd gan weithwyr sydd wedi gweithio i'r Cyngor.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer cynllun yr athrawon yn golygu na all y rhwymedigaeth i'r buddiannau hyn gael eu pennu ar y Cyngor fel arfer. Cyfrifir y cynllun felly fel pe bai'n gynllun cyfrannu wedi'i ddiffinio, ac nid yw'r Fantolen yn nodi unrhyw rwymedigaeth i dalu'r buddiannau hyn yn y dyfodol. Caiff llinellau Ysgolion ac Addysg & Gwasanaethau Plant yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr eu codi gyda chyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Pensiynau Athrawon yn y flwyddyn.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
Caiff y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ei gyfrif fel cynllun buddiannau wedi'i ddiffinio:

- Mae rhwymedigaethau Cronfa Bensiwn Clwyd sydd i'w priodoli i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd drwy ddefnyddio'r dull uned wedi'i rhagamcanu – h.y. asesiad o daliadau'r dyfodol a wneir mewn perthynas â buddiannau ymddeol a enillir gan weithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiad gweithwyr ac ati, ac amcangyfrifon enillion wedi'u rhagamcanu ar gyfer gweithwyr cyfredol.

- Mae rhwymedigaethau yn cael disgownt i'w gwerth ar brisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt yn seiliedig ar gynnyrch gwerth y farchnad ar y dyddiad adrodd ar fondiau corfforaethol o ansawdd uchel.

- Mae asedau Cronfa Bensiwn Clwyd sy'n cael eu priodoli i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen am eu pris teg:

  - gwarannau wedi'u dyfynnu – pris cynnig cyfredol
  - gwarannau heb eu dyfynnu - amcangyfrif proffesiynol
  - gwarannau unedol – pris cynnig cyfredol
  - eiddo – gwerth y farchnad.

- Caiff y newid yn rhwymedigaeth pensiynau net ei ddadansoddi i'r cydrannau canlynol:

  Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillir eleni - wedi'i ddyrannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau roedd y gweithwyr yn gweithio iddynt
- cost gwasanaeth yn y gorffennol – y cynnydd mewn rhwymedigaethau yn codi o benderfyniadau'r flwyddyn hon y mae eu heffeithiau yn ymwneud â blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol – wedi'i debydu i'r Arian Dros Ben neu'r Diffyg mewn Darparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o Gorfforaethol & Amrywiol.
- Llog net ar y rhwymedigaeth buddion diffinedig net, h.y. cost llog net ar gyfer y awdurdod – y newid yn ystod y cyfnod yn yr atebolrwydd buddiom diffiniedig net sy'n codi o dreigl amser. Wedi'i godi i linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn unol â Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff hwn ei gyfrifo drwy gymhwyso'r gyfradd ostyngol a ddefnyddiwyd i fesur y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod at y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net ar ddechrau'r cyfnod, - gan ystyried unrhyw newid yn y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i daliadau cyfraniadau a budd-dal.

Ail-fesur yn cynnwys:

- Adenillion ar asedau cynlluniau - ac eithrio symiau a gynhwyswyd mewn llog net ar yr atebolrwydd buddiannau diffiniedig net - tâl i'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall
- Enillion a cholledion actiwaraidd – newidiadau yn y rhwymedigaeth pensiynau net sy'n codi oherwydd nad ydyw digwyddiadau wedi cyd-daro â rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwarïaid wedi diweddaru eu rhagdybiaethau - wedi'u codi i'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall.

Cyfraniadau wedi'u talu i Gronfa Bensiwn Clwyd – arian parod wedi'i dalu fel cyfraniadau gweithiwr i'r gronfa bensiwn

Mewn perthynas â buddiannau ymddeol, mae darpariaethau statudol yn gofyn i Falans Cronfa'r Cyngor gael ei godi gyda'r swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn yn ystod y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â safonau cyfrifo perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn, mae hyn yn golygu bod dyraniadau i a gan y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn i gael gwared ar ddebydau a chredydau tybiannol ar gyfer buddiannau ymddeol a'u disodli gyda debydau ar gyfer yr arian parod a delir i'r gronfa bensiynau ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy, ond heb eu talu, ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sy'n codi ar y Gronfa Bensiynau wrth Gefn, felly'n mesur yr effaith fuddiol ar Gronfa'r Cyngor sydd angen cyfrif am fuddiannau ymddeol ar sail llifoedd arian yn hytrach, na buddiannau a enillir gan weithwyr.

Buddiannau â Disgresiwn

Mae gan y Cyngor bwerau cyfyngedig i ddyfarnu buddiannau ymddeol yn ôl disgresiwn, mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Mae unrhyw rwymedigaethau yr amcangyfrifir iddynt godi o ganlyniad i roi dyfarniad i unrhyw aelod o staff (gan gynnwys athrawon), yn cael eu cronni yn ystod blwyddyn y penderfyniad i wneud y dyfarniad, ac yn cael ei gyfrif drwy ddefnyddio'r un polisïau ag sy'n gymwys i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

vii. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd yw'r digwyddiadau hynny, boed ffafriol neu anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod rhoi gwybod a'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiad:

- Y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth amodau a fodolodd ar ddiwedd y cyfnod rhoi gwybod – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- Y rhai hynny sy'n dangos amodau a gododd ar ôl y cyfnod rhoi gwybod - nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond lle byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith faterol, gwneir datgeliad yn nodiadau'r natur o ddigwyddiadau a'u heffaith ariannol fel y cawsant eu hamcangyfrif.

Nid yw digwyddiadau a gynhaliwyd ar ôl dyddiad awdurdodi'r cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad Cyfrifon.

viii Model Colli Credyd Disgwyliedig

Mae'r awdurdod yn cydnabod colledion credyd disgwyliedig ar ei holl asedau ariannol a ddelir ar gost wedi'i hamorteiddio, naill ai ar sail 12 mis neu oes. Mae'r model colled credyd disgwyliedig hefyd yn berthnasol i symiau derbyniadwy prydles ac asedau contract. Dim ond colledion oes sy'n cael eu cydnabod ar gyfer symiau derbyniadwy masnach sydd gan yr awdurdod.

Cyfrifir colledion amhariad i adlewyrchu'r disgwyliad na fydd llif arian yn y dyfodol yn digwydd oherwydd gallai'r benthyciwr fethu â chyflawni ei rwymedigaethau. Mae Risg Credyd yn chwarae rhan hanfodol wrth asesu colledion. Lle mae risg wedi cynyddu'n sylweddol ers i offeryn gael ei gydnabod i ddechrau, asesir colledion ar sail oes. Lle nad yw'r risg wedi cynyddu'n sylweddol neu'n parhau i fod yn isel, asesir colledion ar sail colledion disgwyliedig 12 mis.

ix. Mesur Gwerth Teg

Mae'r Awdurdod yn mesur rhai o'i asedau heb fod yn ariannol megis asedau dros ben ac adeiladau buddsoddi, a rhai o'i offerynnau ariannol ar werth teg ar bob dyddiad adrodd. Gwerth teg yw'r pris y byddai'n cael ei dderbyn am werthu ased neu a delir i drosglwyddo dyled mewn trafodion trefnus rhwng cyfranogwyr marchnad ar y dyddiad mesur. Mae'r mesur gwerth teg yn tybio bod y trafodion i werthu'r ased neu drosglwyddo'r ddyled yn digwydd naill ai:

a. Yn y brif farchnad ar gyfer yr ased neu ddyled, neu
b. Yn absenoldeb y brif farchnad, yn y farchnad fwyaf buddiol ar gyfer yr ased neu ddyled

Mae'r Awdurdod yn mesur gwerth teg ased neu ddyled fan ddefnyddio'r tybiaethau y byddai cyfranogwyr marchnad yn eu defnyddio wrth brisio'r ased neu ddyled, gan dybio bod cyfranogwyr marchnad yn gweithredu er eu lles economaidd gorau.

Pan fesurir gwerth teg i ased heb fod yn ariannol, bydd yr Awdurdod yn ystyried gallu cyfranogwr marchnad i gynhyrchu buddiannau economaidd drwy ddefnyddio'r ased yn y ffordd orau a mwyaf, neu drwy ei werthu i gyfranogwr marchnad arall a fyddai'n defnyddio'r ased yn y ffordd orau a mwyaf posib.

Mae'r awdurdod yn defnyddio technegau prisiad sy'n addas yn yr amgylchiadau, a lle mae data digonol ar gael, drwy wneud y gorau o ddefnydd o fewnbynnau gweladwy perthnasol a lleihau'r defnydd o fewnbynnau anweladwy.

Caiff mewnbynnau i'r technegau prisiad o ran asedau a dyledion lle mesurir neu datgelir gwerth teg yn natganiadau ariannol yr Awdurdod eu categoreiddio o fewn yr hierarchaeth gwerth teg, fel a ganlyn:

- Lefel 1 – prisiau a ddyfynnwyd (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu ddyledion yr un fath y gall yr awdurdod gael mynediad iddynt ar y dyddiad mesur
- Lefel 2 – mewnbynnau gwahanol i'r prisiau a ddyfynnwyd sydd wedi eu cynnwys o fewn Lefel 1 sy'n weladwy ar gyfer yr ased neu ddyled, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol
- Lefel 3 – mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased neu ddyled

x. Offerynnau Ariannol

Dyledion Ariannol

Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol ar y Fantolen pan fo'r Cyngor yn rhan o ddarpariaethau contract offeryn ariannol, ac wedi'u mesur yn y lle cyntaf ar werth teg ac yn cael eu cario ar gost wedi'u hamorteiddio. Mae taliadau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi gan y gyfradd log effeithiol ar gyfer yr offeryn. Y gyfradd log effeithiol yw'r gyfradd sy'n union ddisgownt o'r taliadau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol dros oes yr offeryn, i'r swm y cafodd ei gydnabod yn wreiddiol.
Ar gyfer yr holl fenthyciadau sydd gan y Cyngor, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif swm sy'n ad-daladwy (ynghyd â llog cronedig); a'r llog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy yn y flwyddyn yn ôl y cytundeb benthyciad.

Mae'r enillion a cholledion ar adbrynu neu setlo benthyciadau yn gynnar yn cael eu credydu a'u debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn adbrynu/setliad. Fodd bynnag, lle mae adbrynu'n digwydd fel rhan o ailstrwythuro'r portffolio benthyciadau sy'n cynnwys addasu neu gyfnewid offerynnau sy'n bodoli eisoes, mae'r premiwm neu'r disgownt yn cael ei dynnu neu ei ychwanegu yn ôl eu trefn o gost wedi'i amorteiddio y benthyciad newydd neu'n un wedi'i addasu, ac mae'r ysgrifennu i lawr i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael ei ledaenu dros oes y benthyciad drwy addasu'r gyfradd log effeithiol. Fodd bynnag, yn 2018/19 gyda chyflwyniad SAARh 9, mae'r Cyngor wedi gorfod ail-gyfrifo swm cario'r benthyciad wedi'i addasu ar 1 Ebrill 2018 gan ddefnyddio'r gyfradd llog effeithiol gwreiddiol. Mae'r newid wedi arwain at gredyd i'r D.I. & G.C. a sefydlu cronfa newydd. Bydd y cynnydd mewn taliadau llog dros weddill cyfnod y benthyciad yn golygu y bydd y gronfa wrth gefn yn cael ei defnyddio i ariannu'r cynnydd hwn.

Lle mae premiymau neu ddisgowntiau wedi cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae rheoliadau yn caniatáu i'r effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor gael ei ledaenu dros y blynyddoedd i ddod. Mae gan y Cyngor bolisi o ledaenu'r enillion neu'r golled dros y tymor a oedd yn weddill ar y benthyciad yn erbyn y premiwm a oedd yn daladwy neu'r disgownt yn dderbyniadwy pan gafodd ei ad-dalu. Mae'r cysoniad o'r symiau a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gost net sy'n ofynnol

yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor yn cael ei reoli gan drosglwyddiad i neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad o'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Asedau Ariannol
Caiff asedau ariannol eu dosbarthu i ddau fath:

- benthyciadau a symiau derbyniadwy – asedau gyda thaliadau sy'n sefydlog neu wedi'u penderfynu, ond nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn marchnad weithredol
- asedion sy'n barod i'w gwerthu – asedau gyda phris wedi'i ddyfynnu ar y farchnad a/neu ddim gyda thaliadau sefydlog neu wedi'u penderfynu

Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy
Cydnabyddir benthyciadau a symiau derbyniadwy ar y Fantolen pan fo'r Cyngor yn rhan o ddarpariaethau contract offeryn ariannol, ac wedi'u mesur yn y lle cyntaf ar werth teg. Maent yn cael eu mesur wedyn ar eu cost wedi'i hamorteiddio. Mae credydau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r ased, wedi'i luosi gan y gyfradd log effeithiol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r asedau ariannol sydd gan yr awdurdod (megis buddsoddiadau tymor byr a thymor hir) mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prif dderbyniadwy sy'n ddyledus (ynghyd â llog cronedig) a'r llog a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n dderbyniadwy am y flwyddyn yn y cytundeb benthyciad.

Pan amharwyd ar asedau oherwydd y tebygolrwydd sy'n codi o ddigwyddiad yn y gorffennol na fydd taliadau sy'n ddyledus o dan gytundeb yn cael eu gwneud, mae'r ased yn cael ei ysgrifennu i lawr a thâl yn cael ei godi ar y gwasanaeth perthnasol (ar gyfer symiau derbyniadwy sy'n berthnasol i'r gwasanaeth hwnnw) neu'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hwn. Mae colled yr amhariad yn cael ei fesur fel y gwahaniaeth rhwng y swm cario a gwerth presennol y llif arian diwygiedig yn y dyfodol wedi'i ddisgowntio ar gyfradd log wreiddiol yr ased.

Mae unrhyw enillion neu golledion sy'n codi o ddatgydnabod yr ased yn cael ei gredydu neu ei ddebydu i linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Benthyciad Meddal
Mae benthyciad meddal yn fenthyciad y mae'r Cyngor wedi'i roi i gorff allanol am gyfradd llog sy'n is na chyfradd y farchnad. Yn yr achos hwn, mae angen defnyddio cyfrifo benthyciad meddal. Fodd bynnag, os ystyrir bod maint y trafodyn yn de-minimis, nid oes angen defnyddio cyfrifo benthyciad meddal. Mae'r Cyngor wedi gosod y lefel de-minimis hon am £150k ar gyfer bob benthyciad unigol a roddir, neu lle nad yw'r addasiad gwerth teg yn faterol.

xi. Grantiau Llywodraeth a Chyfraniadau

Os ydynt yn cael eu talu fel ernes, mewn rhandaliadau neu fel ôl-ddyledion, mae grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau trydydd parti a rhoddion yn cael eu cydnabod yn ddyledus i'r Cyngor pan mae sicrwydd rhesymol:

- y bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r amodau sydd wedi'u hatodi i'r taliadau
- y derbynnir y grant neu'r cyfraniadau.

Nid yw'r symiau sy'n cael eu cydnabod yn ddyledus i'r Cyngor yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd nes y bydd amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu'r cyfraniad wedi'u bodloni. Amodiad yw'r amodau sy'n nodi bod y manteision economaidd yn y dyfodol neu botensial gwasanaeth sydd wedi'u hymgorffori yn yr ased a gafwyd drwy ddefnyddio'r grant neu gyfraniad sy'n gorfod cael ei ddefnyddio gan y derbynnydd fel y nodir, neu bydd yn rhaid dychwelyd y buddion economaidd yn y dyfodol neu'r potensial am wasanaeth yn ôl i'r trosglwyddwr.

Mae arian a roddwyd fel blaendal fel grantiau a chyfraniadau lle nad yw'r amodau wedi'u bodloni yn cael eu cario yn y Fantolen fel credydwyr. Pan fo'r amodau wedi'u bodloni, mae'r grant neu'r cyfraniad yn cael ei gredydu i'r llinell gwasanaeth berthnasol (grantiau refeniw a chyfraniadau y gellir eu priodoli), neu Drethiant ac Incwm Grant nad ydyw'n Benodol (grantiau refeniw heb eu neilltuo a phob grant cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Lle mae grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu gwrthdroi o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Lle nad ydyw'r grant wedi'i ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei bostio i Gronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso. Lle bydd wedi'i gymhwyso, caiff ei bostio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Trosglwyddir symiau yng Nghronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf unwaith y byddant wedi'u defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

xii. Asedau Treftadaeth

Asedau Treftadaeth Diriaethol ac Anniriaethol (disgrifir yn y crynodeb hwn o bolisïau cyfrifo sylweddol fel Asedau Treftadaeth)

Cedwir Asedau Treftadaeth y Cyngor mewn nifer o safleoedd, gan gynnwys Amgueddfa'r Rhyl (o fewn Llyfrgell y Rhyl). Nantclwyd Y Dre, Carchar Rhuthun a Phlas Newydd sydd gan gasgliadau parhaol, ond hefyd mae'r adeiladau eu hunain yn cael eu trin fel Asedau Treftadaeth. Mae pob safle (ac eithrio Nantclwyd Y Dre) yn cael eu hachredu o dan gynllyun Achredu Amgueddfeydd Cyngor Celfyddydau Lloegr.

Cedwir casgliadau o Asedau Treftadaeth i gefnogi prif amcan amgueddfeydd y Cyngor h.y. gofalu am dreftadaeth Sir Ddinbych, ei gwneud yn hygyrch i bawb drwy ysbrydoli, dysgu a mwynhau.

Cydnabyddir Asedau Treftadaeth a'u mesur (gan gynnwys trin enillion a cholledion ailbrisio) yn unol â pholisïau cyfrifo'r Cyngor ar eiddo, cyfarpar ac offer. Fodd bynnag, mae rhai o'r rheolau mesur wedi'u llacio mewn perthynas ag Asedau Treftadaeth wrth i'r Cyngor ystyried y byddai cael prisiadau ar gyfer casgliadau yn cynnwys cost anghyfartal o'i gymharu â'r buddion a ddarperir i ddefnyddwyr datganiadau ariannol. Mae hyn oherwydd natur amrywiol yr asedau a gedwir a'r diffyg mewn gwerthoedd tebyg. Caiif y casgliadau eu monitro yn unol â Pholisi Datblygu Casgladiau a gymeradwywyd o dan Achrediad Amgueddfeydd ac anaml y caiff eitemau eu hychwanegu yn ôl gweithdrefn benodol.

Nod yr holl waith gofal casgliadau yw cydymffurfio â safonau Achredu Amgueddfeydd. Ystyrir oes asedau'r casgliadau yn amhenodol oherwydd gwaith ataliol a gynhaliwyd gan Wasanaeth Treftadaeth Sir Ddinbych, ac oherwydd natur yr eitemau dan sylw. Felly nid ydyw'n addas newid y dibrisiad.

Mae'r Cyngor yn cadw at ganllawiau Achredu Amgueddfeydd ar waredu.

xiii. Eiddo Buddsoddi

Eiddo Buddsoddi yw'r rhai hynny a ddefnyddir ar gyfer ennill rhent a/neu adbrisiant cyfalaf yn unig. Nid yw'n cwrdd â'r diffiniad os defnyddir yr eiddo mewn unrhyw ffordd i hwyluso darpariaeth gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu os yw ar gael i'w werthu.

Mesurir Eiddo Buddsoddi ar y dechrau ar sail cost ac yn ddiweddarach ar sail gwerth teg, sef y pris a fuddai'n cael ei dderbyn i werthu ased o'r fath mewn trafodiad drefnus rhwng cyfranogwyr farchnad ar y dyddiad mesur. Fel ased heb ei hariannu, mesurwyd Adeiladau Buddsoddi ar y defnydd uchaf a'r gorau. Ni chaiff eiddo eu dibrisio ond fe'u hadbrisir yn flynyddol yn ôl amgylchiadau'r farchnad ar ddiwedd y flwyddyn. Mae unrhyw enillion neu golledion yn cael eu postio i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r un driniaeth yn berthnasol i enillion a cholledion ar waredu.

Mae lefel gwariant de-minimis o £30k wedi'i osod ar gyfer Eiddo Buddsoddi, felly bydd unrhyw wariant is ddim yn ddarostyngedig i ofynion cyfrifyddu cyfalaf. Lle caiff ased ei ailbrisio o dan £30k, bydd unrhyw wariant cysylltiedig a dibrisiad fel arfer yn cael ei ysgrifennu allan a bydd yr ased yn cael ei dynnu o'r Gofrestr Asedau Sefydlog.

Mae rhent a dderbynnir mewn perthynas ag eiddo buddsoddi yn cael ei gredydu i'r llinell Incwm Ariannu a Buddsoddi ac yn arwain at gynnydd ym Malans Cronfa'r Cyngor. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau statudol yn caniatáu i enillion a cholledion ailbrisio a gwaredu gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Felly caiff enillion a cholledion eu gwrthdroi allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn a'u postio i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf ac (ar gyfer unrhyw dderbyniadau gwerthiant dros £10,000), i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn.

xiv. Prydlesau

Caiff prydlesau eu dosbarthu fel prydlesau cyllid, lle bydd telerau'r brydles yn trosglwyddo'n sylweddol pob risg a gwobr sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth yr eiddo, peiriannau neu offer gan y prydleswr i'r prydlesai. Caiff pob prydles arall ei dosbarthu fel prydles weithredu.

Pan fo prydles yn cynnwys tir ac adeiladu, caiff yr elfennau tir ac adeiladau eu hystyried ar wahân er mwyn eu dosbarthu.

Caiff trefniadau nad oes ganddynt statws cyfreithiol prydles ond sy'n cyfleu hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am dâl eu cyfrif dan y polisi hwn pan fo cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio asedau penodol.

Y Cyngor fel Prydlesai

Prydlesau Ariannol

Caiff eiddo, peiriannau ac offer a gedwir dan brydlesau ariannol eu cydnabod ar y Fantolen ar ddechrau'r brydles ar eu gwerth teg a fesurir ar ddechrau'r brydles (neu werth presennol taliadau isafswm y brydles, os ydynt yn is). Caiff yr ased a gydnabyddir ei baru gan ddyled am y rhwymedigaeth i dalu'r prydleswr. Caiff costau uniongyrchol cychwynnol y Cyngor eu hychwanegu at swm cludo'r ased. Caiff premiymau a delir wrth ddechrau prydles eu rhoi wrth ysgrifennu i lawr dyled y brydles. Caiff rhenti amodol eu nodi fel treuliau yn y cyfnodau perthnasol.

Caiff taliadau prydlesau eu dosrannu rhwng:

- tâl am gaffael buddiant yn yr eiddo, peiriannau neu offer – fe'u rhoddir wrth ysgrifennu i lawr dyled y brydles, a
- thâl cyllid (caiff ei ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Caiff eiddo, peiriannau ac offer a gydnabyddir dan brydlesau ariannol eu cyfrif gan ddefnyddio'r polisïau a ddefnyddir yn gyffredinol gydag asedau o'r fath, yn amodol ar godi tâl dibrisio dros gyfnod y brydles os yw hyn yn fyrrach nag oes ddefnyddiol a amcangyfrifir yr ased (lle nad yw perchnogaeth yr ased yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd cyfnod y brydles).

Nid oes gofyn i'r Cyngor godi treth y cyngor i dalu dibrisiad neu ailbrisiad a cholledion lleihad yn y gwerth sy'n codi ar asedau ar brydles. Yn hytrach, gwneir cyfraniad doeth blynyddol o gyllid refeniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig yn unol â gofynion statudol. Felly caiff dibrisiad, ailbrisiad a cholledion lleihad yn y gwerth eu disodli gan gyfraniad refeniw ym Malans Cronfa'r Cyngor, drwy drafodyn addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn, ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

Prydlesau Gweithredu

Caiff rhent a delir dan brydlesau gweithredu eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel cost y gwasanaethau sy'n manteisio ar ddefnyddio'r eiddo, peiriannau neu offer ar brydles.

Y Cyngor fel Prydleswr

Prydlesau Ariannol

Pan fo'r Cyngor yn rhoi prydles ariannol dros eiddo neu beiriannau neu offer, caiff yr ased perthnasol ei ysgrifennu allan o'r Fantolen fel gwarediad. Ar ddechrau'r brydles, caiff swm cludo'r ased ar y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Peiriannau neu Offer neu Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu) ei ddiddymu i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r golled wrth ei waredu. Caiff enilliad, sy'n cynrychioli buddsoddiad net y Cyngor yn y brydles, ei gredydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enilliad neu golled wrth waredu (h.y. wedi'i rwydo i ffwrdd yn erbyn gwerth cludo'r ased adeg ei waredu), wedi' baru gan ased prydles (dyledwr hirdymor) ar y Fantolen.

Caiff rhent prydlesau derbyniadwy eu dosrannu rhwng:

- tâl am gaffael buddiant yn yr eiddo, peiriannau neu offer - fe'u rhoddir wrth ysgrifennu i lawr dyled y brydles yn gynnwys unrhyw bremiymau a dderbyniwyd, a
- incwm cyllid (caiff ei gredydu i'r llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Ni chaiff yr enilliad a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wrth ei waredu ei ganiatáu drwy statud i gynyddu Balans Cronfa'r Cyngor ac mae angen ei drin fel derbyniad cyfalaf. Pan fo premiwm wedi'i dderbyn, caiff ei bostio allan o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Pan gaiff y swm dyledus o ran ased y brydles ei

setlo gan daliad rhent mewn blynyddoedd ariannol y dyfodol, caiff ei bostio allan o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Pan dderbynnir rhent y dyfodol, defnyddir yr elfen ar gyfer y derbyniadau cyfalaf ar gyfer gwaredu'r ased i ysgrifennu i lawr dyledwr y brydles. Yn y cam hwn, caiff y derbyniadau cyfalaf gohiriedig eu trosglwyddo i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn.

Nid yw gwerth y gwarediadau sydd wedi'u diddymu yn dâl yn erbyn treth y cyngor, gan fod cost asedau anghyfredol yn cael eu talu'n llawn dan drefniadau ar wahân ar gyfer cyllido cyfalaf. Felly caiff symiau eu hadfeddu i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Prydlesau Gweithredu

Pan fo'r Cyngor yn rhoi prydles weithredu dros eiddo neu beiriant neu offer, caiff yr ased ei gadw yn y Fantolen. Caiff incwm rhentu ei gredydu i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

xv. Refeniw Anghyfnewid

Cydnabod Refeniw o Drafodion Anghyfnewid
Caiff asedau a refeniw sy'n codi o drafodion anghyfnewid eu cydnabod yn unol â gofynion IAS 20 Cyfrifo Grantiau'r Llywodraeth a Datgelu Cymorth y Llywodraeth, ar wahân i pan gânt eu dehongli neu eu haddasu i gyd-fynd â'r sector cyhoeddus fel y cânt eu hegluro yn y Cod a/neu IPSAS 23, "Refeniw o Drafodion Digyfnewid (Trethi a Throsglwyddiadau)

Trafodion trethi
Caiff asedau a refeniw sy'n codi o drafodion trethi eu cydnabod yn y cyfnod y mae'r digwyddiad trethadwy'n digwydd, cyn belled â bod yr asedau yn bodloni diffiniad ased ac yn bodloni meini prawf ar gyfer cael eu cydnabod fel ased.

Trafodion anhrethadwy
Caiff asedau a refeniw sy'n codi o drafodion trosglwyddo eu cydnabod yn y cyfnod y bydd y trefniad trosglwyddo yn rhwymo. Ni chaiff gwasanaethau mewn nwyddau eu cydnabod.

Pan fo trosglwyddiad yn amodol ar amodau sy'n golygu bod angen dychwelyd yr adnoddau a drosglwyddwyd os na chânt eu bodloni, bydd yr awdurdod yn cydnabod dyled nes i'r amod gael ei fodloni.

Sail Mesur Dosbarthiadau Refeniw Mawr o Drafodion Anghyfnewid
Caiff refeniw trethu ei fesur ar werth enwol arian parod, a chywerthoedd arian parod.

Caiff asedau a refeniw a gydnabyddir o ganlyniad i drosglwyddiad eu mesur ar werth teg yr asedau a gydnabyddir ar ddyddiad y cydnabod:

- Caiff asedau ariannol eu mesur ar eu gwerth enwol oni bai bo gwerth amser arian yn berthnasol, a phryd hynny, defnyddir gwerth presennol, a gyfrifir gan ddefnyddio cyfradd ostyngol sy'n adlewyrchu'r risg cynhenid o gadw'r ased; a
- Caiff asedau anariannol eu mesur ar eu gwerth teg, a bennir drwy gyfeirio at werthoedd arsylladwy'r farchnad neu drwy arfarniad annibynnol gan aelod o'r proffesiwn prisio. Caiff symiau derbyniadwy eu cydnabod pan fo trefniant trosglwyddo sy'n rhwymo ar waith ond nad yw arian parod neu asedau eraill wedi'u derbyn.

xvi. Addasiadau Cyfnodau Blaenorol, Newidiadau mewn Polisïau Cyfrifo ac Amcangyfrifon a Gwallau

Gall addasiadau cyfnodau blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifo neu i gywiro gwall materol. Caiff newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifo eu cyfrif yn y dyfodol, h.y. yn y blynyddoedd presennol a'r dyfodol y mae'r newid yn effeithio arnynt ac nid ydynt yn arwain at addasiad cyfnod blaenorol.

Ni wneir newidiadau i bolisïau cyfrifo oni bai bo angen drwy arferion cyfrifo cywir neu pan fo'r newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyngor. Pan gaiff newid ei wneud, caiff ei wneud yn ôl-weithredol (oni nodir yn wahanol) drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wedi'i ddefnyddio bob amser.

Caiff gwallau materol yn ffigurau'r cyfnod blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

xvii. Eiddo, Peiriannau ac Offer

Caiff asedau sydd â sylwedd ffisegol ac y'u cedwir i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu at ddibenion gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol eu dosbarthu fel Eiddo, Peiriannau ac Offer.

Cydnabyddiaeth
Caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Peiriannau ac Offer ei gyfalafu ar sail croniadau, cyn belled â'i bod yn debygol y bydd manteision economaidd neu botensial y gwasanaeth yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r eitem yn llifo i'r Cyngor ac y gellir mesur cost yr eitem mewn modd dibynadwy. Caiff gwariant sy'n cynnal potensial ased i ddarparu buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol ond nad yw'n ychwanegu ato (h.y. trwsio a chynnal a chadw) ei godi fel gwariant pan fydd yn digwydd.

Mae lefel gwariant de-minimis o £30k wedi'i osod ar gyfer eiddo, peiriannau ac offer, felly bydd unrhyw wariant is ddim yn ddarostyngedig i ofynion cyfrifyddu cyfalaf. Lle caiff ased ei ailbrisio o dan £30k, bydd unrhyw wariant cysylltiedig a dibrisiad fel arfer yn cael ei ysgrifennu allan a bydd yr ased yn cael ei dynnu o'r Gofrestr Asedau Sefydlog.

Mesuriad
Caiff asedau eu mesur yn ôl cost i ddechrau, gan gynnwys:

- pris prynu
- unrhyw gostau a briodolir i ddod â'r ased i'r lleoliad a'r cyflwr angenrheidiol er mwyn gallu gweithredu yn y modd y mae'r rheolwyr yn ei fwriadu
- amcangyfrif cychwynnol costau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle y mae wedi'i leoli arno.

Nid yw'r Cyngor yn cyfalafu costau benthyca a ddaw tra bo asedau yn cael eu hadeiladu.

Bernir bod cost asedau a gafaelir ar wahân i'w prynu yn werth teg, oni bai nad oes sylwedd masnachol i'r caffaeliad (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian y Cyngor). Yn yr achos olaf, pan fo ased yn cael ei gaffael drwy gyfnewid, cost y caffaeliad yw swm cludo'r ased a roddir gan y Cyngor.

Yna caiff asedau eu cludo yn y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- isadeiledd – cost hanesyddol dibrisiedig
- asedau cymunedol ac asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol
- anheddau – gwerth cyfredol, a bennir gan ddefnyddio sail gwerth defnydd presennol ar gyfer tai cymdeithasol
- pob ased arall – gwerth cyfredol, a bennir fel y swm a delir am yr ased yn ei ddefnydd
- presennol (gwerth defnydd presennol).

Pan nad oes tystiolaeth o'r farchnad o werth cyfredol oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir costau amnewid dibrisiedig (CAD) fel amcangyfrif o werth cyfredol.

Pan fo gan asedau nad ydynt yn eiddo, oes ddefnyddiol fyr neu werth isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol dibrisiedig fel dirprwy ar gyfer gwerth cyfredol.

Mae adbrisio dilynol o ran asedau anghyfredol wedi'u cynllunio fel rhan o asesiad parhaus er mwyn i bob ased gael ei adbrisio cyn pen pum mlynedd o'i brisiad blaenorol, er y bydd newidiadau materol i brisiad asedau yn cael eu haddasu yn y cyfnod dros dro wrth iddynt ddigwydd. Ail-brisiwyd 100% o'r Tai Cyngor yn ystod 2016/17. Caiff cynnydd o ran prisiadau eu paru gan gredydau i'r Gronfa Adbrisio Wrth Gefn i gydnabod enillion na wireddwyd. Yn eithriadol, gellir credydu enillion i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fyddant yn codi o wrthdroi colled a godwyd ar wasanaeth o'r blaen.
Pan nodir lleihad o ran gwerth, cânt eu cyfrif drwy:

- pan fo balans enillion adbrisio ar gyfer yr ased yn y Gronfa Adbrisio Wrth Gefn, caiff swm cludo'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig)
- pan nad oes balans yn y Gronfa Adbrisio Wrth Gefn neu pan fo balans annigonol, caiff swm cludo'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Adbrisio Wrth Gefn yn cynnwys enillion adbrisio a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, sef dyddiad ei weithredu'n ffurfiol. Mae enillion a godwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi'u cyfuno yn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Amhariad
Caiff asedau eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn i weld a oes unrhyw arwydd y gallai amhariad fod ar ased. Pan fo arwyddion yn bodoli a phan amcangyfrifir bod unrhyw wahaniaethau posibl yn faterol, caiff swm adferadwy'r ased ei amcangyfrif, a phan fo hyn yn llai na swm cludo'r ased, caiff swm amhariad ei gydnabod ar gyfer y diffyg.

Pan gaiff colledion amhariad eu nodi, cânt eu cyfrif drwy:

- pan fo balans enillion adbrisio ar gyfer yr ased yn y Gronfa Adbrisio Wrth Gefn, caiff swm cludo'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y balans hwnnw (hyd at swm yr enillion cronedig)
- pan nad oes balans yn y Gronfa Adbrisio Wrth Gefn neu pan fo balans annigonol, caiff swm cludo'r ased ei ysgrifennu i lawr yn erbyn y llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan gaiff colled amhariad ei wrthdroi o ganlyniad, caiff y gwrthdroi ei gredydu i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd at swm y golled wreiddiol, wedi'i haddasu ar gyfer dibrisiad a fyddai wedi'i godi pe na bai'r golled wedi'i chydnabod.

Dibrisiad
Darperir ar gyfer dibrisiad ar bob ased Eiddo, Peiriannau ac Offer gan ddyraniad systematig eu symiau dibrisiadwy dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau nad oes ganddynt oes ddefnyddiol feidraidd y gellir ei bennu (h.y. tir rhydd-ddaliad ac asedau cymunedol penodol) ac asedau nad ydynt ar gael i'w defnyddio eto (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu).

Cyfrifir dibrisiad ar y sail ganlynol:

- anheddau ac adeiladau eraill - dyraniad llinell syth dros oes ddefnyddiol yr eiddo yn ôl amcangyfrif y prisiwr
- cerbydau, peiriannau, dodrefn ac offer – dull llinell syth
- isadeiledd – dyraniad llinell syth dros 40 mlynedd.

Ni chodir dibrisiant yn ystod y flwyddyn caffaeliad neu warediad.

Cydrannu
Mae'n bolisi gan y Cyngor lle mae eitem faterol o eiddo, peiriannau ac offer gyda chydrannau mawr ble mae'r gost yn sylweddol mewn perthynas â chyfanswm costau'r eitem, mae'r cydrannau yn cael eu dibrisio ar wahân; mae'r gofynion yn berthnasol at wariant gwella a dynnir, gwariant caffael a dynnir, ac ailbrisiadau a wnaed. Mae lefel perthnasedd de-minimis o £2.5miliwn o werth yr ased wedi ei osod. Os yn llai, ni fydd eitemau unigol o eiddo, periannau ac offer yn cael eu hystyried ar gyfer cydrannu; bydd elfennau arwyddocaol yn cael eu hystyried fel rhai y mae eu cost gyfredol yn 20% neu fwy o gyfanswm cost gyfredol yr ased, a'u categoreiddio fel a ganlyn yn seiliedig ar arwyddocâd, bywyd defnyddiol a dull dibrisiant:

- Aradeiledd ac Isadeiledd
- Gorffeniadau Mewnol a Ffitiadau
- Gwasanaethau

Mae tir yn cael ei adnabod fel cydran ar wahân yn ei rinwedd ei hun.

Caiff enillion adbrisio eu dibrisio hefyd, gyda swm sydd gyfwerth â'r gwahaniaethau rhwng dibrisiad gwerth presennol a godir ar asedau a'r dibrisiad a fyddai wedi'i godi ar sail eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Adbrisio Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Gwarediadau ac Asedau Anghyfredol a gânt eu Dal i'w Gwerthu
Pan ddaw'n debygol y bydd swm cludo ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na thrwy ei ddefnyddio'n barhaus, caiff ei ailddosbarthu fel Ased a gaiff ei Ddal i'w Werthu. Caiff yr ased ei ailbrisio'n syth cyn eil ailddosbarthu ac yna caiff ei gario ar y swm isaf a gwerth teg llai costau gwerthu. Pan fo lleihad dilynol i werth teg llai costau gwerthu, caiff y golled ei phostio i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff enillion o ran gwerth teg eu cydnabod hyd at swm unrhyw golledion blaenorol yn unig a gydnabyddir yn y Gwarged neu Golled ar Darpariaeth Gwasanaethau. Ni chaiff dibrisiad ei godi ar Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu.
Os na fydd asedau yn bodloni'r meini prawf i gael eu dosbarthu'n Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu bellach, cânt eu hailddosbarthu'n asedau anghyfredol a'u prisio ar swm isaf eu swm cludo cyn iddynt gael eu dosbarthu fel asedau a gânt eu dal i'w Gwerthu; cânt eu haddasu ar gyfer dibrisiad, amorteiddio neu adbrisio a fyddai wedi'u cydnabod pe na baent wedi'u dosbarthu fel asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu, a'u swm adenilladwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio â gwerthu.

Ni chaiff asedau a gaiff eu gadael neu eu sgrapio eu hailddosbarthu fel Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu.

Pan gaiff ased ei waredu neu ei ddatgomisiynu, caiff swm cludo'r ased ar y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Peiriant, Offer neu'n Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu) ei diddymu i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r golled wrth ei waredu. Caiff derbyniadau o warediadau (os oes rhai), eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enilliad neu golled wrth waredu (h.y. wedi'i rwydo i ffwrdd yn erbyn gwerth cludo'r ased adeg ei waredu). Caiff unrhyw enillion adbrisio a gronnir ar gyfer yr ased yn y Gronfa Adbrisio Wrth Gefn eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

Caiff symiau a dderbynnir ar gyfer gwarediad mwy na £10,000 eu dosbarthu fel derbyniadau cyfalaf. Mae angen i dderbynebau gael eu credydu i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn, ac yna dim ond ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd y gellir eu defnyddio, neu eu neilltuo i leihau angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca (y Nawdd Cyfalaf Gofynnol). Caiff derbynebau eu hadfeddu i'r Gronfa Wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Nid yw gwerth y gwarediadau sydd wedi'u diddymu yn dâl yn erbyn treth y cyngor, gan fod cost asedau nad ydynt yn gyfredol yn cael ei dalu'n llawn dan drefniadau ar wahân ar gyfer cyllido cyfalaf. Caiff symiau eu hadfeddu i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

xviii. Darpariaethau

Darpariaethau

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i'r Cyngor sydd, y mae'n fwy na thebyg, angen setliad trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth, a phan ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r swm y rhwymedigaeth honno.

Codir tâl am ddarpariaethau fel gwariant ar linell y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn y daw'r Cyngor yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a chânt eu mesur ar yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad mantolen y gwariant y mae angen ei wneud er mwyn setlo'r rhwymedigaeth, gan roi ystyriaeth i risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Pan wneir taliadau maes o law, fe'u codir o'r ddarpariaeth sydd eisoes yn y Fantolen. Caiff setliadau a amcangyfrifwyd eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol - pan ddaw'n llai na thebygol y bydd bellach angen trosglwyddo buddiannau economaidd (neu fod setliad is na'r hyn a ddisgwylid yn cael ei wneud), caiff y ddarpariaeth ei dychwelyd a'i chredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.
Pan fo disgwyl i beth, neu'r cyfan, o'r taliad sydd ei angen i setlo darpariaeth gael ei adfer gan barti arall (e.e. o hawliad yswiriant), dim ond pan fo'n bron yn sicr y caiff ad-daliad ei dderbyn os bydd y Cyngor yn setlo'r rhwymedigaeth y caiff hyn ei gydnabod fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol.

xix. Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r Cyngor yn neilltuo symiau penodol wrth gefn er dibenion polisïau yn y dyfodol neu ar gyfer treuliau annisgwyl. Caiff cronfeydd wrth gefn eu creu drwy ddosrannu symiau o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Pan fydd gwariant i'w ariannu o Gronfa wrth Gefn, mae'n cael ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i sgorio yn erbyn yr Arian Dros Ben neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yna caiff y Gronfa wrth Gefn ei neilltuo yn ôl i Falens Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn fel nad oes tâl net yn erbyn y dreth gyngor ar gyfer y gwariant.

xx. Gwariant Refeniw a Ariennir o Gyfalaf Trwy Statud

Codir am wariant a wnaed yn ystod y flwyddyn y gellir ei wneud yn gyfalaf o dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n arwain at greu asedau anghyfredol fel gwariant i gyfrif refeniw'r gwasanaeth perthnasol yn ystod y flwyddyn. Pan fo'r Cyngor wedi penderfynu cwrdd â chostau'r gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu trwy fenthyca, yna bydd trosglwyddiad i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn gwrthdroi'r symiau y codwyd amdanynt yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn fel nad oed unrhyw effaith ar lefel treth y cyngor.

xxi. TAW

Caiff TAW taladwy ei gynnwys fel gwariant dim ond cyhyd ac nad oes modd ei adfer gan Adran Refeniw a Thollau Ei Mawrhydi. Caiff TAW derbyniadwy ei eithrio o'r incwm.

2. Safonau Cyfrifyddu Sydd Wedi'u Cyhoeddi ond heb eu Mabwysiadu eto

O dan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018/19 (y Cod), mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgelu gwybodaeth sy'n nodi effaith newid cyfrifo sy'n ofynnol gan safon cyfrifyddu newydd sydd wedi cael ei gyhoeddi ond heb ei fabwysiadu eto gan y Cod.

SAARh 16 Prydlesau

Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sy'n lesddeiliad i gydnabod y mwyafrif o brydlesau ar y fantolen fel asedau sydd â hawl i'w defnyddio gyda rhwymedigaethau prydles cyfatebol (mae cydnabyddiaeth am brydlesau gwerth isel a thymor byr). Mae CIPFA/LASAAC wedi gohirio gweithredu SAARh16 ar gyfer Llywodraeth Leol hyd at 1 Ebrill 2020.

SCRh 40 Eiddo Buddsoddi: Trosglwyddiad Eiddo Buddsoddi

Mae hyn yn rhoi esboniad pellach o'r achosion lle gellir ailddosbarthu eiddo fel eiddo i'w fuddsoddi. Ni ddisgwylir iddo gael unrhyw effaith ar y Cyngor.

PDAARh 22 Trafodion Arian Tramor ac Ystyriaeth Ymlaen Llaw

Mae hyn yn egluro triniaeth taliadau mewn arian cyfred tramor sydd wedi eu gwneud cyn derbyn neu ddarparu gwasanaethau neu nwyddau. Nid oes gan y Cyngor unrhyw drafodion materol o dan yr addasiad hwn.

PDAARh 23 Ansicrwydd Ynghylch Triniaethau Treth Incwm

Mae hyn yn rhoi arweiniad ychwanegol ar drin treth incwm lle mae ansicrwydd. Ni ddisgwylir i hyn gael effaith ar y cyfrifon.

SAARh 9 Offerynnau Ariannol: Nodweddion Rhagdalu gydag Iawndal Negyddol

Mae hyn yn addasu SAARh 9 i'w gwneud yn glir y dylid defnyddio cost wedi'i hamorteiddio lle mae rhagdaliadau sy'n sylweddol is na'r prifswm a'r llog di-dâl. Nid oes gan y Cyngor unrhyw fenthyciadau o dan yr addasiad hwn.

3. Dyfarniadau Beirniadol wrth Gymhwyso Polisïau Cyfrifo

Wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifo a amlinellir yn Nodyn 1, bu'n rhaid i'r Cyngor wneud rhai dyfarniadau ynglŷn â thrafodaethau cymhleth neu'r rheiny sy'n ymwneud ag ansicrwydd ynglŷn â digwyddiadau'r dyfodol.

- **Lefelau Ariannu'r Llywodraeth i'r Dyfodol –** Mae lefel uchel o ansicrwydd o amgylch y lefelau ariannu ar gyfer awdurdodau lleol i'r dyfodol. Mae'r Cyngor wedi neilltuo symiau mewn darpariaethau, balansau a chronfeydd wrth gefn y mae'n credu sy'n briodol i reoli arian y Cyngor dros y tymor canolig. Mae'r Cyngor hefyd wedi penderfynu bod ei record cryf ym maes rheoli ariannol a chyllidebol yn golygu nad oes rheswm digonol eto i newid y rhagdybiaeth na fydd asedau'r Cyngor yn cael eu hamharu'n sylweddol o ganlyniad i'r angen i gau cyfleusterau a/neu leihau lefelau darpariaeth gwasanaeth yn sylweddol. Mae'r farn hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd.
- **Ansicrwydd Economaidd –** Wrth asesu'r lefelau priodol o ddarpariaethau, balansau a chronfeydd wrth gefn, mae'r darlun economaidd ehangach wedi cael ei ystyried hefyd.

4. Tybiaethau a Wneir am y Dyfodol a Ffynonellau Eraill o Ansicrwydd Amcangyfrif Mawr

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys rhai ffigyrau wedi'u hamcangyfrif sydd wedi eu seilio ar dybiaethau a wnaed gan y Cyngor ynglŷn â'r dyfodol neu sydd fel arall ag ansicrwydd yn perthyn iddynt. Amcangyfrifir trwy roi cyfrif o brofiad hanesyddol, tueddiadau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu'r balansau â sicrwydd, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r tybiaethau a'r amcangyfrifon. Mae'n debygol y bydd y defnydd o amcangyfrifon wrth, er enghraifft, gyfrifo croniadau ac ad-daliadau gwasanaeth yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf oherwydd yr angen i gydymffurfio â chynigion Llywodraeth Cymru i ddwyn ymlaen yr amserlen ar gyfer cyhoeddi datganiadau cyfrifon awdurdodau lleol, er mwyn iddynt gydymffurfio â rhannau eraill o'r sector gyhoeddus. Serch hynny, doedd dim angen unrhyw gynnydd sylweddol yn y defnydd o amcangyfrifon yn y Datganiad o Gyfrifon cyfredol.

Mae'r eitemau yn y Fantolen ar 31 Mawrth 2019, lle mae rhywfaint o risg o addasu yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod fel a ganlyn:

Eiddo, Peiriannau ac Offer
Dibrisir asedau yn ystod eu hoes ddefnyddiol sy'n ddibynnol ar dybiaethau ynglŷn â lefelau atgyweirio a chynnal a chadw a wneir yn y dyfodol mewn perthynas ag asedau unigol. Mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn ei gwneud yn ansicr y bydd modd i'r Cyngor gynnal ei wariant presennol ar atgyweirio a chynnal a chadw, gan beri amheuaeth ynglŷn â hyd yr oes ddefnyddiol sydd wedi ei bennu i rai o'r asedau. Os cwtogir oes ddefnyddiol ased, mae'r dibrisiad yn cynyddu ac mae swm cario'r ased yn gostwng. Caiff eiddo, peiriannau ac offer eu hailbrisio yn ysbeidiol a'u profi'n flynyddol am ddangosyddion o amhariad. Mae angen dyfarniadau i wneud asesiad p'un ai bod dangosydd o amhariad neu beidio. Mae'r profiad amhariad yn cynnwys archwilio'r gwariant cyfalaf a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol i ganfod p'un ai i hynny arwain at

gynnydd yng ngwerth ased neu at amharu â'r gwerth hwnnw. Cafodd Cyngor ei roi i briswyr y Cyngor. Os yw'r canlyniadau gwirioneddol yn wahanol i'r tybiaethau, bydd gwerth asedau Eiddo Peiriannau ac Offer wedi cael eu datgan yn rhy uchel neu'n rhy isel. Byddai hyn yn cael ei addasu y tro nesaf y byddai'r asedau'n cael eu prisio.

Gwerth yr Eiddo, y Peiriannau a'r Offer a ddatgelir ar y Fantolen yw £510,921k a cheir rhagor o wybodaeth o fewn Nodyn 13.

Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP)
Newidiodd y Cyngor ei bolisi MRP ar gyfer 2017/18 mewn perthynas â benthyca â chymorth. Ar gyfer benthyca â chymorth, newidiwyd y polisi i gyfrifo MRP yn seiliedig ar 50 mlynedd ar gyfer dyled Cronfa'r Cyngor ar wariant cyfalaf a dynnwyd cyn 1 Ebrill 2017, ac yn seiliedig ar fywyd defnyddiol disgwyliedig ar gyfer gwariant cyfalaf a dynnwyd ar ôl 1 Ebrill 2017. Cyfanswm y MRP a dalwyd yn 2018/19 oedd £9,297k fel y nodir yn Nodyn 7.

Dyled Pensiwn
Mae'r amcangyfrif o'r ddyled net er mwyn talu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau yn ymwneud â chyfradd y disgownt a ddefnyddir, y gyfradd yr amcanestynir y bydd cyflogau'n cynyddu, newid mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwoldeb a'r adenillion disgwyliedig ar asedau'r gronfa bensiynau. Defnyddir cwmni o actiwarïaid ymgynghorol i ddarparu cyngor arbenigol i'r Cyngor ynglŷn â'r tybiaethau y dylid eu cymhwyso.

Gwerth y ddyled pensiwn a'r gronfa pensiynau wrth gefn gyfatebol sydd wedi ei datgelu ar y Fantolen yw £283,707k. Mae gwybodaeth fanwl wedi ei chynnwys o fewn Nodiadau 22, 34 a 35.

Croniad Buddiannau Gweithwyr
Cyfrifwyd croniad buddiannau gweithwyr (gwyliau blynyddol ac amser hyblyg) ar sail sampl o weithwyr. Balans y Cyfrif Absenoldeb Cronnol fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2019 oedd £2,617k a manylir ynglŷn â hynny yn Nodyn 22.

Ôl-ddyledion
Cynhaliwyd adolygiad o ddyled sydd heb ei thalu a gwnaed lwfans ar gyfer dyledion ag amheuaeth yn eu cylch. Rhaid i unrhyw lwfans a wneir ar gyfer dyledion i'r dyfodol y mae amheuaeth yn eu cylch fod wedi eu seilio ar amcangyfrif. Mae'r lwfans a wneir yn un doeth ond mae unrhyw newidiadau megis hinsawdd economaidd a newidiadau pellach i'r system les yn golygu y gallai fod angen adolygu'r lwfansau flwyddyn nesaf.

Ar 31 Mawrth 2019 roedd gan y Cyngor balans dyledwyr amrywiol o £7,488k.Awgrymodd adolygiad o'r balans hwn fod darpariaeth ddyledion drwg penodol o £943k a darpariaeth gyffredinol o ddyledion drwg o £884k yn briodol. Roedd ôl-ddyledion y Dreth Gyngor yn £2,691k gyda darpariaeth ddyledion drwg o £1,650k. Roedd ôl-ddyledion y Trethi Annomestig Cenedlaethol yn £507k gyda darpariaeth ddyledion drwg o £196k. Roedd ôl-ddyledion o £1,679k yng Ngordaliadau Budd-dal Tai gyda darpariaeth ddyledion drwg o £840k. Dangosir y ffigyrau ar gyfer Rhenti Tai yn Nodyn 2 y Cyfrif Refeniw Tai.

5. Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen

Awdurdodwyd cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon gan y Prif Swyddog Cyllid ym 11 Medi 2019. Nid yw digwyddiadau sydd wedi digwydd ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol nac yn y nodiadau. Pan fo digwyddiadau a ddigwyddodd cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth ynglŷn ag amodau a oedd mewn bodolaeth ar 31 Mawrth 2019, yna bydd y ffigyrau yn y datganiadau ariannol a'r rhai o fewn y nodiadau

wedi cael ei hamrywio ym mhob ffordd yn faterol i adlewyrchu traweffaith yr wybodaeth hon.

6. Gwariant ac incwm a ddadansoddir yn ôl ei natur

Dadansoddir gwariant ac incwm yr awdurdod fel a ganlyn:

2017/18 £000		2018/19 £000
	Gwariant	
132,806	Costau buddiannau gweithwyr	138,136
4,944	Costau gweithwyr ysgolion wirfoddol dan gymorth	4,973
147,668	Costau gwasanaethau eraill	151,394
33,768	Dibrisiant, amorteiddiau & amhariad	33,692
16,087	Taliadau llog	16,267
16,147	Archebiannau ac ardollau	16,734
2,248	Colled wrth waredu asedau	1,144
353,668	**Cyfanswm gwariant**	**362,340**
	Incwm	
(56,471)	Ffioedd, taliadau ac incwm gwasanaeth arall	(60,951)
(963)	Incwm llog a buddsoddi	(551)
(89,376)	Incwm o dreth y cyngor & threthi annomestig	(92,200)
(193,575)	Grantiau llywodraeth a chyfraniadau	(198,874)
(335)	Grantiau a chyfraniadau anllywodraethol	(615)
(320)	Ennill wrth waredu asedau	0
(341,040)	**Cyfanswm incwm**	**(353,191)**
12,628	**Swm dros Ben neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau**	**9,149**

7. Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Ariannu dan y Rheoliadau

Mae'r nodyn hwn yn manylu ynglŷn â'r addasiadau a wneir i Gyfanswm yr Incwm a'r Gwariant Cynhwysfawr y mae'r Cyngor yn eu cydnabod yn ystod y flwyddyn yn unol â'r arferion cyfrifeg priodol ynglŷn â'r adnoddau hynny sydd wedi eu pennu gan ddarpariaethau statudol fel rhai sydd ar gael i'r Awdurdod eu defnyddio i gwrdd â gwariant cyfalaf a refeniw.

Mae'r canlynol yn amlinellu disgrifiad o'r cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu haddasu.

Balans Cronfa'r Cyngor

Cronfa'r Cyngor yw'r gronfa statudol y mae'n rhaid talu holl dderbyniadau'r awdurdod iddi ac y mae'n rhaid cwrdd â holl ddyledion yr awdurdod ohoni, ar wahân i'r graddau y bod rheolau statudol yn dweud yn wahanol. Gall y rheolau hyn hefyd nodi ym mha flwyddyn ariannol y dylai dyledion a thaliadau effeithio ar Falans Cronfa'r Cyngor, nad yw o anghenraid yn unol â'r arfer gyfrifeg briodol. Mae Balans Cronfa'r Cyngor felly'n crynhoi'r adnoddau y mae gan y Cyngor y grym statudol i'w gwario ar ei wasanaethau neu ar fuddsoddiadau cyfalaf yn niwedd y flwyddyn ariannol. I awdurdodau tai, fodd bynnag, nid yw'r balans ar gael i'w gymhwyso i ariannu gwasanaethau'r Cyfrif Refeniw Tai.

Balans y Cyfrif Refeniw Tai
Mae Balans y Cyfrif Refeniw Tai yn adlewyrchu'r rhwymedigaeth statudol i gynnal cyfrif refeniw ar gyfer darpariaeth tai cyngor awdurdod lleol yn unol â Rhan VI Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Mae'n cynnwys balans yr incwm a'r gwariant fel sydd wedi ei ddiffinio gan Ddeddf 1989 sydd ar gael i ariannu gwariant mewn perthynas â swyddogaeth y Cyngor fel landlord.

Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf
Mae'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn yn dal enillion gwaredu tir ac asedau eraill, sydd wedi eu cyfyngu gan statud rhag cael ei defnyddio i wneud dim ar wahân i ariannu gwariant cyfalaf newydd neu i gael eu rhoi i'r naill ochr i ariannu gwariant cyfalaf hanesyddol. Mae balans y gronfa wrth gefn yn dangos yr adnoddau sydd eto i'w cymhwyso at y pwrpasau hyn ar ddiwedd y flwyddyn.

Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso
Mae Cronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso yn dal y grantiau a'r cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at brosiectau cyfalaf y mae'r Cyngor wedi cwrdd â'r amodau ar eu cyfer a fyddai fel arall yn ei gwneud yn ofynnol i ad-dalu'r arian sydd eto i'w gymhwyso i gwrdd â gwariant. Caiff y balans ei gyfyngu gan delerau grant o ran y gwariant cyfalaf y gellir ei gymhwyso yn ei erbyn ac/neu gan y flwyddyn ariannol y dylai hyn ddigwydd.

Mae cyflwyniad y tablau canlynol wedi ei symleiddio er mwyn cynorthwyo'r darllenydd i ddeall yr effaith ar Gronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio.

Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Ariannu dan y Rheoliadau	Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir Eu Defnyddio					
2018/19	**Balans Cronfa'r Cyngor £000**	**Cyfrif Refeniw Tai £000**	**Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £000**	**Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £000**	**Gronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio £000**	**Gronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio Perthnasol**
Addasiadau i'r Adnoddau Refeniw						
Symiau incwm a gwariant sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr sy'n wahanol i refeniw ar gyfer y flwyddyn a gyfrifwyd yn unol â gofynion statudol:						
Costau Pensiwn	(7,654)	(337)			7,991	Y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn
Offerynnau Ariannol	16	3			(19)	Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol
Tâl Gwyliau	(317)	(2)			319	Cyfrif Absonoldebau Cronedig
Gwrthdroad cofnodion a gynhwysir yn y Gwarged neu Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau mewn perthynas â gwariant cyfalaf	(10,083)	(5,674)		(2,795)	18,552	Cyfrif Addasiadau Cyfalaf
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw	**(18,038)**	**(6,010)**	**0**	**(2,795)**		
Addasiadau rhwng Refeniw ac Adnoddau Cyfalaf						
Trosglwyddiad derbyniadau gwerthiant asedau nad ydynt yn gyfredol o refeniw i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn	2,450	288	(2,738)		0	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig
Darpariaeth statudol ar gyfer ad-dalu dyledion	6,444	2,853			(16,366)	Cyfrif Addasiadau Cyfalaf
Gwariant cyfalaf a gyllidir o falansau refeniw	4,627	2,442				
Cyfanswm Addasiadau rhwng Refeniw ac Adnoddau Cyfalaf	**13,521**	**5,583**	**(2,738)**	**0**		
Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf						
Defnydd o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn i ariannu gwariant cyfalaf			1,678		(3,028)	Cyfrif Addasiadau Cyfalaf
Cymhwysiad grantiau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf				1,350		
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf	**0**	**0**	**1,678**	**1,350**		
Cyfanswm Addasiadau	**(4,517)**	**(427)**	**(1,060)**	**(1,445)**	**7,449**	

Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Ariannu dan y Rheoliadau	Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir Eu Defnyddio					
2017/18	**Balans Cronfa'r Cyngor £000**	**Cyfrif Refeniw Tai £000**	**Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £000**	**Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso £000**	**Gronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio £000**	**Gronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio Perthnasol**
Addasiadau i'r Adnoddau Refeniw						
Symiau incwm a gwariant sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr sy'n wahanol i refeniw ar gyfer y flwyddyn a gyfrifwyd yn unol â gofynion statudol:						
Costau Pensiwn	(8,960)	(388)			9,348	Y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn
Offerynnau Ariannol	6	0			(6)	Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol
Tâl Gwyliau	850	(14)			(836)	Cyfrif Absonoldebau Cronedig
Gwrthdroad cofnodion a gynhwysir yn y Gwarged neu Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau mewn perthynas â gwariant cyfalaf	(16,041)	(6,629)		(1,499)	24,169	Cyfrif Addasiadau Cyfalaf
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw	**(24,145)**	**(7,031)**	**0**	**(1,499)**		
Addasiadau rhwng Refeniw ac Adnoddau Cyfalaf						
Trosglwyddiad derbyniadau gwerthiant asedau nad ydynt yn gyfredol o refeniw i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn	2,097	328	(2,220)		(205)	Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig
Darpariaeth statudol ar gyfer ad-dalu dyledion	6,163	2,703			(8,866)	Cyfrif Addasiadau Cyfalaf
Gwariant cyfalaf a gyllidir o falansau refeniw	5,713	1,647			(7,360)	
Cyfanswm Addasiadau rhwng Refeniw ac Adnoddau Cyfalaf	**13,973**	**4,678**	**(2,220)**	**0**		
Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf						
Defnydd o'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn i ariannu gwariant cyfalaf			1,692		(1,692)	Cyfrif Addasiadau Cyfalaf
Cymhwysiad grantiau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf				2,156	(2,156)	
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf	**0**	**0**	**1,692**	**2,156**		
Cyfanswm Addasiadau	**(10,172)**	**(2,353)**	**(528)**	**657**	**12,396**	

8. Gwariant Gweithredu Arall

2017/18 £000		2018/19 £000
9,788	Praesept yr Heddlu	10,210
4,525	Ardoll Awdurdod Tân	4,569
1,834	Praeseptau Cyngor Cymuned	1,955
851	(Enillion)/colledion ar Asedau ar Werth a chael gwared ar asedau nad ydynt yn gyfredol	1,224
685	Costau Gweinyddu Pensiwn	729
17,683	**Cyfanswm**	**18,687**

9. Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi

2017/18 £000		2018/19 £000
9,147	Llog yn daladwy a thaliadau tebyg	9,450
6,524	Llog net ar y rhwymedigaeth net ddiffiniedig (ased)	6,134
(44)	Llog sy'n dderbyniadwy ac incwm tebyg	(106)
(503)	Incwm a gwariant mewn perthynas ag eiddo buddsoddi a newidiadau yn eu pris teg	238
15,124	**Cyfanswm**	**15,716**

10. Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol

2017/18 £000		2018/19 £000
(58,762)	Incwm Treth y Cyngor	(61,942)
(30,614)	Cyfraddau annomestig	(30,258)
(109,860)	Grantiau llywodraeth heb eu neilltuo	(112,860)
(17,296)	Grantiau Cyfalaf a chyfraniadau	(23,238)
(216,532)	**Cyfanswm**	**(228,298)**

11. Treth y Cyngor

Mae incwm Treth y Cyngor yn deillio o newidiadau a godwyd yn unol â gwerth eiddo preswyl, sydd wedi'u dosbarthu yn naw band prisio, gan amcangyfrif gwerthoedd 1 Ebrill 2003 ar gyfer y diben penodol hwn. Cyfrifir taliadau drwy ystyried yr incwm sydd ei angen ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych, pob Cyngor Cymuned a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, a rhannu'r swm hwn gyda Sylfaen Treth y Cyngor. Sylfaen Treth y Cyngor yw cyfanswm yr eiddo ym mhob band sydd wedi'u haddasu i drosi'r rhif yn gyfwerth â Band D, a'i addasu ar gyfer disgowntiau. Y sylfaen dreth yw 39,555 yn 2018/19 (39,275 yn 2017/18).

Y swm sylfaenol (yn cynnwys praesept Cyngor Cymuned a phraesept Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd) ar gyfer eiddo Band D oedd £1,555.39 (£1,487.18 yn 2017/18) ac fe'i lluosogir gan y gyfran a fanylir ar gyfer y band penodol i roi'r swm unigol sy'n ddyledus.

Roedd biliau treth y cyngor yn seiliedig ar luosyddion bandiau A i I:

Band	A	B	C	D	E	F	G	H	I
Lluosydd	6/9	7/9	8/9	9/9	11/9	13/9	15/9	18/9	21/9
Nifer yr eiddo yn system Treth y Cyngor ar 31 Mawrth 2019	3,965	7,204	14,390	7,767	5,395	3,687	1,999	313	169

Dadansoddiad o'r enillion net o Dreth y Cyngor:

2017/18 £000		2018/19 £000
58,762	Treth y Cyngor sy'n gasgladwy	61,942
(9,788)	Swm sy'n daladwy i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd	(10,210)
(240)	Darpariaeth am beidio â thalu Treth y Cyngor	(257)
48,734	**Enillion net o Dreth y Cyngor**	**51,475**
	Hollt Cyngor Sir Ddinbych:	
46,872	Cyngor Sir Ddinbych	49,481
1,834	Cynghorau Cymuned	1,955
28	Gostyngiad Cyfradd Annomestig Dewisol	39
48,734		**51,475**

12. Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)

Trefnir yr NNDR ar sail genedlaethol. Nododd Llywodraeth Cymru'r gyfradd o 51.4c yn 2018/19 (49.9c yn 2017/18) ac yn ddibynnol ar effeithiau trefniadau trawsnewidiol, mae busnesau lleol yn talu cyfraddau a gyfrifir drwy luosi eu gwerth ardrethol gyda'r swm hwnnw. Y Cyngor sy'n gyfrifol am gasglu cyfraddau sy'n ddyledus gan drethdalwyr yn ei ardal, ond yn talu'r enillion i'r gronfa NNDR a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n ailddosbarthu'r symiau sy'n daladwy i awdurdodau lleol ar sail y swm penodol fesul pen o'r boblogaeth.

Roedd incwm yr NNDR (ar ôl gostyngiad a darpariaethau) o £27,905k ar gyfer 2018/19 (£24,102k ar gyfer 2017/18) yn seiliedig ar gyfanswm cyfradd ardrethol o £67,798k ar ddiwedd y flwyddyn.

13. Eiddo, Peiriannau ac Offer

2018/19	Anheddau Cyngor £000	Tir ac Adeiladau Eraill £000	Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer £000	Asedau Isadeiledd £000	Asedau Cymunedol £000	Asedau dros ben £000	Asedau sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd £000	Cyfanswm eiddo, peiriannau ac offer £000
Cost gros 1 Ebrill 2018	115,944	272,813	19,164	163,346	2,546	7,456	18,779	600,048
Llai: Dibrisiant ac Amhariad	(15,103)	(40,428)	(10,618)	(43,181)	(80)	(3,198)	0	(112,608)
Gwerth Llyfr Net 1 Ebrill 2018	**100,841**	**232,385**	**8,546**	**120,165**	**2,466**	**4,258**	**18,779**	**487,440**
Ychwanegiadau	5,347	5,888	4,574	7,451	0	2,247	32,765	58,272
Ailbrisiadau	(479)	(5,960)	0	0	0	(1,218)	0	(7,657)
Dibrisiant – tâl am y flwyddyn.	(2,085)	(6,730)	(2,523)	(4,041)	0	0	0	(15,379)
Dibrisiant – symudiadau eraill	5	2,523	5,259	28	0	36	0	7,851
Amhariad – tâl am y flwyddyn	(4,876)	(5,889)	(63)	(1,473)	0	(1,191)	0	(13,492)
Amhariad – symudiadau eraill	10,933	3,171	36	1,686	0	3,162	0	18,988
Datgydnabod a gwaredu	(11,222)	(3,150)	(5,302)	(1,714)	0	(2,427)	0	(23,815)
Trosglwyddiadau ac ailddosbarthiadau	478	8,216	0	0	0	799	(10,430)	(937)
Gwerth Llyfr Net 31 Mawrth 2019	**98,942**	**230,454**	**10,527**	**122,102**	**2,466**	**5,666**	**41,114**	**511,271**
Cost gros 31 Mawrth 2019	110,068	277,807	18,436	169,083	2,546	6,857	41,114	625,911
Llai: Dibrisiant ac Amhariad	(11,126)	(47,353)	(7,909)	(46,981)	(80)	(1,191)	0	(114,640)
Gwerth Llyfr Net 31 Mawrth 2019	**98,942**	**230,454**	**10,527**	**122,102**	**2,466**	**5,666**	**41,114**	**511,271**
Gwerth Llyfr Net o'r Amhariadau								
Amhariad net i Arian dros ben neu Ddiffyg wrth ddarparu gwasanaethau	(4,876)	(4,325)	(63)	(1,473)	0	(1,156)	0	(11,893)
Amhariad net i'r Gronfa Adbrisio Wrth Gefn	0	(1,564)	0	0	0	(35)	0	(1,599)
	(4,876)	**(5,889)**	**(63)**	**(1,473)**	**0**	**(1,191)**	**0**	**(13,492)**

Mae cyflwyniad y nodyn hwn wedi'i symleiddio ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2018/19

2017/18	Anheddau Cyngor £000	Tir ac Adeiladau Eraill £000	Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer £000	Asedau Isadeiledd £000	Asedau Cymunedol £000	Asedau dros ben £000	Asedau sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd £000	Cyfanswm eiddo, peiriannau ac offer £000
Cost gros 1 Ebrill 2017	112,070	265,192	17,935	156,748	2,564	6,015	5,621	566,145
Llai: Dibrisiant ac Amhariad	(8,451)	(38,444)	(10,126)	(38,396)	(75)	(466)	0	(95,958)
Gwerth Llyfr Net 1 Ebrill 2017	**103,619**	**226,748**	**7,809**	**118,352**	**2,489**	**5,549**	**5,621**	**470,187**
Ychwanegiadau	4,996	9,805	3,281	7,044	5	2,580	15,701	43,412
Ailbrisiadau	87	6,184	0	0	0	(870)	0	5,401
Dibrisiant – tâl am y flwyddyn.	(2,089)	(6,590)	(2,510)	(3,898)	0	(22)	0	(15,109)
Dibrisiant – symudiadau eraill	18	6,849	2,047	73	0	(14)	0	8,973
Amhariad – tâl am y flwyddyn	(4,581)	(9,805)	(35)	(1,333)	(5)	(2,969)	0	(18,728)
Amhariad – symudiadau eraill	0	7,562	6	373	0	273	0	8,214
Datgydnabod a gwaredu	(328)	(9,790)	(2,075)	(446)	0	0	0	(12,639)
Trosglwyddiadau ac ailddosbarthiadau	(881)	1,422	23	0	(23)	(269)	(2,543)	(2,271)
Gwerth Llyfr Net 31 Mawrth 2018	**100,841**	**232,385**	**8,546**	**120,165**	**2,466**	**4,258**	**18,779**	**487,440**
Cost gros 31 Mawrth 2018	115,944	272,813	19,164	163,346	2,546	7,456	18,779	600,048
Llai: Dibrisiant ac Amhariad	(15,103)	(40,428)	(10,618)	(43,181)	(80)	(3,198)	0	(112,608)
Gwerth Llyfr Net 31 Mawrth 2019	**100,841**	**232,385**	**8,546**	**120,165**	**2,466**	**4,258**	**18,779**	**487,440**
Gwerth Llyfr Net o'r Amhariadau								
Amhariad net i Arian dros ben neu Ddiffyg wrth ddarparu gwasanaethau	(2,581)	(7,111)	(35)	(1,333)	(5)	(2,933)	0	(13,998)
Amhariad net i'r Gronfa Adbrisio Wrth Gefn	(2,000)	(2,694)	0	0	0	(36)	0	(4,730)
	(4,581)	**(9,805)**	**(35)**	**(1,333)**	**(5)**	**(2,969)**	**0**	**(18,728)**

Mae cyflwyniad y nodyn hwn wedi'i symleiddio ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2018/19

Dibrisiad

Mae'r Eiddo, Peiriannau ac Offer i gyd wedi cael eu dibrisio drwy ddefnyddio'r dull llinell syth dros y cyfnodau canlynol:

- Anheddau Cyngor – 15-75 mlynedd
- Tir ac Adeiladau Eraill (gan gynnwys asedau treftadaeth) - 1-194 o flynyddoedd
- Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer – 3-10 mlynedd
- Isadeiledd – 40 mlynedd
- Asedau Dros Ben – 5-40 mlynedd

Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir ac a Reolir

Mae tir ac adeiladau eraill yn cynnwys tir ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac a reolir.

Adolygiad Cofrestr Asedau

Bob blwyddyn mae gwerthoedd llyfr net yn y cofrestrau asedau yn cael eu hadolygu ac mae unrhyw asedau sy'n cael eu cynnal ar werth llyfr net o £0, yn cael eu dadgydnabod, lle bo hynny'n briodol. O ganlyniad i'r dadgydnabod hwn, mae'r gwerth llyfr gros wedi'i ostwng gyda gostyngiad cyfatebol mewn dibrisiant cronedig ac amhariad.

O 1 Ebrill 2015 mae lefel prisio de minimis o £30k wedi ei osod

Ymrwymiadau Cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2019, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i nifer o gontractau ar gyfer adeiladu neu wella Eiddo, Peiriannau neu Offer yn 2019/20 a'r dyfodol. Mae'r gost a gyllidebwyd ar gyfer y prif ymrwymiadau yn £9,694k fel isod. Roedd ymrwymiadau tebyg 31 Mawrth 2018 yn £12,878k.

Prosiect	Amcangyfrif Contract £000	Gwariant hyd at 31 Mawrth 2019 £000	Cyfanswm Taliadau Contractau yn y Dyfydol £000
Ysgol Crist Y Gair, Rhyl – Ysgol Newydd	21,198	13,713	7,485
Ysgol Carreg Emlyn – Ysgol Newydd	2,686	2,408	278
Ysgol Llanfair D.C. – Ysgol Newydd	3,269	2,397	872
Tai – Atgyweiriadau Mewnol	897	45	852
Amddiffyn yr Arfordir – Canol Y Rhyl	350	143	207
Cyfanswm	**28,400**	**18,706**	**9,694**

Adbrisiadau

Fel rhan o'r rhaglen i adbrisio'r holl asedau o fewn pum mlynedd i'w prisiad blaenorol, mae cyfran o'r eiddo rhydd-ddaliadol ac ar brydles, sy'n cynnwys portffolio eiddo'r Awdurdod, wedi'u prisio ar 1 Ebrill 2018 gan Mrs C Jones Black BSc (Anrh.) MRICS, ar y seiliau a nodir isod, yn unol â Datganiadau Prisiadau Asedau a Nodiadau Canllaw Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, ond nad oedd yr holl eiddo wedi'u harchwilio. Nid oedd hyn yn ymarferol nac wedi'i ystyried gan y prisiwr o fod yn hanfodol ar gyfer diben prisio. Cynhaliwyd archwiliadau rhwng Awst 2018 a Mai 2019.

Cafodd eiddo a ystyriwyd gan yr Awdurdod yn weithredol eu prisio ar sail gwerth marchnad agored ar gyfer defnydd presennol, neu le nad oedd modd asesu oherwydd nad oedd marchnad ar gyfer yr ased, y gost ddisodli wedi'i dibrisio. Cynhaliwyd Asedau Cerbydau, Peiriannau, Dodrefn ac Offer, Isadeiledd ac asedau cymunedol, ar gost hanesyddol. Caiff anheddau Cyngor eu prisio ar y gwerth gyfredol mewn defnydd fel tai cymdeithasol.

Adeiladau Newydd

Ym mis Ebrill 2018, agorodd Ysgolion newydd Rhuthun, Ysgol Pen Barras a Stryd y Rhos ar safle Glasdir. Cyfanswm cost y gwaith adeiladu oedd £ 11.4m. Mae'r ysgolion newydd wedi cael eu prisio am £ 5.338m yn seiliedig ar niferoedd y disgyblion yn unol â chanllawiau BB98. Mae'r prisiad diwygiedig wedi arwain at golled o £ 5.0m ac mae £ 4.8m ohono wedi'i godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r gweddill i'r Gronfa Ailbrisio

Colledion Amhariad

Yn ystod yr ymarfer ailbrisio ni ddaeth y Prisiwr o hyd i dueddiadau sylfaenol eraill a fyddai'n effeithio ar asedau sy'n weddill heb eu hailbrisio yn ystod 2018/19. Fodd bynnag, cydnabyddir bod yna brosiectau mawr ar y gweill sydd â photensial i effeithio ar brisiadau yn y dyfodol, ond mae'r prosiectau hyn yn eu camau cynnar.

Yn Y Flwyddyn

Yn dilyn tystiolaeth o brisiad annibynnol o eiddo tebyg, mae 35-39 Stryd yr Abaty wedi cael ei amharu. Mae'r prisiad wedi gostwng o £ 0.075m i £ 0.040m ac mae'r amhariad o £ 0.035m wedi'i godi ar y Gronfa Ailbrisio.

14. Eiddo Buddsoddi

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar allu'r Cyngor i wireddu'r gwerth yn ei eiddo buddsoddi neu ar hawl y Cyngor i daliad yr incwm ac enillion y gwaredu. Nid oes gan y Cyngor unrhyw rwymedigaeth gytundebol i brynu, adeiladu neu ddatblygu eiddo buddsoddi, neu atgyweiriadau, cynnal a chadw neu wella. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r symudiad yng ngwerth teg yr eiddo buddsoddi dros y flwyddyn:

2017/18 £000		2018/19 £000
7,360	Balans ar ddechrau'r flwyddyn	8,623
0	Ychwanegiadau	96
0	Gwaredu	0
481	Enillion/(colledion) net o addasiadau gwerth teg	(268)
	Trosglwyddiadau:	
0	• (i)/o Restrau Eiddo	0
782	• (i)/o Eiddo, Peiriannau ac Offer	130
8,623	**Balans ar ddiwedd y flwyddyn**	**8,581**

15. Dyledwyr

31 Mawrth 2018 Ail-ddatganwyd £000		31 Mawrth 2019 £000
7,739	Symiau derbyniadwy masnach	8,853
1,275	Rhagdaliadau	1,913
14,190	Symiau derbyniadwy eraill	20,045
23,204	**Cyfanswm**	**30,811**

Mae ffigurau 2017/18 yn y nodyn uchod wedi'u hailddatgan wrth i Gód 2018/19 ddileu'r gofyniad i ddatgelu dadansoddiad dyledwyr ar draws cyrff y sector cyhoeddus.

16. Dyledwyr ar gyfer Treth y Cyngor

Gellir dadansoddi'r swm dyledus yn y gorffennol ond heb ei amharu ar gyfer y Dreth Cyngor, fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2018 £000	31 Mawrth 2019 £000
Ddyledus o fewn blwyddyn	1,212	1,222
Mwy na blwyddyn	1,550	1,672
	2,762	2,894

17. Offerynnau Ariannol

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu safon gyfrifyddu offerynnau ariannol SAARh 9 ac mae'n weithredol o 1 Ebrill 2018. Y prif newid i'r Cyngor yw ailfesuriad rhwymedigaethau benthyciadau wedi'u haddasu. Ar 31 Mawrth 2018, roedd benthyca'r Cyngor yn cynnwys benthyciad a oedd wedi'i addasu yn dilyn ailstrwythuro'r ddyled yn flaenorol ac a fesurwyd gan ddefnyddio'r gyfradd llog effeithiol newydd. Mae gofyniad newydd y Cod wedi golygu bod y Cyngor wedi gorfod ailgyfrifo swm cario'r benthyciad ar 1 Ebrill 2018 gan ddefnyddio'r gyfradd llog effeithiol wreiddiol. Mae'r newid i fesuriad y benthyciadau hyn wedi arwain at gredyd i'r datganiad incwm cynhwysfawr o £ 4.7m. Mae'r Cod yn nodi y dylai unrhyw wahaniaeth rhwng y swm cario blaenorol a'r swm cario ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gael ei gydnabod fel addasiad agoriadol i gronfeydd wrth gefn ac na ddylid ailddatgan gwybodaeth y flwyddyn flaenorol. Cyflwynir yr addasiad agoriadol yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn.

Gan y bydd y swm yma yn cael ei erydu gan godiadau dilynol mewn taliadau llog dros weddill cyfnod y benthyciad, trosglwyddwyd y credyd i'r Gronfa wrth Gefn wedi'i Chlustnodi ar gyfer Benthyciad a Addaswyd ar 1 Ebrill 2018 (gweler Nodyn 21).

Categorïau o Offerynnau Ariannol

Caiff y categorïau o offerynnau ariannol eu cario yn y Fantolen:

31 Mawrth 2018		Addasiad SAARh 9		01 Ebrill 2018			31 Mawrth 2019	
Tymor Hir £000	Cyfredol £000	Tymor Hir £000	Cyfredol £000	Tymor Hir £000	Cyfredol £000		Tymor Hir £000	Cyfredol £000
1	7,400			1	7,400	**Buddsoddiadau** Benthyciadau a symiau Derbyniadwy	1	4,400
661	14,631			661	14,631	**Dyledwyr** Benthyciadau a symiau Derbyniadwy	2,392	16,993
(175,364)	(31,935)	5,551		(169,813)	(31,935)	**Benthyciadau** Dyledion ariannol ar gost wedi'i hamorteiddio	(198,539)	(26,502)
(3,340)	(23,178)			(3,340)	(23,178)	**Credydwyr** Dyledion ariannol ar gost wedi'i hamorteiddio	(3,340)	(27,523)

Nid yw'r ffigyrau ar gyfer dyledwyr a chredydwyr yn y tabl uchod yn cynnwys unrhyw symiau nad ydynt yn cael eu nodi fel offerynnau ariannol megis taliadau ymlaen llaw, derbyn ebau ymlaen llaw ac unrhyw eitemau statudol.
Mae'r benthyciad sy'n weddill yn y tabl uchod yn cynnwys benthyciad a dderbyniwyd o Gynllun Effeithlonrwydd Ynni Salix, sy'n rhaglen a ddarperir gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Salix Finance a'r Ymddiriedolaeth Garbon i ddarparu benthyciadau di-log. Derbyniodd y Cyngor fenthyciadau gwerth £860k yn ystod blynyddoedd blaenorol a £218k yn ystod 2018/19. Y balans ar y benthyciad hwn ar 31 Mawrth 2019 yw £721k.

Nid yw'r Cyngor yn cyfrif y benthyciadau hyn yn fenthyciadau meddal oherwydd nid yw'r addasiad gwerth teg yn faterol.

Gwariant, Enillion a Cholledion Incwm

Mae enillion a cholledion a gydnabyddir yn y Cyfrif Incwm a Gwariant mewn perthynas ag offerynnau ariannol yn cynnwys yr eitemau canlynol:

2017/18			2018/19		
Dyledion Ariannol £000	**Asedau Ariannol £000**		**Dyledion Ariannol £000**	**Asedau Ariannol £000**	**Cyfanswm £000**
9,147		Traul Llog Colledion dadgydnabod	9,450		9,450
9,147		**Cyfanswm traul mewn Arian Dros Ben neu ddiffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau**	**9,450**		**9,450**
	(44)	Incwm llog Enillion dadgydnabod		(106)	(106)
	(44)	**Cyfanswm incwm Arian Dros Ben neu ddiffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau**		**(106)**	**(106)**

Gwerthoedd Teg o Asedau a Dyledion

Caiff asedau ariannol a dyledion ariannol y Cyngor eu cario yn y Fantolen ar y gost wedi'i hamorteiddio. Mae SAARh 7 yn gofyn bod Gwerthoedd Teg yr asedau a'r dyledion hyn yn cael eu datgelu ar gyfer dibenion cymharu. Diffinnir Gwerth Teg fel y swm y gellir cyfnewid ased amdano, neu setliad dyled, rhwng partïon gwybodus, parod mewn gwerthiant hyd braich. Gwerth Teg offeryn ariannol wrth ei gydnabod am y tro cyntaf yw pris y trafodyn fel arfer. Roedd dyled y Cyngor oedd yn weddill ar 31 Mawrth 2018 a 31 Mawrth 2019 yn cynnwys benthyciadau o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB), awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill a Chynllun Effeithlonrwydd Ynni Salix. Mae ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor, Arlingclose Cyf, wedi darparu symiau Gwerth Teg i'r Cyngor mewn perthynas â'i bortffolio dyledion. Mae Arlingclose Cyf wedi amcangyfrif y gwerthoedd teg drwy gyfrifo gwerth presennol net y llifau arian parod cytundebol sy'n weddill ar 31 Mawrth 2019.

Yn achos buddsoddiadau'r Cyngor, roedd rhain yn cynnwys adneuon gyda Banciau a'r Swyddfa Rheoli Dyled . Roedd dyddiadau aeddfedu'r buddsoddiadau hyn o fewn 12 mis i ddyddiad y Fantolen. Nid yw contractau'r adneuon tymor yn caniatáu adbryniant cynamserol. Nid oedd nam ar unrhyw un o'r buddsoddiadau (h.y. mewn risg o ddiffygdalu). Mae gwerthoedd teg ar gyfer buddsoddiadau felly wedi'u hasesu fel bod yr un peth â chario'r swm ar y Fantolen.

Mae Gwerth Teg yn fwy na'r swm cario oherwydd bod benthyciadau'r Cyngor yn rhedeg ar gyfraddau a oedd yn sefydlog ar y pryd y cawsant eu cymryd. Mae'r ymrwymiad hwn i dalu llog ar gyfraddau sy'n uwch na'r cyfraddau benthyca newydd cyfatebol ar ddyddiad y Fantolen yn golygu y byddai'r Cyngor yn gorfod talu mwy na'r swm cario os ydyw'n dewis ad-dalu ei fenthyciadau ar y dyddiad hwnnw.

Mae'r Gwerthoedd Teg a gyfrifir fel a ganlyn:

31 Mawrth 2018			31 Mawrth 2019	
Swm Cario £000	**Gwerthoedd Teg £000**		**Swm Cario £000**	**Gwerthoedd Teg £000**
(207,299)	(293,640)	Dyledion Ariannol	(225,041)	(314,658)
(3,340)	(3,340)	Credydwyr Hirdymor	(3,340)	(3,340)
(210,639)	**(296,980)**	**Cyfanswm Dyledion Ariannol**	**(228,381)**	**(317,998)**
7,401	7,401	Benthyciadau a Symiau Derbyniadwy	4,401	4,401
661	661	Dyledwyr Hirdymor	2,392	2,392
8,062	**8,062**	**Cyfanswm Asedau Ariannol**	**6,793**	**6,793**

18. Asedau i'w Gwerthu

	Cyfredol	
	2017/18 £000	**2018/19 £000**
Balans yn weddill ar ddechrau'r flwyddyn	3,305	4,946
Asedau sydd wedi'u neilltuo fel rhai sydd i'w gwerthu		
o Eiddo, Peiriannau ac Offer	1,864	1,045
Colledion Adbrisio	(401)	(315)
Enillion Adbrisio	1,478	235
Asedau sydd ddim wedi'u neilltuo fel rhai sydd i'w gwerthu		
i Eiddo, Peiriannau ac Offer	(400)	(395)
Asedau a werthwyd	(900)	(2,618)
Balans yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn	**4,946**	**2,898**

19. Credydwyr

31 Mawrth 2018 Ail-ddatganwyd £000		**31 Mawrth 2019 £000**
(14,968)	Symiau taladwy masnach	(17,951)
(10,982)	Symiau taladwy eraill	(12,652)
(25,950)	**Cyfanswm**	**(30,603)**

Mae ffigurau 2017/18 yn y nodyn uchod wedi'u hailddatgan wrth i Gód 2018/19 ddileu'r gofyniad i ddatgelu dadansoddiad credydwyr ar draws cyrff y sector cyhoeddus.

20. Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd

Mae'r nodyn hwn yn nodi'r symiau a neilltuwyd o Gronfa'r Cyngor a balansau'r Cyfrif Refeniw Tai mewn Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd i ddarparu arian ar gyfer cynlluniau gwariant i'r dyfodol a'r symiau a ddaeth o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd i ddiwallu gwariant Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai yn 2018/19.

	Balans ar 31 Mawrth 2017 £000	Trosglwydd -iadau allan 2017/18 £000	Trosglwydd-iadau i mewn 2017/18 £000	Balans ar 31 Mawrth 2018 £000	Addasiad SAARh 9 £000	Balans ar 01 Ebrill 2018 £000	Trosglwydd -iadau allan 2018/19 £000	Trosglwydd-iadau i mewn 2018/19 £000	Balans ar 31 Mawrth 2019 £000
Cronfa'r Cyngor:									
Balansau gan ysgolion dan gynllun dirprwyo (i)	1,056	730	(1,442)	344		344	1,179	(1,352)	171
Cronfeydd Wrth Gefn a ddelir fel rhan o Gynllun Corfforaethol Y Cyngor (v) 2012									
Buddsoddiad Strategol Ysgolion yr 21ain Ganrif	(2,375)	3,478	(1,864)	(761)		(761)	2,330	(1,569)	0
Buddsoddiad Strategol Tai Gofal Ychwanegol	(2,141)	0	(400)	(2,541)		(2,541)	2,941	(400)	0
Cynlluniau Tref/Datblygiad Economaidd	(191)	193	(2)	0		0	0	0	0
Cronfeydd Wrth Gefn Grantiau Penodol									
Grantiau Refeniw heb eu defnyddio	(460)	173	(173)	(460)		(460)	173	(203)	(490)
Rheoli Gwastraff Cynaliadwy (iv)	(3,347)	0	0	(3,347)		(3,347)	1,087	0	(2,260)
Cronfeydd Wrth Gefn a ddelir ar gyfer Achosion Gyfreithiol									
Gofynion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (a.106)	(1,174)	13	(4)	(1,165)		(1,165)	8	0	(1,157)
Statws Sengl	(294)	0	0	(294)		(294)	294	0	0
Cronfeydd Wrth Gefn Mawr Eraill									
Lliniaru Cyllideb (ii)	(2,511)	2,122	(3,182)	(3,571)		(3,571)	780	(294)	(3,085)
Blaenoriaethau Corfforaethol 2017	0	0	(1,000)	(1,000)		(1,000)	333	(243)	(910)
Gofal Cymdeithasol i Oedolion (iii)	(2,118)	546	0	(1,572)		(1,572)	1,162	(411)	(821)
Cynlluniau Cyfalaf (v)	(5,463)	5,503	(4,789)	(4,749)		(4,749)	4,555	(6,067)	(6,261)
Lleoliadau Arbenigol	(522)	522	0	0		0	0	0	0
Adferiad Blwydd-dalialau	(1,932)	1	(699)	(2,630)		(2,630)	0	0	(2,630)
Cronfa Yswiriant	(834)	18	(123)	(939)		(939)	0	(280)	(1,219)
Cronfa Rheoli Risg	(331)	0	(57)	(388)		(388)	0	(54)	(442)
Dosbarthu Newid	(625)	679	(305)	(251)		(251)	251	0	0
Cronfa Benthyciad Wrth Gefn wedi'i Haddasu	0	0	0	0	(4,733)	(4,733)	57	0	(4,676)
Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Digwyddiadau Mawr									
Urdd	(67)	0	(21)	(88)		(88)	1	(22)	(109)
Etholiadau	(123)	65	0	(58)		(58)	0	(27)	(85)
CDLI	(107)	0	(20)	(127)		(127)	0	(20)	(147)
Tywydd Garw yn cynnwys Cynnal a Chadw yn y Gaeaf	(565)	127	0	(438)		(438)	0	0	(438)

	Balans ar 31 Mawrth 2017 £000	Trosglwydd -iadau allan 2017/18 £000	Trosglwydd-iadau i mewn 2017/18 £000	Balans ar 31 Mawrth 2018 £000	Addasiad SAARh 9 £000	Balans ar 01 Ebrill 2018 £000	Trosglwydd -iadau allan 2018/19 £000	Trosglwydd-iadau i mewn 2018/19 £000	Balans ar 31 Mawrth 2019 £000
Cronfeydd Wrth Gefn Y Gwasanaethau									
Strategaeth Hamdden	(373)	0	0	(373)		(373)	0	0	(373)
Prif Brosiectau'r Priffyrdd	(159)	0	0	(159)		(159)	159	0	0
Datblygiad Rhwydweithiau TG	(567)	330	(42)	(279)		(279)	50	0	(229)
Mentrau Cefndy	(141)	0	(35)	(176)		(176)	168	0	(8)
Cyfarwyddiaeth Amglychedd	(189)	6	0	(183)		(183)	2	0	(181)
Dylunio a Datblygu	(120)	0	0	(120)		(120)	0	0	(120)
Gweinyddu Cyllid Allanol	(116)	0	0	(116)		(116)	0	0	(116)
Cyllid a Chyfreithiol	(84)	0	(19)	(103)		(103)	0	(81)	(184)
Refeniw a Budd-daliadau	(402)	214	(248)	(436)		(436)	0	(16)	(452)
Y Tu Allan i'r Sir/Adennill Costau	(226)	226	0	0		0	0	0	0
Crwner	(239)	0	(43)	(282)		(282)	0	0	(282)
Diwygiadau ADY	(112)	27	(179)	(264)		(264)	0	(106)	(370)
Datblygu Rhwydwaith TG i Ysgolion	(60)	34	0	(26)		(26)	11	0	(15)
Fframwaith Ysgolion Gogledd Cymru	(12)	12	(54)	(54)		(54)	54	(52)	(52)
Arall									
Ystwythder Ariannol Ysgolion	(200)	109	(174)	(265)		(265)	0	0	(265)
Moderneiddio Addysg	(181)	88	0	(93)		(93)	0	0	(93)
Datblygu Systemau TG (EDRMS)	(54)	0	(35)	(89)		(89)	20	0	(69)
Bwrdd U.E.Ch	(156)	33	(14)	(137)		(137)	0	(65)	(202)
A.117 Deddf Iechyd Meddwl	(52)	0	0	(52)		(52)	52	0	0
Cronfa wrth gefn Aelodau Ardal	(15)	0	0	(15)		(15)	0	0	(15)
Cyllideb Gyfun Gwasanaethau Cyfarpar Cymunedol	(38)	18	0	(20)		(20)	0	(13)	(33)
Cynllunio Darpariaeth i Gymru	(164)	8	(39)	(195)		(195)	0	0	(195)
Hyfforddiant ar y cyd	(30)	0	0	(30)		(30)	0	0	(30)
Cynlluniau Arwyddo	(86)	0	(13)	(99)		(99)	64	0	(35)
Ffioedd Cartrefi Gofal	(358)	0	0	(358)		(358)	358	0	0
Cronfa Amwynder Gofal Cymdeithasol	(14)	0	0	(14)		(14)	0	0	(14)
Arolwg Preswylwyr	(37)	0	0	(37)		(37)	3	0	(34)
Newid Sianel	(77)	36	0	(41)		(41)	41	0	0
Derneiddio Gofal Cymdeithasol	(212)	0	0	(212)		(212)	0	0	(212)
Plant gydag Anableddau	(79)	57	(9)	(31)		(31)	0	0	(31)
Gweithwyr Cefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol	(47)	0	0	(47)		(47)	0	0	(47)
Cyfleusterau	(184)	0	0	(184)		(184)	0	0	(184)
Prosiect Pictiwrésg	(152)	0	0	(152)		(152)	0	0	(152)
Glannau Rhyl	(150)	150	0	0		0	0	(21)	(21)
Gofal Cymdeithasol mewn Partneriaeth	0	0	(17)	(17)		(17)	0	0	(17)
Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol	0	0	(116)	(116)		(116)	0	0	(116)
Uned Fusnes Diogelu	0	0	(340)	(340)		(340)	0	(8)	(348)
Cyflawni Trawsnewidiad	0	0	(234)	(234)		(234)	0	(176)	(410)
Tîm Comisiynu Rhanbarthol	0	0	(41)	(41)		(41)	0	(4)	(45)
Hyfforddiant Gwasanaeth Gwybodaeth i	0	0	(34)	(34)		(34)	0	(7)	(41)
Deuluoedd	0	0	0	0		0	0	(818)	(818)
Costau Cau Ysgolion	0	0	0	0		0	0	(50)	(50)

	Balans ar 31 Mawrth 2017 £000	Trosglwydd -iadau allan 2017/18 £000	Trosglwydd-iadau i mewn 2017/18 £000	Balans ar 31 Mawrth 2018 £000	Addasiad SAARh 9 £000	Balans ar 01 Ebrill 2018 £000	Trosglwydd -iadau allan 2018/19 £000	Trosglwydd-iadau i mewn 2018/19 £000	Balans ar 31 Mawrth 2019 £000
Cais Twf	0	0	0	0		0	0	(5)	(5)
Datblygiad Arweinyddiaeth	0	0	0	0		0	0	(150)	(150)
Prydau Ysgol am Ddim									
Cyfanswm	**(29,210)**	**15,518**	**(15,767)**	**(29,459)**	**(4,733)**	**(34,192)**	**16,133**	**(12,514)**	**(30,573)**

Rhoddir manylion isod am brif gronfeydd wrth gefn y Cyngor:

(i) Balansau gan yr ysgolion dan gynllun dirprwyo: Yn unol ag adran 48 Deddf Safonau Ysgol a Fframwaith 1998, mae cynllun Sir Ddinbych ar gyfer ariannu ysgolion yn darparu ar gyfer trosglwyddo balansau ysgolion unigol.

(ii) Lliniaru Cyllideb: mae hyn wedi cael ei sefydlu i liniaru'r effeithiau o ostyngiadau yn y dyfodol mewn cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ac mae'n rhan o strategaeth y gyllideb ar gyfer 2019/20 a thu hwnt.

(iii) Gofal Cymdeithasol i Oedolion: Sefydlwyd a cynhaliwyd y gronfa wrth gefn hon er mwyn helpu i ddarparu'r gwasanaeth gyda ystwythder ariannol i ymdrin â phwysau cyllidebol yn ystod y flwyddyn.

(iv) Rheoli Gwastraff Cynaliadwy: sefydlwyd hyn i liniaru effaith gostyngiadau cyllid grant yn y dyfodol ac i'w defnyddio ar brosiectau rheoli gwastraff penodol.

(v) Ysgolion yr 21ain Ganrif a Thai Gofal Ychwanegol: Fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol 2012, dechreuodd y Cyngor ar gynllun uchelgeisiol o fuddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion, priffyrdd, gofal ychwanegol ac adfywio. Mae'r cronfeydd wrth gefn wedi'i sefydlu i neilltuo arian parod sydd ei angen i ariannu prosiectau amrywiol. Trosglwyddwyd yr arian sy'n weddill i'r Gronfa Cynlluniau Cyfalaf i ariannu buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol yn yr ardaloedd hyn.

(vi) Cronfa Wrth Gefn benthyciadau addasedig: Mae'r gronfa wrth gefn wedi'i chreu o ganlyniad i gynnydd dros dro a gydnabuwyd yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn dilyn newid yn y cyfrifiad o swm cario benthyciadau addasedig y Cyngor ar 1 Ebrill 2018 fel yn ofynnol gan SAARh 9. Bydd y gronfa wrth gefn yn cael ei defnyddio i niwtralu effaith taliadau llog effeithiol uwch i'r Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr dros weddill oes y benthyciadau. Am ragor o fanylion, cyfeiriwch at nodyn 18 – Offerynnau Ariannol.

21. Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir Eu Defnyddio

31 Mawrth 2018 £000		31 Mawrth 2019 £000
(7,541)	Cronfa'r Cyngor	(7,474)
(29,459)	Cronfeydd Wrth Gefn sydd wedi'u Clustnodi (Nodyn 20)	(30,573)
(2,203)	Cyfrif Refeniw Tai	(1,684)
(5,374)	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	(6,434)
(3,150)	Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso	(4,595)
(47,727)	**Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio**	**(50,760)**

Balansau Refeniw

Mae balansau refeniw Cronfa'r Cyngor ar gael i'r Cyngor Sir ar gyfer pwrpasau cyffredinol neu benodol ac yn cynrychioli croniant gorniferoedd y gorffennol yng Nghyfrif Refeniw Cronfa'r Cyngor. Nid yw balansau'r Cyfrif Refeniw Tai yn rhan o Falansau Cronfa'r Cyngor ac maent yn cael eu nodi ar wahân.

31 Mawrth 2018 £000		Trosglwyddo (i mewn) / allan £000	31 Mawrth 2019 £000
	Balansau Refeniw Cronfa'r Cyngor		
(7,135)	Balansau Cyffredinol	0	(7,135)
(406)	Balansau a Glustnodwyd	67	(339)
(7,541)	**Cyfanswm Balansau Cronfa'r Cyngor**	**67**	**(7,474)**
(2,203)	**Balansau'r Cyfrif Refeniw Tai**	**519**	**(1,684)**

Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf

Bydd incwm o werthu asedau nad ydynt yn gyfredol yn cael ei gredydu i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf, ac yna gellir ei ddefnyddio i ariannu gwariant cyfalaf newydd.

2017/18			2018/19		
Cyfanswm £000			Cronfa'r Cyngor £000	Cyfrif Refeniw Tai £000	Cyfanswm £000
(4,846)		**Balans ar 1 Ebrill**	**(5,218)**	**(156)**	**(5,374)**
(2,158)	A	Derbyniadau – Gwerthiant Asedau	(2,407)	(288)	(2,695)
(62)		Derbyniadau – Grantiau a Ad-dalwyd	(43)	0	(43)
(7,066)			**(7,668)**	**(444)**	**(8,112)**
	Tynnu	Wedi'i gymhwyso yn ystod y flwyddyn:			
1,446		Gwariant Cyfalaf Ariannol - arall	1,390	72	1,462
246		Adbryniant dyledion	0	216	216
(5,374)		**Balans ar 31 Mawrth**	**(6,278)**	**(156)**	**(6,434)**

Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso

2017/18 £000		2018/19 £000	£000
(3,807)	**Balans ar 1 Ebrill**		**(3,150)**
	A Grantiau a Chyfraniadau a gafwyd yn y flwyddyn		
(14,887)	- Cronfa'r Cyngor	(19,697)	
(2,409)	- Cyfrif Refeniw Tai	(3,540)	
(728)	- Gwariant refeniw a ariennir o gyfalaf trwy statud	(2,465)	(25,702)
	Llai Grantiau a Chyfraniadau sydd wedi'u cynhwyso yn ystod y flwyddyn		
16,525	- Grantiau a gafwyd yn ystod y flwyddyn	22,907	
2,156	- Grantiau a gafwyd mewn blynyddoedd blaenorol	1,350	24,257
(3,150)	**Balans ar 31 Mawrth**		**(4,595)**

22. Cronfeydd Wrth Gefn na Ellir eu Defnyddio

Mae'r Awdurdod yn dal y Cronfeydd Wrth Gefn na Ellir eu Defnyddio canlynol:

Y Gronfa Adbrisio Wrth Gefn: mae hwn yn cynnwys enillion y Cyngor a ddeilliodd o'r cynnydd yng ngwerth ei asedau anghyfredol.

Cyfrif Addasiadau Cyfalaf: mae hwn yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r gwahanol drefniadau cyfrifo ar gyfer defnyddio asedau anghyfredol ac ar gyfer ariannu caffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny dan darpariaethau statudol.

Y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn: mae hwn yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r gwahanol drefniadau cyfrifo ar gyfer buddion ar ôl cyflogaeth ac ar gyfer ariannu buddion yn unol â darpariaethau statudol.

Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol: mae hwn yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r gwahanol drefniadau cyfrifo ar gyfer incwm a threuliau sy'n ymwneud ag offerynnau ariannol penodol ac am gario colledion neu elwa ar enillion fesul darpariaethau statudol.

Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig: mae hwn yn cofnodi gwahaniaethau amseru rhwng enillion a gydnabyddir wrth waredu asedau anghyfredol a derbyniadau arian parod.

Cyfrif Absenoldebau Cronedig: mae hwn yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai'n codi fel arall ar Falans Cronfa'r Cyngor drwy gronni absenoldebau digolledid a enillwyd, ond na chymerwyd yn ystod y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a gariwyd drosodd ar 31 Mawrth.

2018/19 **Cronfeydd Wrth Gefn na Ellir eu Defnyddio**	Balans Agoriadol £000	Addasiad SAARh 9 £000	Balans ar 01.04.2018 £000	Incwm & Gwariant Cynhwysfawr Arall (D.I. & G.C.) £000	Addasiadau rhwng Sail Cyfrifyddu a chyllido (Nodyn 8)			Symudiadau Arall * £000	Balans Cau £000
					Addasiadau i'r Adnoddau Refeniw £000	Addasiadau rhwng Refeniw ac Adnoddau Cyfalaf £000	Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf £000		
Y Gronfa Adbrisio Wrth Gefn	(100,153)		(100,153)	(7,552)				5,038	(102,667)
Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	(157,489)		(157,489)		18,552	(16,366)	(3,028)	(5,038)	(163,369)
Y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn	249,461		249,461	26,255	7,991				283,707
Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol	351	124	475		(19)				456
Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig	(205)		(205)						(205)
Cyfrif Absenoldebau Cronedig	2,298		2,298		319				2,617
Cyfanswm Cronfeydd na ellir eu defnyddio	**(5,737)**	**124**	**(5,613)**	**18,703**	**26,843**	**(16,366)**	**(3,028)**	**0**	**20,539**

***** Symudiadau Eraill = y trosglwyddiad ar gyfer cost hanesyddol V dibrisiant gwerth cyfredol,ynghyd ag addasiad i gyllid yn ymwneud â 2017/18.

2017/18 **Cronfeydd Wrth Gefn na Ellir eu Defnyddio**	Balans Agoriadol £000	Incwm & Gwariant Cynhwysfawr Arall (D.I. & G.C.) £000	Addasiadau rhwng Sail Cyfrifyddu a Chyllido (Nodyn 8)			Symudiadau Arall £000	Balans Cau £000
			Addasiadau i'r Adnoddau Refeniw £000	Addasiadau rhwng Refeniw ac Adnoddau Cyfalaf £000	Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf £000		
Y Gronfa Adbrisio Wrth Gefn	(92,672)	(12,829)				5,348	(100,153)
Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	(156,236)		24,169	(16,226)	(3,848)	(5,348)	(157,489)
Y Gronfa Bensiynau Wrth Gefn	273,859	(33,746)	9,348				249,461
Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol	357		(6)				351
Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig	0				(205)		(205)
Cyfrif Absenoldebau Cronedig	3,134		(836)				2,298
Cyfanswm Cronfeydd na ellir eu defnyddio	**28,442**	**(46,575)**	**32,675**	**(16,226)**	**(4,053)**	**0**	**(5,737)**

Mae cyflwyniad y nodyn hwn wedi'i symleiddio ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2018/19 felly mae ffigurau cymharydd 2017/18 wedi'u hailddatgan.

23. Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Gweithredol

2017/18 £000		2018/19 £000
12,628	**Net (arian dros ben) neu ddiffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau**	**9,149**
	Addasiadau i net (arian dros ben) neu ddiffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad yw'n arian parod	
(9)	Cynnydd/(Lleihad) Rhestrau Eiddo	111
(60)	Cynnydd/(Lleihad) Dyledwyr Hirdymor	1,731
5,719	Cynnydd/(Lleihad) Dyledwyr/Taliadau ymlaen llaw	456
0	Cynnydd/(Lleihad) mewn croniant llog buddsoddi	0
(466)	(Cynnydd)/Lleihad mewn Credydwyr/Derbynebau ymlaen llaw	(2,181)
(3)	(Cynnydd)/Lleihad mewn Croniant Llog Benthyciad	(223)
438	Trosglwyddiadau (i)/o'r Darpariaethau	157
(645)	Darpariaethau Dyledion Drwg	(69)
(29,163)	Dibrisiad ac Amhariad	(27,344)
(3,529)	Colledion ailbrisio Eiddo, Peiriannau ac Offer	(6,428)
481	Symudiadau yng ngwerth marchnad yr Eiddo Buddsoddi	(268)
(9,348)	Addasiadau i'r Gronfa Bensiwn	(7,991)
0	Addasiadau SAARh 9	(4,609)
9,532	Arall	22,837
	Addasiadau i eitemau a gynhwysir yn y net (arian dros ben) neu ddiffyg ar ddarpariaeth gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi neu ariannu	
2,220	Gwerthu Eiddo, Peiriannau ac Offer	2,738
(12,205)	**Llifoedd arian net gan Weithgareddau Gweithredol**	**(11,934)**

Mae'r llif arian ar gyfer gweithgareddau gweithredol yn cynnwys yr eitemau canlynol**:**

2017/18 £000		2018/19 £000
(44)	Llog a dderbyniwyd	(106)
9,134	Llog a dalwyd	9,169

24. Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Buddsoddi

2017/18 £000		2018/19 £000
45,120	Prynu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	60,095
109,100	Prynu buddsoddiadau tymor byr a thymor hir	220,900
150	Taliadau eraill ar gyfer gweithgareddau buddsoddi	68
(2,220)	Elw o werthiant eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	(2,738)
(101,700)	Elw o fuddsoddiadau tymor byr a thymor hir	(223,900)
(21,363)	Derbynebau eraill o weithgareddau buddsoddi	(18,802)
29,087	**Llifoedd arian net o Weithgareddau Buddsoddi**	**35,623**

25. Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Ariannu

2017/18 £000		2018/19 £000
(83,217)	Derbynebau cyfalaf benthyca tymor byr a thymor hir	(63,218)
1,540	Derbynebau eraill o weithgareddau ariannu	(1,768)
61,607	Ad-dalu benthyca tymor byr a thymor hir	41,147
(20,070)	**Llif arian net o weithgarwch ariannu**	**(23,839)**

26. Cysoniad Rhwymedigaethau S'yn Codi o Weithgareddau Ariannu

	2018/19 1 Ebrill	Llif Arian Ariannu	Newidiadau An-ariannol		2018/19 31 Mawrth
			Caffaeliad	Newidiadau An-ariannol Eraill	
	£000	£000	£000	£000	£000
Benthyca Tymor Hir	(176,305)	(27,727)			(204,032)
Benthyca Tymor Byr	(30,481)	5,656			(24,825)
Cyfanswm Rhwymedigaethau o Weithgareddau Ariannu	**(206,786)**	**(22,071)**	**0**	**0**	**(228,857)**

27. Lwfansau Aelodau

Mae'r holl Aelodau'n derbyn cyflog sylfaenol bob blwyddyn. Mae rhai o'r Aelodau'n ymgymryd â swyddi uwch ac felly'n derbyn cyflog uwch. Mae'r holl lefelau cyflog yn cael eu gosod gan gorff cenedlaethol o'r enw Panel Tâl Annibynnol. Talodd y Cyngor y symiau canlynol i aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn.

2017/18 £000		2018/19 £000
802	Cyflogau	832
14	Treuliau	17
816	**Cyfanswm**	**849**

28. Tâl Swyddogion

a) Nifer y gweithwyr oedd â thâl, ac eithrio cyfraniadau pensiwn y cyflogwr, o £60,000 neu fwy.

2017/18 Ailddatganwyd	Band Tâl	2018/19			
Cyfanswm Gweithwyr		Staff Mewn Ysgolion	Staff Tu Allan i Ysgolion	Cyfanswm y Gweithwyr	Gadael yn ystod y flwyddyn
16	£60,000 - £64,999	14	4	18	0
6	£65,000 - £69,999	2	1	3	1
5	£70,000 - £74,999	2	4	6	1
0	£75,000 - £79,999	3	0	3	0
6	£80,000 - £84,999	1	1	2	0
0	£85,000 - £89,999	0	5	5	0
3	£90,000 - £94,999	2	1	3	0
1	£95,000 - £99,999	1	0	1	0
1	£100,000 - £104,999	0	1	1	0
1	£105,000 - £109,999	0	1	1	0
0	£110,000 - £114,999	0	0	0	0
0	£115,000 - £119,999	1	0	1	0
0	£120,000 - £124,999	0	1	1	0
0	£125,000 - £129,999	0	0	0	0
0	£130,000 - £134,999	0	0	0	0
0	£135,000 - £139,999	0	0	0	0
0	£140,000 - £144,999	0	0	0	0
1	£145,000 - £149,999	0	0	0	0
40	**Cyfanswm**	**26**	**19**	**45**	**2**

Mae ffigurau 2017/18 wedi eu hailddatgan i eithrio aberthu didyniadau cyflogau.

Dylid nodi bod y tabl hwn yn cynnwys yr Uwch Swyddogion a fanylir yn y tablau isod.

Gadawodd nifer o swyddogion yn ystod y flwyddyn felly bydd eu tâl yn cynnwys unrhyw daliadau derbyniadwy wrth derfynu eu cyflogaeth.

b) Mae'r tablau a ganlyn yn amlinellu'r datgeliadau tâl ar gyfer Uwch Swyddogion sydd â chyflogau o lai na £150,000 ond yn hafal i neu'n fwy na £60,000 y flwyddyn. Nid oes unrhyw Uwch Swyddogion gyda chyflogau o £150,000 neu fwy.

Teitl y Swydd	Blwyddyn	Cyflog, ffioedd, lwfansau a chyflog ar sail perfformiad £	Iawndal am golli swydd £	Cyfanswm gan eithrio cyfraniadau pensiwn £	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr £	Cyfanswm Tâl £
Prif Weithredwr i 30/04/18 Nodyn 1	2018/19	14,318		14,318	3,420	17,738
	2017/18	149,092		149,092	44,188	193,280
Prif Weithredwr o 16/04/18	2018/19	120,932		120,932	34,708	155,640
	2017/18	0		0	0	0
Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus o 23/10/2017 ailddatganwyd Nodyn 2	2018/19	102,451		102,451	29,403	131,854
	2017/18	44,281		44,281	12,709	56,990
Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedol	2018/19	105,596		105,596	30,306	135,902
	2017/18	101,973		101,973	29,266	131,239
Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol	2018/19	86,589		86,589	24,851	111,440
	2017/18	83,617		83,617	23,998	107,615
Pennaeth Cyfleusterau , Asedau a Thai	2018/19	86,589		86,589	24,851	111,440
	2017/18	83,617		83,617	23,998	107,615
Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant	2018/19	86,589		86,589	24,851	111,440
	2017/18	83,617		83,617	23,998	107,615
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd	2018/19	86,589		86,589	24,851	111,440
	2017/18	83,617		83,617	23,998	107,615
Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio	2018/19	86,589		86,589	24,851	111,440
	2017/18	83,617		83,617	23,998	107,615
Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ailddatganwyd Nodiadau 3 & 4	2018/19	94,018		94,018	26,983	121,001
	2017/18	68,052		68,052	19,531	87,583
Pennaeth Cynllunio & Gwarchod y Cyhoedd i 22/01/2017 ailddatganwyd Nodyn 2	2018/19	0		0	0	0
	2017/18	46,754		46,754	13,418	60,172
Pennaeth Cynllunio & Gwarchod y Cyhoedd o 18/12/2017	2018/19	84,009		84,009	24,111	108,120
	2017/18	59,861		59,861	17,180	77,041
Pennaeth Cyllid	2018/19	71,002		71,002	20,378	91,380
	2017/18	68,566		68,566	19,679	88,245
Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata ailddatganwyd Nodyn 3	2018/19	70,469		70,469	18,423	88,892
	2017/18	68,052		68,052	17,621	85,673

Nodyn 1: Roedd gan y Prif Weithredwr hawl i Gyflog ar Sail Perfformiad (CSP). Cafodd hyn ei ystryried gan banel tâl sydd yn cynnwys cynghorwyr a chynghorydd allanol. Talwyd y CSP a ddyfarnwyd mewn ôl-ddyledion ac fe'i cyfrifwyd yn ystod y flwyddyn yn dilyn ystyriaeth gan y panel tâl, fel arfer oherwydd fod amseriad y broses ar ôl cau'r cyfrifon. Yn 2017/18 dyfarnwyd £9,848 i'r Prif Weithredwr a oedd yn gysylltiedig â pherfformiad yn 2016/17. Fodd bynnag, roedd y panel cydnabyddiaeth yn ystyried perfformiad ar gyfer 2017/18 ym mis Mawrth 2018 ac felly mae confensiwn cyfrifyddu yn disgwyl datgeliad CSP am ddwy flynedd yn y nodyn uchod. Y swm a ddyfarnwyd ar gyfer 2017/18 oedd £12,708. Y swm a ddyfarnwyd mewn perthynas â 2018/19 oedd £1,076. Nid oes gan unrhyw swyddog arall yr hawl i CSP.

Nodyn 2: Yn 2017/18 penodwyd deiliad swydd y Pennaeth Cynllunio & Gwarchod y Cyhoedd i swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus. Mae'r tâl am y ddwy rôl wedi'u rhannu yn y tabl uchod.

Nodyn 3: Mae ffigurau 2017/18 ar gyfer y swyddi hyn wedi'u hailddatgan i eithrio didyniadau cyflogau.

Nodyn 4: Cynyddwyd y tâl am y swydd hon yn 2018/19 fel y cytunwyd gan y Cyngor Sir ar 28 Mawrth 2019. Mae ffigurau 2018/19 yn cynnwys £23,548 tâl gros a ôl-ddyledion cyflog ôl-ddyddiedig cyfraniadau pensiwn o 1 Awst 2017.

Nodyn 5: Mae'r Prif Weithredwr a Phennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol , Adnoddau Dynol a Democrataidd yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol am eu rolau fel Swyddog Canlyniadau & Dirprwy Swyddog Canlyniadau yn y drefn honno, ar gyfer etholiadau lleol a chyffredinol (gyda chostau yn cael eu had-dalu ymhob achos heblaw am Etholiadau Cyngor Sir). Yn 2018/19, ar gyfer y Prif Weithredwr roedd hyn yn dod i £675, ynghyd a chostau pensiwn o £194: derbyniwyd ad-daliad yn llawn. Y ffigurau ar gyfer 2017/18 oedd £12,982 a £3,726, gydag ad-daliad o (£10,736). Yn 2018/19 derbyniodd Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd £160 gydag ad-daliad yn llawn: y ffigurau ar gyfer 2017/18 oedd £4,060, gydag ad-daliad o (£2,300). Nid yw'r taliadau hyn wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad a gyflwynir.

:

c) Amlinellir y nifer o becynnau ymadael gyda chyfanswm cost fesul band a chost llawn diswyddiadau gorfodol ac eraill yn y tabl isod:

Band cost pecyn ymadael (gan gynnwys taliadau arbennig)	Nifer o ddiswyddiadau gorfodol		Nifer o ymadawiadau eraill a gytunwyd		Nifer llawn o becynnau ymadael fesul band cost		Cyfanswm cost y pecynnau ymadael fesul band	
	2017/18	2018/19	2017/18	2018/19	2017/18	2018/19	2017/18	2018/19
£0 - £20,000	13	15	32	31	45	46	£343,768	£266,520
£20,001 - £60,000	2	9	11	4	13	13	£371,893	£472,126
Cyfanswm	**15**	**24**	**43**	**35**	**58**	**59**	**£715,661**	**£738,646**

Mae’r costau a ddangosir yn y tabl uchod yn cynnwys costau diswyddo a phob cost ymadael arall. Mae’r rhain yn cynnwys cost straen pensiwn. Mae straen pensiwn yn codi pan fod gweithiwr yn ymddeol yn fuan heb ostyngiad pensiwn actiwaraidd. Mae’r straen pensiwn yn daladwy dros dair blynedd ond mae’r Cyngor yn dewis talu’r costau hyn yn ystod blwyddyn gyntaf ymddeoliad.

d) Mae’n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu cymhareb tâl rhwng tâl canolrifol pob gweithiwr yr awdurdod yn ystod y flwyddyn a’r un ar gyfer Prif Weithredwr yr awdurdod. Yn 2018/19 roedd tâl y Prif Weithredwr yn £135,250. Tâl canolrifol y gweithlu oedd £22,401. Felly, roedd y gymhareb yn 6.04:1 (6.79:1 yn 2017/18). Yn 2018/19 roedd tâl ar gyfer staff yn amrywio o £7,138 i £105,596. Mae’r tâl yn cynnwys cyflog a chyflog ar sail perfformaid ac nid yw’n cynnwys taliadau diswyddo neu gyfraniadau pensiwn y cyflogwr.

29. Costau Archwilio Allanol

Mae'r Cyngor yn wynebu'r costau canlynol mewn perthynas ag archwilio'r Datganiad Cyfrifon, ardystio ceisiadau grant, arolygiadau statudol ac i wasanaethau nad ydynt yn cael eu harchwilio, a ddarperir gan archwilwyr allanol yr Awdurdod

2017/18 £000		2018/19 £000
272	Ffioedd yn daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â gwasanaethau archwilio allanol a gynhelir gan yr archwilydd a benodwyd am y flwyddyn	272
72	Ffioedd yn daladwy am ardystio ceisiadau grant a ffurflenni am y flwyddyn	56
0	Ffioedd yn daladwy mewn perthynas â gwasanaethau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn	0
344	**Costau Archwilio Allanol**	**328**

30. Incwm Grant

Fe gredydodd y Cyngor y grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn 2018/19

2017/18 £000		2018/19 £000
	Credydwyd i Drethiant ac Incwm Grant Amhenodol	
(461)	Grantiau a chyfraniadau eraill	(1,241)
(150)	Cyngor Tref Y Rhyl – Cyfraniad i'r Parc Dŵr	(1,850)
(1,020)	Llywodraeth Cymru – Grantiau Lliniaru Llifogydd ac Amddiffyn Arfordirol	(1,304)
(1,840)	Llywodraeth Cymru – Grant Cyfalaf Cyffredinol	(2,950)
0	Llywodraeth Cymru – Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio a Grantiau CIU	(678)
(2,409)	Llywodraeth Cymru – Lwfans Atgyweiriadau Mawr	(2,847)
(9,460)	Llywodraeth Cymru – Ysgolion yr 21ain Ganrif	(4,902)
0	Llywodraeth Cymru – Grant Rhaglen Adeiladu ar gyfer Y Dyfodol	(2,500)
0	Llywodraeth Cymru – Y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth	(720)
0	Llywodraeth Cymru – Grant Rhaglen Newid ar Y Cyd	(900)
0	Llywodraeth Cymru – Grant Adnewyddu Priffyrdd Cyhoeddus	(795)
(1,204)	Llywodraeth Cymru – Adnewyddu Ffyrdd Awdurdod Lleol 2017/18	0
0	Llywodraeth Cymru – Grant Cynnal a Chadw Ysgolion	(1,388)
(752)	Grantiau Eraill Llywodraeth Cymru	(1,162)
(17,296)	**Cyfanswm**	**(23,237)**
	Credydwyd i Wasanaethau	
(3,958)	Grant Chweched Dosbarth Llywodraeth Cymru	(3,439)
(1,887)	Grant Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru	(2,018)
(1,151)	Grant Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru	(1,097)
(801)	Grantiau Addysg Eraill gan Lywodraeth Cymru	(1,484)
(5,490)	Grant Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru	(5,526)
(1,313)	Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru	(464)
(1,092)	Grantiau Gwasanaethau Cymdeithasol Eraill gan Lywodraeth Cymru	(94)
0	Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy Llywodraeth Cymru	0
(2,153)	Grantiau Amgylchedd a Datblygiad Cynaliadwy Llywodraeth Cymru	(792)
(1,626)	Grant Tocynnau Teithio Rhatach Llywodraeth Cymru	(1,689)
(564)	Cronfa Gymdeithasol Ewrop Gorllewin Cymru WEFO	(799)
(1,484)	Grantiau Eraill gan Lywodraeth Cymru	(2,017)
(21,519)	Cyfanswm Grantiau Llywodraeth Cymru	(19,419)
(3,116)	Grant Datblygu Disgyblion	(3,139)
(3,975)	Grant Gwella Addysg	(4,132)
(24,562)	Cymorthdal Lwfansau Rent DWP	(22,426)
(8,418)	Cymorthdal Ad-daliadau Rent DWP	(8,734)
(384)	Grant Gweinyddu Budd-daliadau Tai / Treth y Cyngor DWP	(354)
(1,701)	Gwahanol grantiau a dderbyniwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	(1,942)
(2,744)	Grantiau Eraill y Llywodraeth	(2,630)
(66,419)	Cyfanswm Grantiau Llywodraeth	(62,776)
(335)	Grantiau Dilywodraeth eraill	(615)
(66,754)	**Cyfanswm Grantiau Credydwyd i Wasanaethau**	**(63,391)**

Mae'r Cyngor wedi derbyn nifer o grantiau, cyfraniadau a rhoddion nad ydynt eto wedi'u cydnabod fel incwm, gan eu bod ag amodau sydd ynghlwm wrthynt y byddai angen dychwelyd yr arian neu eiddo i'r rhoddwr pe na fodlonir unrhyw amodiad o'r fath. Oedd y balansau ar ddiwedd y flwyddyn yn (£2,332k) Grantiau Cyfalaf a (£2,191k) Grantiau Refeniw. Oedd y balansau cyfatebol ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol yn (£2,082k) a (£1,042k).

31. Partïon Cysylltiedig

Mae'r Cyngor yn gorfod datgelu trafodion materol gyda phartïon cysylltiedig – cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu ar y Cyngor, neu i'w rheoli neu eu dylanwadu gan y Cyngor. Mae datgelu'r trafodion hyn yn caniatáu darllenwyr i asesu'r graddau y gallai'r Cyngor fod wedi'i gyfyngu yn ei allu i weithredu'n annibynnol neu efallai wedi diogelu'r gallu i gyfyngu ar allu parti arall i ymdrin yn rhydd â'r Cyngor.

Llywodraeth Ganolog

Mae gan y Lywodraeth Ganolog ddylanwad statudol dros weithrediadau cyffredinol y Cyngor - mae'n gyfrifol am ddarparu fframwaith strategol y mae'r Awdurdod yn gweithredu ynddo, yn darparu'r mwyafrif o'i gyllid ar ffurf grantiau, ac yn rhagnodi telerau sawl trafodyn sydd gan y Cyngor â phartïon eraill (e.e. biliau treth y cyngor, budd-daliadau tai). Mae grantiau a dderbyniwyd gan adrannau'r llywodraeth wedi'u trafod mewn mwy o fanylder yn Nodyn 30.

Aelodau Etholedig

Gofynnwyd i'r holl Aelodau Etholedig cyfredol i gwblhau datganiad ac i ddatgelu unrhyw drafodion partïon cysylltiedig gyda'r awdurdod. Derbyniwyd datganiad gan yr holl Aelodau Etholedig.

Gwnaethpwyd y datganiadau materol canlynol ar gyfer 2018/19:

- Datganodd aelod etholedig berthynas ag unigolyn oedd yn berchen ar Feithrinfa Ddydd a dderbyniodd taliadau o £ 5k gan y Cyngor hyd at y dyddiad y daeth y berchnogaeth i ben yn ystod y flwyddyn.
- Datganodd aelod etholedig berchnogaeth Meithrinfa Ddydd a dderbyniodd taliadau o £ 17k gan y Cyngor.
- Datganodd aelod etholedig berthynas â chontractwr y talodd y Cyngor £21k iddo yn 2018/19.
- Datganodd aelod etholedig berthynas ag unigolyn a ddarparodd wasanaethau proffesiynol i'r Cyngor, ac i'r sawl y talodd y Cyngor £13k yn 2018/19.
- Datganodd aelod etholedig pryniant parsel o dir gwerth £ 456k. Roedd y gwerthiant yn dilyn proses dendro.

Cynhelir rhestr o ddiddordebau aelodau etholedig gan Bennaeth y Gyfraith a Llywodraethu, ac mae'n agored i'w harchwilio gan y cyhoedd. Mae nifer o aelodau etholedig hefyd wedi'u penodi gan y Cyngor i wasanaethu ar gyrff eraill sydd â pherthynas ariannol gyda'r Cyngor.

Swyddogion

Gofynnwyd i'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth gwblhau datganiad i ddatgelu unrhyw drafodion yn ymwneud â pharti sydd ganddynt â'r awdurdod. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau materol ar gyfer 2018/19.

Cyrff Cyhoeddus Eraill

Asiantaeth Pensiynau Athrawon
Mae'r costau pensiwn a godir yn y gyfradd gyfrannu a osodwyd gan yr Adran Addysg ar sail cronfa dybiannol. Mae manylion pensiwn athrawon wedi'u nodi yn Nodyn 34.

Cronfa Bensiynau Clwyd
Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gorff a dderbyniwyd i Gronfa Bensiynau Clwyd. Mae manylion o'r trafodion a wnaed gyda Cronfa Bensiwn Clwyd wedi'u cynnwys yn Nodyn 35.

Cynghorau Cymuned/Tref a Dinas
Mae Cyfanswm y praeseptau a dalwyd i'r 37 o gynghorau cymuned/tref a dinas wedi'u cynnwys yn Nodyn 8 ac yn dod i gyfanswm o £1,955k (£1,834k yn 2017/18).

Comisiynydd Heddlu & Throseddu Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân Gogledd Cymru
Mae Comisiynwyr Heddlu & Throseddu ac Awdurdodau Tân ac Achub yn gosod eu ffioedd eu hunain i dalwyr treth y cyngor, sydd wedyn yn cael eu cynnwys ar bil treth y cyngor - mae'r taliadau hyn yn cael eu hadnabod fel y praesept. Mae cyfanswm y praeseptau a'r ardollau a dalwyd i Gomisiynydd Heddlu & Throseddu Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn dod i gyfanswm o £14,779k (£14,313k yn 2017/18). Mae dadansoddiad wedi ei ddarparu yn Nodyn 8.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Mae gan yr Awdurdod ddau drefniant cyllideb ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: un ar gyfer darparu storfa Offer Cymunedol; a sefydlwyd yr ail gyda'r nod o sicrhau darpariaeth gwasanaeth integredig o weithiwr cefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n cefnogi defnyddwyr gwasanaethau yn y gymuned. Roedd cyfraniad Cyngor Sir Ddinbych i'r storfa Offer Cymunedol yn £219k (£219k yn 2017/18) a chyfrannodd yr Awdurdod £50k i'r Gwasanaeth Gweithwyr Cefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol (£50k yn 2017/18).

Cymdeithas Llywodraeth Leol (CLIL)/Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
Mae'r Cyngor yn aelod o CLIL/CLILC a gwnaed taliadau iddynt o £78k yn 2018/19 (£78k yn 2017/18). Derbyniodd y Cyngor £185k gan CLIL/CLILC yn 2018/19 (roedd £44k yn dyledus ar ddiwedd y flwyddyn) ac nid oedd unrhyw incwm yn 2017/18.

Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC)
Mae CBAC yn fwrdd arholi, sydd yn darparu cymwysterau ac asesiad arholiadau i ysgolion Sir Ddinbych. Mae un o Gyfarwyddwyr Gweithredol ei Fwrdd yn Aelod Etholedig o Gyngor Sir Ddinbych. Yn 2018/19 talodd Cyngor Sir Ddinbych £666k ac roedd ganddo ddyled o £107k ar ddiwedd y flwyddyn i CBAC (talwyd £747k yn 2017/18 ac roedd ganddo ddyled o £5k).

Uned Ddata Llywodraeth Leol – Cymru
Mae aelod etholedig yn Gyfarwyddwr presennol yn Uned Ddata Llywodraeth Leol-Cymru. Ymgymerwyd â gwariant o £29k o fewn 2018/19 gyda Chyngor Sir Ddinbych.

Cwmnïau

Mae Cod Ymarfer Cyfrifo yn gofyn i awdurdod sydd â chysylltiadau materol mewn un neu fwy o is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiedig baratoi cyfrif refeniw grŵp a mantolen. Nid yw cysylltiadau'r Cyngor â'r cwmnïau perthnasol naill ai'n diwallu'r meini prawf ar gyfer bod yn is-gwmni neu'n gwmni cysylltiedig fel y nodir yn y Cod, neu lle maent yn diwallu'r meini prawf, ni ystyrir eu bod yn faterol mewn perthynas â graddfa gyffredinol gweithrediadau'r Cyngor, ac o ganlyniad nid yw Cyfrifon Grŵp wedi'u paratoi. Nid oes unrhyw gwmnïau cysylltiedig ar hyn o bryd, fodd bynnag mae manylion Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan wedi'u cynnwys isod gan ei fod wedi cael ei ystyried yn gwmni cysylltiedig y llynedd.

Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan a Mentrau Castell Bodelwyddan Cyf.

Mae Grŵp Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan yn gwmni cyfyngedig drwy warant, heb unrhyw gyfalaf cyfrannau. Mae'n elusen gofrestredig a sefydlwyd yn Chwefror 1994. Amcanion yr Ymddiriedolaeth yw datblygu addysg drwy gaffael, cynnwys a dangos gwrthrychau a chasgliadau o natur addysgol, a drwy sefydlu, caffael a rheoli amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd i'w defnyddio ar gyfer dibenion o'r fath. Mae'r Ymddiriedolaeth yn caffael arteffactau y mae'n eu hadfer, eu cadw a'u harddangos. Mae hefyd yn rheoli parc cyhoeddus ar gyfer gweithgareddau hamdden ac yn hyrwyddo gwerthfawrogiad o'r byd naturiol.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn rhoi grant blynyddol i Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan £145k yn 2017/18), fodd bynnag, daeth y trefniant hwn i ben yn 2017/18 ac felly ni wnaed unrhyw daliad yn 2018/19. Hefyd, rhoddodd y Cyngor y gorau i ddarparu gwasanaethau cyflogres o fis Mawrth 2018. Nid oes gan y Cyngor gynrychiolydd ar y Bwrdd Cyfarwyddwyr. Ni ystyrir bod y cwmni yn barti cysylltiedig at ddibenion cyfrifon 2018/19.

Gellir cael gwybodaeth bellach gan Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan Cyf., Bodelwyddan, LL18 5YA.

32. Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf

Dangosir cyfanswm y gwariant cyfalaf yn y flwyddyn yn y tabl isod (gan gynnwys gwerth yr asedau a gaffaelwyd o dan brydlesau ariannol), ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Lle bydd gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu yn y dyfodol drwy daliadau i refeniw wrth i asedau gael eu defnyddio gan y Cyngor, mae'r gwariant yn golygu bod cynnydd yn y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), mesuriad o'r gwariant cyfalaf a wnaed yn hanesyddol gan y Cyngor nad ydyw wedi'i ariannu eto. Dadansoddir y GCC yn ail ran y nodyn hwn.

2017/18 £000		2018/19 £000
241,564	**Gofyniad Cyllido Cyfalaf Agoriadol**	**252,520**
	Buddsoddiad Cyfalaf	
43,412	Eiddo, Peiriannau ac Offer	58,272
0	Eiddo Buddsoddi	96
4,192	Gwariant Refeniw a Ariennir o Gyfalaf Trwy Statud	3,579
	Ffynonellau o Arian	
(1,692)	Derbyniadau cyfalaf	(1,678)
(18,681)	Grantiau a chyfraniadau eraill y Llywodraeth Addasiad i gyllid yn ymwneud â 2017/18	(24,257)
	Symiau a roddwyd o'r neilltu o refeniw:	
(7,359)	Cyfraniadau refeniw uniongyrchol	(7,069)
(8,916)	MRP a Dyledwyr Hirdymor	(7,564)
252,520	**Gofyniad Cyllido Cyfalaf Terfynol**	**273,899**

2017/18 £000		2018/19 £000
	Esboniad o symudiadau mewn blwyddyn	
2,679	Cynnydd mewn angen sylfaenol i fenthyca (a gefnogir gan gymorth ariannol y llywodraeth)	2,218
17,439	Cynnydd mewn angen sylfaenol i fenthyca (heb gefnogaeth cymorth ariannol y llywodraeth)	26,941
(8,916)	MRP a Dyledwyr Hirdymor	(7,564)
(246)	Derbyniadau Cyfalaf a neilltuwyd	(216)
10,956	**Cynnydd / (gostyngiad) mewn Gofyniad Cyllido Cyfalaf**	**21,379**

33. Prydlesau

Mae'r Cyngor yn prydlesu rhai o'i eiddo, cerbydau ac eitemau o offer, yn ogystal â phrydlesu rhai o'r eiddo y mae'n berchen arnynt. Mae trefniadau'r prydlesau wedi'u hadolygu a'u dosbarthu fel prydlesau gweithredol neu ariannol fel y disgrifir mewn mwy o fanylder isod.

Prydlesau Travelodge y Rhyl

Gwerthodd y Cyngor faes parcio i ddatblygwr yn y Rhyl i adeiladu gwesty Travelodge fel rhan o'r amcan strategol i adfywio glannau'r Rhyl. Cwblhawyd y datblygiad hwn erbyn Ionawr 2019 a phrydlesywd y strwythur yn ôl i'r Cyngor gan y datblygwr dros gyfnod o 25 mlynedd am daliad rhent blynyddol o £274k. Is-brydleswyd yr eiddo i Travelodge gan y Cyngor am daliad rhent blynyddol o £305k. Dechreuodd y ddau brydles ar 18 Ionawr 2019 a bydd y taliadau rhent yn dechrau ar 19 Gorffennaf 2019 yn dilyn cyfnod di-rent o chwe mis. Cytunodd y Cyngor i weithredu fel gwarantwr rhwng y cyllidwr a gweithredwr y gwesty i sicrhau'r datblygiad hwn drwy ymrwymo i'r cytundebau prydlesu cefn-wrth-gefn hyn drwy dderbyn rhent elw blynyddol o £ 31k. Bydd yr elw hwn yn cael ei roi mewn cronfa wrth gefn a fydd yn cronni cronfeydd i'w defnyddio i liniaru risg ariannol y Cyngor yn y dyfodol.

Awdurdod fel Lesddeiliad

Prydlesau Ariannol

Mae gan y Cyngor rai eiddo o dan brydlesau ariannol.

Caiff yr asedau a gafaelir o dan y prydlesau hyn eu cario fel Adeiladau, Peiriannau ac Offer yn y Fantolen ar y symiau net canlynol:

31 Mawrth 2018 £000		31 Mawrth 2019 £000
4,407	Tir ac Adeiladau Eraill	4,305

Awdurdod fel Prydlesydd

Prydlesau Weithredol

Mae'r Cyngor yn prydlesu eiddo i unigolion o dan brydlesau gweithredol ar gyfer dibenion amrywiol, fel datblygiad economaidd i ddarparu unedau i fusnesau lleol. Y taliadau prydles lleiaf sy'n dderbyniadwy o dan brydlesau na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

31 Mawrth 18 £000		31 Mawrth 19 £000
1,159	Dim hwyrach na blwyddyn	945
2,781	Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na 5 mlynedd	2,041
13,287	Hwyrach na 5 mlynedd	13,307
17,227	**Cyfanswm**	**16,293**

34. Cynlluniau Pensiwn y Rhoddir Cyfrif Amdanynt fel Cynlluniau Cyfraniad Diffiniedig

Mae athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan yr Adran Addysg. Mae'r Cynllun yn rhoi buddiannau penodol i athrawon pan fyddant yn ymddeol, ac mae'r Cyngor yn cyfrannu at y costau drwy wneud cyfraniadau ar sail canran o gyflogau pensiynadwy aelodau. Yn dechnegol, mae'r Cynllun yn gynllun â buddion diffiniedig. Fodd bynnag, nid yw'r Cynllun wedi'i gyllido ac mae'r Adran Addysg yn defnyddio cronfa dybiannol i gyfrifo cyfradd gyfraniadau cyflogwyr a delir gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Cyngor yn gallu nodi ei gyfran o sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y Cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifeg. At ddiben y Datganiad Cyfrifon hwn, caiff ei gyfrif ar yr un sail â chynllun cyfraniadau diffiniedig. Yn 2018/19, talodd y Cyngor Sir £5,499k i Bensiynau Athrawon o ran buddiannau ymddeol athrawon, sy'n gyfwerth â 16.48% o gyflog pensiynadwy. Y ffigurau ar gyfer 2017/18 oedd £5,454k ac 16.48%. Yn ogystal, gwnaed taliadau o ran ymddeoliadau cynnar cyfwerth â £343k (£379k yn 2017/18). Nid oedd unrhyw gyfraniadau yn aros i'w talu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a roddir wrth ymddeol yn gynnar y tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Cyfrifir y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig ac fe'u nodir yn Nodyn 35.

35. Cynlluniau Pensiwn â Buddiannau Diffiniedig

Cymryd rhan mewn Cynlluniau Pensiwn
Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Cyngor yn gwneud cyfraniadau at gost buddiannau ar ôl cyflogaeth. Er na fydd y buddiannau hyn yn cael eu talu nes i'r gweithwyr ymddeol, mae ymrwymiad ar y Cyngor i wneud y taliadau (ar gyfer y buddiannau hyn) a datgelu pryd y gall gweithwyr gael eu hawliad yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn dau gynllun ar ôl cyflogaeth.

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae hwn yn drefniant pensiwn â buddiannau diffiniedig a gaiff ei gyllido, sy'n golygu bod y Cyngor a gweithwyr yn talu cyfraniadau i mewn i gronfa, a gyfrifir ar lefel a fwriedir i gydbwyso dyledion pensiynau gydag asedau buddsoddi.

- Trefniadau ar gyfer rhoi buddiannau â disgresiwn ar ôl ymddeol wrth ymddeol yn gynnar – mae hwn yn drefniant buddiannau diffiniedig na chaiff ei gyllido, lle caiff dyledion eu cydnabod pan gaiff y buddiannau eu rhoi. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi'u cronni i dalu'r dyledion pensiynau hyn, a rhaid creu arian parod i dalu taliadau pensiwn gwirioneddol pan fyddant yn daladwy.

- Mae Cronfa Bensiynau Clwyd yn drefniant aml-gyflogwr, ble mae pob cyflogwr yn gyfrifol am y costau pensiwn, rhwymedigaethau a risgiau ariannu yn ymwneud â'i weithwyr ei hun a chyn-weithwyr.

- Mae rheolaeth y Gronfa yn cael ei freinio yng Nghyngor Sir y Fflint, sef Awdurdod Gweinyddu'r Gronfa. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Pwyllgor Cronfa Bensiwn sy'n cynnwys pum Cynghorydd o Gyngor Sir y Fflint a phedwar aelod cyfetholedig.

  Mae'r Pwyllgor, gyda chymorth ymgynghorwyr proffesiynol y Gronfa, yn ymgymryd â rolau megis penderfynu ar bolisïau mewn perthynas â'r strategaeth fuddsoddi, gweinyddu llywodraethu, cyfathrebu, strategaeth ariannu a darpariaethau rheoli risg.
  Am fanylion pellach ynglŷn ag egwyddorion llywodraethu a buddsoddi Cronfa Bensiwn Clwyd, ewch i www.clwydpensionfund.org neu cysylltwch â Chronfa Bensiynau Clwyd yn:

  Cronfa Bensiwn Clwyd
  Neuadd y Sir
  Yr Wyddgrug
  Sir y Fflint
  CH7 6NA

- Y prif risgiau i awdurdod y cynllun yw'r tybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (h.y. codi arian ar raddfa fawr o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, llog bondiau a pherfformiad y buddsoddiadau ecwiti a ddelir gan y cynllun. Mae'r rhain yn cael eu lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi tâl ar Gronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai yn y symiau sy'n ofynnol yn ôl statud fel y disgrifir yn y nodyn polisïau cyfrifeg.

Trafodion sy'n gysylltiedig â Buddiannau ar ôl Cyflogaeth
Rydym yn cydnabod cost buddiannau ymddeol yng nghost gwasanaethau pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan gaiff y buddiannau eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r tâl y mae angen i ni eu gwneud yn erbyn Treth y Cyngor yn seiliedig ar yr arian sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly caiff cost wirioneddol buddiannau ar ôl cyflogaeth/buddiannau ymddeol ei dynnu allan o Gronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai drwy'r Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y

Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans Cronfa'r Cyngor drwy'r Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn:

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		**Trefniadau Buddiannau â Disgresiwn**	
	2017/18 £000	**2018/19 £000**	**2017/18 £000**	**2018/19 £000**
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				
Cost y Gwasanaethau				
Cost gwasanaeth, yn cynnwys:				
• Costau Gwasanaeth Cyfredol	20,335	20,082		
• Costau Gwasanaeth y Gorffennol / (Enillion)	117	312		
• (Enillion)Colled o Setliadau a Chwtogiadau	0	0		
Gwariant Gweithredu Arall:				
• Treuliau Gweinyddu	685	729		
Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi:				
• Treuliau Llog Net	6,322	5,942	202	192
Cyfanswm y Buddiannau ar ôl Cyflogaeth a godir ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	27,459	27,065	202	192
Buddiannau eraill ar ôl Cyflogaeth a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				
Ailfesuriad y Rhwymedigaeth Buddiannau Diffiniedig Net yn cynnwys:				
• *Adenillion ar Asedau Cynlluniau (ac eithrio'r swm a nodir yn y Gwariant Llog Net) (A)	(6,936)	(11,358)		
• *(Enillion) a Cholledion Actiwari yn sgil Newidiadau mewn Rhagdybiaethau Demograffig (B)	0	0		
• *(Enillion) a Cholledion Actiwari yn sgil Newidiadau mewn Rhagdybiaethau Ariannol (C)	(26,689)	37,386	121	227
• *Arall (D)	0	0		
Cyfanswm Buddiannau ar ôl Cyflogaeth a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	**(6,166)**	**53,093**	**81**	**419**
Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn				
• Gwrthdroi costau net a wnaed i'r Gwarged neu'r Ddyled ar gyfer Darparu Gwasanaethau ar gyfer Buddiannau ar ôl Cyflogaeth yn unol â'r Cod	(27,459)	(27,065)	(202)	(192)
Swm gwirioneddol a godir yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor ar gyfer pensiynau yn y flwyddyn.				
• Cyfraniadau gweithiwr sy'n daladwy i'r cynllun	17,537	18,517		
• Buddiannau ymddeol sy'n daladwy i bensiynwyr			777	749

*****A + B + C + D = Ailfesuriad y Rhwymedigaeth / (Ased) Buddiannau Diffiniedig Net fel y dyfynnwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr: £26,255k 2018/19; (£33,746k 2017/18).

Gallai dyfarniad cyfreithiol McCloud ym mis Rhagfyr 2018 ynghylch gwahaniaethu ar sail oedran arwain at lefelau uwch o ddiogelwch trosiannol yn dilyn mwy o gyflog terfynol i gynlluniau

cyfartaledd gyrfa. Gofynnodd y Llywodraeth am ganiatâd i apelio yn erbyn hyn ond ar 27 Mehefin 2019 cadarnhaodd y Goruchaf Lys ddyfarniad y llynedd. Ar hyn o bryd mae Adran Actiwari'r Llywodraeth (G.A.D.) yn asesu effaith y dyfarniad ond deallir ei bod yn amcangyfrif y gallai fod oddeutu 3.2% o rwymedigaethau gweithredol cynllun pensiwn yn seiliedig ar dybiaeth twf cyflog o Mynegai Prisiau Defnyddwyr (C.P.I.) ynghyd â 1.5%.

Amcangyfrifwyd bod yr effaith bosibl ar y Cyngor yn £7,649k. Dangosir hyn uchod ac yn y DI&GC fel cost gwasanaeth yn y gorffennol ac mae'n cynyddu atebolrwydd pensiwn y Cyngor yr un faint. Gan y tybir y bydd rhwymedigaethau'r Cyngor yn cynyddu yna bydd goblygiad cost yr achos yn arwain at gyfraniadau cyflogwyr uwch yn y dyfodol. Gallai amserlenni ar gyfer datrys y mater hwn fod yn hir.

Asedau Pensiwn a Rhwymedigaethau a Gydnabyddir yn y Fantolen

Mae'r swm a nodir yn y Fantolen yn sgil rhwymedigaeth yr awdurdod o ran ei gynlluniau buddiannau diffiniedig fel a ganlyn:

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		**Trefniadau Buddiannau â Disgresiwn**	
	2017/18 £000	**2018/19 £000**	**2017/18 £000**	**2018/19 £000**
Gwerth Presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig	649,677	709,597	7,774	7,444
Gwerth teg yr Asedau Cynlluniau	(407,992)	(433,336)		
Is-gyfanswm	241,685	276,261	7,774	7,444
Symudiadau eraill yn y rhwymedigaeth (ased)				
Rhwymedigaeth net yn deillio o fudd diffiniedig	**241,685**	**276,261**	**7,774**	**7,444**

Cysoni Symudiadau yn yr Asedau'r Cynllun Gwerth Teg

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	
	2017/18 £000	**2018/19 £000**
Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun	389,051	407,992
Incwm llog	9,855	10,760
Treuliau gweinyddu	(685)	(729)
Enilliad/(colled) ailfesuriad:		
• Yr elw ar asedau'r cynllun, ac eithrio'r swm a gynhwysir yn y gwariant llog net	6,936	11,358
• Arall		
Effaith newidiadau yng nghyfraddau'r gyfnewidfa dramor		
Cyfraniadau gan y cyflogwr	17,537	18,517
Cyfraniadau gan weithwyr	3,723	3,946
Buddiannau a dalwyd	(18,425)	(18,508)
Arall		
Gwerth cau asedau'r cynllun	**407,992**	**433,336**

Cysoni Gwerth Presennol y Cynllun Rhwymedigaethau (Rhwymedigaeth Buddiannau Diffiniedig)

	Rhwymedigaethau a Ariennir Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Rhwymedigaeth nas Ariennir Trefniadau Buddiannau Disgresiwn	
	2017/18 £000	2018/19 £000	2017/18 £000	2018/19 £000
Balans agoriadol ar 1 Ebrill	654,439	649,677	8,470	7,774
Cost gwasanaeth presennol	20,335	20,082		
Cost llog	16,177	16,702	202	192
Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun	3,723	3,946		
(Enillion) a cholledion ailfesuriad:				
• (Enillion) a cholledion actiwari yn sgil newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig				
• (Enillion) a cholledion actiwari yn sgil newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol	(26,689)	37,386	(121)	227
• Arall				
Cost gwasanaeth blaenorol	19	25		
Colledion/(enillion) a chwtogiad	98	287		
Rhwymedigaethau a ragdybir ar gyfuniad endidau				
Buddiannau a dalwyd	(18,425)	(18,508)	(777)	(749)
Rhwymedigaethau wedi eu dileu ar setliadau				
Balans terfynol ar 31 Mawrth	**649,677**	**709,597**	**7,774**	**7,444**

Asedau Cynwysedig y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:

	Gwerth Teg Asedau'r Cynllun	
	2016/17 £000	2017/18 £000
Arian Parod a Symiau Cywerth ag Arian Parod	**4,896**	**867**
Ecwitïau		
• DU a ddyfynnwyd	0	0
• Byd-eang a ddyfynnwyd	33,455	34,667
• Byd-eang a ddyfynnwyd	0	0
• UDA	0	0
• Japan	0	0
• Ewrop	0	0
• Marchnadoedd datblygol	28,559	26,867
• Cyffindir	0	0
• Dwyrain Pell	0	0
Is-gyfanswm Ecwiti	**62,014**	**61,534**
Bondiau		
Bondiau Tramor Eraill	46,511	48,100
LDI	92,206	98,800
Is-gyfanswn Bondiau	**138,717**	**146,900**
Eiddo:		
• DU	20,808	23,833
• Tramor	5,304	4,767
Is-gyfanswm Eiddo	**26,112**	**28,600**
Eraill:		
• Cronfeydd Diogelu	34,271	32,500
• Ecwiti preifat	42,023	49,834
• Isadeiledd	9,384	15,600
• Coed ac Amaeth	5,712	5,200
• Credyd Preifat	3,264	7,367
• DGF	81,599	84,937
Is-gyfanswm Eraill	**176,253**	**195,435**
Cyfanswm Asedau	**407,992**	**433,336**

Sail ar gyfer Amcangyfrif Asedau a Dyledion
Mae dyledion wedi'u hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned a ragamcanir, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy mewn blynyddoedd i ddod yn dibynnu ar ragdybiaethau am gyfraddau marwolaeth, lefelau cyflog ac ati.

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a dyledion buddiannau â Disgresiwn wedi'u hamcangyfrif gan Mercer Human Resource Consulting, cwmni o actiwarïaid, ac mae amcangyfrifon ar gyfer Cronfa'r Cyngor Sir yn seiliedig ar brisiad llawn diweddaraf y cynllun ar 31 Mawrth 2016.

Y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari oedd:

	Cynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol		Trefniadau Buddion Disgresiwn	
	2017/18	2018/19	2017/18	2018/19
Rhagdybiaethau Marwolaeth:				
Hirhoedledd yn 65 ar gyfer pensiynwyr presennol:				
• Dynion	23.1 blwyddyn	23.2 blwyddyn	23.1 blwyddyn	23.2 blwyddyn
• Merched	25.6 blwyddyn	25.7 blwyddyn	25.6 blwyddyn	25.7 blwyddyn
Hirhoedledd yn 65 ar gyfer pensiynwyr y dyfodol:				
• Dynion	25.7 blwyddyn	25.9 blwyddyn		
• Merched	28.3 blwyddyn	28.4 blwyddyn		
Cyfradd Chwyddiant	2.10%	2.20%	2.10%	2.30%
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau	3.35%	3.45%		
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau	2.20%	2.30%	2.20%	2.40%
Cyfradd disgowntio buddiannau'r cynllun	2.60%	2.40%	2.60%	2.40%

Mae amcangyfrif y rhwymedigaeth budd ddiffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwari a nodir yn y tabl uchod. Mae'r dadansoddiadau sensitifrwydd isod wedi eu pennu ar sail newidiadau rhesymol posibl ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac mae'n rhagdybio, ar gyfer pob newid, bod y rhagdybiaeth wedi dadansoddi newidiadau tra mae'r holl ragdybiaethau eraill yn aros yn gyson. Mae'r rhagdybiaethau o ran hirhoedledd, er enghraifft, yn rhagdybio bod disgwyliad oes yn cynyddu neu'n lleihau ar gyfer dynion a merched. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, a gall newidiadau mewn rhai rhagdybiaethau fod yn rhyngberthynol. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad sensitifrwydd wedi dilyn polisïau cyfrifo'r cynllun h.y. ar sail actiwari yn defnyddio'r dull credyd uned a ragamcanir. Nid yw'r dulliau na math y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth lunio'r dadansoddiad sensitifrwydd isod wedi eu newid ers y cyfnod blaenorol.

Newid mewn rhagdybiaethau 31 Mawrth 2019	Effaith ar y rhwymedigaeth net yn sgil y Rhwymedigaeth Budd Ddiffiniedig yn y Cynllun £000
Hirhoedledd (cynnydd mewn 1 flwyddyn)	14,180
Cyfradd chwyddiant (cynnydd o 0.1%)	13,096
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau (cynnydd o 0.1%)	1,891
Cyfradd ddisgowntio rhwymedigaeth y cynllun (cynnydd o 0.1%)	(12,859)

Risgiau a'r Strategaeth Fuddsoddi

Mae'r Gronfa yn cynnal sefyllfaoedd yn defnyddio amrywiaeth o offerynnau ariannol ac felly mae'n agored i nifer o risgiau ariannol gan gynnwys risgiau credyd a gwrthrannol, risg hylifedd, risg marchnad a risg cyfraddau cyfnewid.

Mae gweithdrefnau rheoli risg yr Awdurdod Gweinyddu yn canolbwyntio ar natur anrhagweladwy'r marchnadoedd ariannol a gweithredu cyfyngiadau i leihau'r risgiau hynny. Mae'r Gronfa Bensiwn yn flynyddol yn adolygu ei Ddatganiad Strategaeth Fuddsoddi, a'r

Datganiad Strategaeth Cyllido gyfatebol, sy'n gosod polisi'r Gronfa Bensiwn ar faterion fel y math o fuddsoddiadau i'w dal, y balans rhwng gwahanol fathau o fuddsoddiadau, cyfyngiadau buddsoddi a'r ffordd y rheolir risg.

Effaith ar Lif Arian yr Awdurdod
Amcanion y cynllun yw cadw cyfraniadau cyflogwyr mor gyson â phosibl. Mae'r Cyngor Sir wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r cynllun i gyflawni lefel gyllido 100% dros y 16 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro yn flynyddol. Bydd y prisiad tair blynedd nesaf yn cael ei gwblhau ar 31 March 2019.

Bydd yn rhaid i'r cynllun ystyried newidiadau cenedlaethol i'r cynllun dan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Dan y Ddeddf, efallai na fydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru a Lloegr, a'r prif gynlluniau pensiwn eraill, yn darparu buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth ar ôl 31 March 2014. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau, o fewn fframwaith cyffredin, i sefydlu cynlluniau cyfartaledd enillion gyrfa newydd i dalu pensiynau a buddiannau eraill i weision cyhoeddus penodol.

Rhagwelir y bydd yr awdurdod yn talu £17,551k i'r cynllun yn 2019/20.

Cyfartaledd pwysol hyd y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar gyfer aelodau'r cynllun yw 18 mlynedd, 2018/19 (18 mlynedd 2017/18).

36. Natur a Maint y Risgiau sy'n Deillio o Offerynnau Ariannol

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Rheoli Trysorlysoedd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ac mae'n cydymffurfio â'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf ar gyfer Awdurdodau Lleol.

Fel rhan o fabwysiadu Cod Rheoli'r Trysorlys, cymeradwyodd y Cyngor Strategaeth Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2018/19 ar 20 Chwefror 2018. Mae'r Strategaeth yn nodi'r paramedrau ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag Offerynnau Ariannol. Mae'r Cyngor hefyd yn cynhyrchu Arferion Rheoli'r Trysorlys sy'n nodi'r trefniadau ymarferol i'w dilyn i reoli'r risgiau hyn.

Mae Strategaeth Reoli'r Trysorlys yn cynnwys Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn unol â Chyfarwyddyd Buddsoddi Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn egluro y dylid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd, yn hytrach nag arenillion. Mae Strategaeth Trysorlys y Cyngor, ynghyd â'i Arferion Rheoli'r Trysorlys, yn seiliedig ar geisio cyfradd uchaf dychweliadau sy'n gyson â lefelau priodol diogelwch a hylifedd.

Y prif risgiau a gaiff eu cwmpasu yw:

Risg Credyd: Y posibilrwydd y bydd partïon eraill yn methu talu symiau dyledus i'r Cyngor.

Risg Hylifedd: Y posibilrwydd y does gan y Cyngor ddim arian ar gael i gwrdd â'i ymrwymiadau i wneud taliadau.

Risg Marchnad: Y posibilrwydd y gallai colled ariannol godi i'r Cyngor o ganlyniad i newidiadau mewn mesuriadau fel cyfraddau llog a symudiadau ar y farchnad stoc.

Risg Credyd

Buddsoddiadau

Mae'r Cyngor yn rheoli'r risg trwy sicrhau bod buddsoddiadau wedi'u lleoli gyda'r llywodraeth ganolog, awdurdodau eraill neu Fanciau a Chymdeithasau Adeiladu sydd â sgorau credyd digon uchel fel y nodwyd yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys. Bydd cyfyngiad o £5,000k yn cael ei roi ar swm yr arian y gellir ei fuddsoddi gyda pharti unigol. Ni ellir buddsoddi mwy na chyfanswm o £10,000k am gyfnod hirach na blwyddyn.

Nid oes gan y Cyngor unrhyw brofiad hanesyddol o ddiffygdalu gan barti arall. Mae'r Cyngor yn defnyddio amryw o ddangosyddion yn ogystal â sgorau credyd i benderfynu pwy i fuddsoddi gyda nhw. Mae'r rhain yn cynnwys gwarantau'r Llywodraeth, cryfder ariannol y Wlad a phrisiau cyfranddaliadau. Bydd y Cyngor a'i ymgynghorydd trysorlys yn parhau i ddadansoddi a monitro'r dangosyddion hyn a datblygiadau credyd yn rheolaidd ac yn ymateb yn ôl yr angen i sicrhau diogelwch y symiau a fuddsoddwyd.

Dyledwyr

Cydnabyddir yn yr amgylchedd economaidd presennol y bydd casglu arian dyledus yn anoddach, ond mae'r Awdurdod eisoes wedi buddsoddi mewn methodoleg Rheoli Credyd cryf gyda staff hyfforddedig wedi'u cefnogi gan drefnau effeithiol a ddylai gynnal llif arian a lleihau enghreifftiau o droseddau cytundebol.

Mae'r tabl isod yn crynhoi gwerth nominal portffolio buddsoddi'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

		Sgôr Tymor Hir ar adeg Buddsoddi	Sgôr Tymor Hir ar 31/03/2019	Balans a fuddsoddwyd ar 31/03/2019 £000	Dyddiad Ad-dalu			
					0-3 Mis £000	4-6 Mis £000	7-9 Mis £000	10-12 Mis £000
Banciau'r DU	Bank of Scotland	A+	A+	5,000	5,000			
	NatWest	A+	A+	300	300			
	Llywodraeth y DU Swyddfa Rheoli Dyled	AA	AA	4,400	4,400			
	Cyfanswm			**9,700**	**9,700**			

Diffiniad		
Graddau Tymor Hir	AA	**Ansawdd Credyd Uchel Iawn** Disgwyliad o risg credyd isel iawn. Gallu cryf iawn i dalu ymrwymiadau ariannol sydd ddim yn agored yn sylweddol i ddigwyddiadau rhagweladwy.
	A	**Ansawdd Credyd Uchel** Disgwyliad o risg credyd isel. Gallu cryf i dalu ymrwymiadau ariannol, a all fod yn fwy agored i amodau busnes neu economaidd anffafriol nag sy'n wir ar gyfer graddau uwch.

Risg Hylifedd

Mae gan y Cyngor fynediad at gyfleusterau benthyca gan y Bwrdd Benthyca Gwaith Cyhoeddus (PWLB). Does dim risg yn cael ei adnabod na fydd y Cyngor yn gallu dod o hyd i'r arian i dalu ei ymrwymiadau. Mae'r Cyngor hefyd yn gorfod rheoli'r risg na fydd yn agored i ailgyflenwi cyfran helaeth o'r arian a fenthycwyd ar adeg pan mae cyfraddau llog yn anffafriol.

Roedd dadansoddiad aeddfedrwydd dyled PWLB a dros dro y Cyngor ar 31 Mawrth 2019 fel a ganlyn:

	Blynyddoedd	31 Mawrth 2018 £000	31 Mawrth 2019 £000	%
Benthyciadau Tymor Byr	Llai na 1 blwyddyn	**(30,390)**	**(24,705)**	**10.83**
Benthyciadau Tymor Hir	Dros 1 dan 6	(19,830)	(30,215)	13.24
	Dros 6 dan 10	(9,800)	(18,134)	7.95
	Dros 10 dan 15	(10,049)	(21,059)	9.23
	Dros 15 dan 20	(35,803)	(40,072)	17.57
	Dros 20 dan 25	(12,370)	(6,000)	2.63
	Dros 25 dan 30	0	0	0.00
	Dros 30 dan 35	(11,053)	(19,126)	8.38
	Dros 35 dan 40	(71,897)	(63,825)	27.98
	Dros 40 dan 45	(5,000)	(5,000)	2.19
Cyfanswm Benthyca Tymor Hir		**(175,802)**	**(203,431)**	**89.17**
Cyfanswm Benthyca ar Swm Nominal		**(206,192)**	**(228,136)**	**100.00**
Llog a Gronnwyd		(1,454)	(1,677)	
		941	0	
Premiwm a Ohiriwyd				
Addasiadau SAARh 9		0	5,493	
Cyfanswm Benthyca ar Gost Amorteiddio		**(206,705)**	**(224,320)**	
Balans ar 31 Mawrth 2018		**(206,705)**		
Addasiad SAARh 9		5,551		
Balans ar 1 Ebrill 2018		**(201,154)**		

Risg Marchnad

(1) Risg Cyfradd Llog:
Mae'r Cyngor yn agored i risgiau sy'n deillio o symudiadau yn y cyfraddau llog. Nod y Strategaeth Rheoli Trysorlys yw lliniaru'r risgiau hyn trwy osod terfyn uchaf o 40% ar ddyled allanol a all fod yn destun cyfraddau llog amrywiol. Ar 31 Mawrth 2018 a 31 Mawrth 2019, roedd 100% o'r portffolio dyledion mewn offerynnau cyfradd sefydlog.
Mae buddsoddiadau hefyd yn amodol ar symudiadau mewn cyfraddau llog. Oherwydd bod buddsoddiadau yn cael eu gwneud ar gyfraddau sefydlog, ond ar gyfer cyfnodau amser byrrach, maent yn fwy agored i symudiadau cyfraddau llog. Mae'n rhaid cydbwyso'r risg yn erbyn y camau gweithredu a gymerwyd i liniaru'r risg credyd.

(2) Risg Pris:
Nid yw'r Cyngor yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau ecwiti ac felly ni fydd unrhyw risg prisiau (h.y. y risg y bydd y Cyngor yn dioddef colled o ganlyniad i symudiadau anffafriol ym mhris yr offerynnau ariannol).

(3) Risg Cyfnewid Tramor
Nid oes gan y Cyngor unrhyw asedau na dyledion ariannol mewn arian tramor. Felly, nid yw'n agored i risg o golli arian o ganlyniad i symudiadau anffafriol yn y cyfraddau cyfnewid.

37. Asedau Treftadaeth

Cysoni Gwerth Asedau Treftadaeth sydd gan yr Awdurdod.

2018/19	Cofeb Hynafol Cofrestredig £000	Plas Newydd £000	Carchar Rhuthun £000	Nant Clwyd Y Dre £000	Cyfanswm Asedau Treftadaeth £000
Cost neu Brisiad					
1 Ebrill 2018	0	1,114	4,427	2,954	8,495
Ychwanegiadau	0	0	0	0	0
Enillion Ailbrisio	0	811	3,009	2,976	6,796
Gostyngiadau ailbrisiad wedi eu cydnabod yn yr arian dros ben neu'r diffyg yn narpariaeth y gwasanaethau	0	0	(75)	0	(75)
Dibrisiadau	0	(10)	(31)	(30)	(71)
31 Mawrth 2019	**0**	**1,915**	**7,330**	**5,900**	**15,145**

2017/18	Cofeb Hynafol Cofrestredig £000	Plas Newydd £000	Carchar Rhuthun £000	Nant Clwyd Y Dre £000	Cyfanswm Asedau Treftadaeth £000
Cost neu Brisiad					
1 Ebrill 2017	361	1,122	4,460	2,969	8,912
Ychwanegiadau	0	0	0	0	0
Gostyngiadau ailbrisiad wedi eu cydnabod yn yr arian dros ben neu'r diffyg yn narpariaeth y gwasanaethau	(361)	0	0	0	(361)
Dibrisiadau	0	(8)	(33)	(15)	(56)
31 Mawrth 2018	0	1,114	4,427	2,954	8,495

Ail-brisiwyd yr Asedau Treftadaeth yn 2018/19, ac mae wedi arwain at gynnydd net o £ 6.721m, hyn oherwydd y ffaith bod y priswyr wedi cael cyngor annibynnol ar gostau ailadeiladu ac mae'r rhain yn sylweddol uwch nag a amcangyfrifwyd yn flaenorol.

Cofebion Hynafol Cofrestredig
Mae gan y Cyngor nifer o gofebion hynafol cofrestredig ac adeiladau rhestredig a ddosberthir gan CADW fel Asedau Treftadaeth ond nid oes gan y rhain brisiadau ynghlwm. Yn eu plith mae Castell Dinas Bran sydd yn gastell canoloesol sy'n sefyll yn uchel ar fryn uwchben tref Llangollen, ac mae'n safle Bryngaer o'r Oes Haearn. Mae eraill yn cynnwys Twŵr Jiwbilî, Moel Fenlli, Moel y Gaer Llanbedr, Caer Drewyn, Tŷ Baddon Rufeinig Prestatyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan CADW neu Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys.

Regalia Dinesig
Mae'r rhan fwyaf o'r Regalia Dinesig yn dal i fod ym mherchnogaeth pob Cyngor Tref, gyda nifer fach iawn o wrthrychau yn derbyn gofal gan y Gwasanaeth Treftadaeth, oherwydd bod angen gofal a storfa broffesiynol arnynt neu oherwydd eu gwerth hanesyddol. Fodd bynnag, nid yw Regalia Dinesig wedi'i gynnwys ar y Fantolen gan fod angen rhagor o wybodaeth a chyfuno'r casgliadau.

Adeiladau Treftadaeth
Mae gan Sir Ddinbych yr adeiladau treftadaeth a ganlyn. Ailbrisiwyd yr adeiladau yn 2018/19 fel rhan o'r rhaglen aiblrisio pum mlynedd. Nid oes prisiad, ar hyn o bryd, ar gyfer yr arteffactau a gedwir yn yr adeiladau. Mae'r rhan fwyaf o arteffactau yn 'roddion' heb unrhyw gost ac nid yw'r gair 'gwerth' mewn amgueddfeydd yn aml yn cyfeirio at werth ariannol.

Plas Newydd – Adeilad Gradd 2 a Thirwedd Rhestredig*
Mae Plas Newydd yn eiddo dau lawr ar wahân sydd wedi'i adeiladu gyda ffrâm bren a drychiadau brics a charreg wedi'u rendro a'u paentio. Mae gan yr amgueddfa tua 400 o arteffactau gan gynnwys dodrefn, eitemau cymdeithasol a domestig (llyfrau, medalau, cerameg a gwisgoedd), effemera a chasgliadau amrywiol.

*Carchar Rhuthun – Carchar Fictoraidd Gradd 2**
Caeodd Carchar Rhuthun fel carchar yn 1916. Prynodd y Cyngor Sir yr adeiladau yn 1926 a'u defnyddio ar gyfer swyddfeydd, archifau'r sir a llyfrgell y dref. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, defnyddiwyd adeiladau'r carchar fel ffatri arfau, cyn ei dychwelyd i'r Cyngor Sir fel pencadlys Gwasanaeth Llyfrgell Sir Ddinbych. Yn 2002, ailwampiwyd y carchar yn helaeth a'i ailagor fel amgueddfa. Mae rhai o'r eitemau yn y casgliad yn rhan annatod o'r adeilad, megis y baddonau cerrig, tra bod eraill yn wrthrychau ac yn archifau sy'n ymwneud â hanes y Carchar.

Nant Clwyd Y Dre – Adeilad Graddfa 1 a Gerddi Rhestredig*
Prynwyd yr eiddo gan Gyngor Sir Clwyd yn 1984. Roedd yn adfail ond roedd rhaglen i adnewyddu a diogelu'r rhannau allanol a gwblhawyd yng nghanol y 1990au. Cafodd yr eiddo ei adnewyddu yn llawn a'i agor i'r cyhoedd ym mis Mehefin 2007 fel amgueddfa oherwydd ei deilyngdod hanesyddol.
Mae'r eiddo yn cynnwys Tŷ 14eg Ganrif a ehangwyd yn helaeth. Mae'r eiddo yn strwythur rhestredig gradd 1 gyda gardd hanesyddol cofrestredig, gazebo rhestredig gradd 1 a waliau gardd rhestredig. Mae'r mwyafrif o'r eitemau sy'n cael eu harddangos yn atgynhyrchiadau neu o ffynhonnell anhysbys y tu allan i Sir Ddinbych. Fodd bynnag, mae unrhyw wrthrychau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â hanes y tŷ, ac sydd wedi dod i'r amlwg ac wedi bod yn 'roddion' wedi dod i mewn i Wasanaeth Treftadaeth Sir Ddinbych.

Casgliadau Gwasanaeth Treftadaeth Sir Ddinbych
Mae'r casgliad yn dyddio o'r 1960au pan, cyn bodolaeth gwasanaeth amgueddfa neu dreftadaeth, roedd deunydd yn cael ei gasglu gan amryw o adrannau o'r hen awdurdodau lleol. Mae tua 10,000 o wrthrychau yn y casgliad gan gynnwys hanes cymdeithasol a diwydiannol, archif a deunydd archeolegol.

Amgueddfeydd
Mae tua 1,000 o eitemau yn gysylltiedig â'r hen amgueddfa yn Ninbych a tua 3,000 o eitemau unigol yn gysylltiedig ag Amgueddfa'r Rhyl.

Asedau Treftadaeth Anniriaethol
Mae rhai cofnodion hanesyddol yn cael eu cadw yn Swyddfa Cofnodion Sir Ddinbych, ond mae angen ymchwil pellach ar gyfer perchnogaeth rhai o'r cofnodion.

Arall
Nodwyd fod gan Ysgol Uwchradd yn Sir Ddinbych lun gan yr arlunydd Tirlun Cymreig, Syr John "Kyffin" Williams. Amcangyfrif iw ei fod yn werth rhwng £14,000 - £20,000.

Rheoli Casgliadau a Phrisiadau
Mae rheoli casgliadau yn cael ei arwain gan y Cynllun Achrediadau a Strategaeth Amgueddfeydd Cymru. Mae casgliadau treftadaeth teithiol y Sir yn cael eu cadw yn Storfa'r Sir yn Rhuthun. Mae'r rhain yn cynnwys casgliadau archeolegol (fel canfyddiadau Rhufeinig o Faddondy Prestatyn a chasgliadau canoloesol o Gastell Rhuddlan), casgliadau sy'n gysylltiedig â Merched Llangollen, sawl cadair Eisteddfod a chasgliadau hanes cymdeithasol yn ymwneud â'r sir gyfan. Ym mis Awst 2017, cafodd Curadur Amgueddfa â chymwysterau proffesiynol ei recriwtio i gymryd cyfrifoldeb am ofalu am y casgliadau yn Sir Ddinbych, gan ddisodli'r trefniant SLA blaenorol gydag Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan. Mae gwaith y Curadur hyd yma wedi cynnwys cyflwyno ar gyfer Achrediad Amgueddfeydd ym Mhlas Newydd, Carchar Rhuthun ac Amgueddfa'r Rhyl, a oedd yn llwyddiannus ar gyfer pob safle ac a ddyfarnwyd ym mis Medi 2018. Cynhaliwyd archwiliad gwrthrych llawn ym Mhlas Newydd, Carchar Rhuthun, Amgueddfa'r Rhyl ac Amgueddfa Gwirfoddolwyr Dinbych (sydd ar hyn o bryd yn cynnwys Amgueddfa Dinbych a Chasgliadau Sir Ysbyty ar fenthyciad hirdymor). Mae gwaith yn parhau yn Storfa yr Amgueddfa i wirio cyflwr, ail-labelu, tynnu lluniau a symud pob gwrthrych yn gorfforol, fel rhan o brosiect mwy i wella gofal gwrthrych a cynhwysedd storio. Yn unol â'r archwiliadau gwrthrych, bu gweithredu'r Gronfa Ddata Rheoli Gwrthrych newydd a fydd yn dal yr holl wybodaeth gwrthrych. Mae swydd y Curadur yn bodloni gofynion Achredu Amgueddfeydd yn llawn.

Benthyciadau

Bydd nifer o eitemau yn cael eu benthyca i ac o'r Gwasanaeth Treftadaeth. Mae gan Plas Newydd ddodrefn sy'n cael ei fenthyca gan Amgueddfa Cenedlaethol Cymru ac mae'r rhain wedi'u cynnwys ym mholisi yswiriant Sir Ddinbych. Mae yna hefyd eitemau ar fenthyciad hirdymor gan Orielau Cyfiawnder yn Nottingham yng Ngharchar Rhuthun. Bydd cofrestr fenthyciadau yn cael ei chadw ym mhrif swyddfa'r amgueddfa.

Caffael a Gwerthu

Mae gan y Gwasanaeth Treftadaeth "Lyfryn Dogfennau a Threfnau Amgueddfa", yn ogystal â'r polisïau eraill sydd wedi'u rhestru yng Nghynllun Ymlaen y Gwasanaeth Treftadaeth. Mae Dogfennaeth a Llawlyfr Gweithdrefn yr Amgueddfa yn dogfennu'r gweithdrefnau ar gyfer caffael a gwaredu pob eitem. Dylai fod gan bob eitem rif unigryw, manylion am berchnogaeth a math o flaendal. Unwaith y bydd eitem ar gael yn erbyn y Polisi Casglu, gwneir penderfyniad i'w dderbyn yn ffurfiol i gasgliad yr amgueddfa neu ddychwelyd i'r perchennog.

Adran 4: Datganiadau Atodol

A
Nodiadau Ynglŷn Â'r Datganiadau Atodol

Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai

2017/18 £000		Nodyn	2018/19 £000
	Gwariant		
4,442	Trwsio a chynnal		4,871
2,523	Goruchwylio a rheoli		2,556
13	Rhenti, cyfraddau, trethu a ffioedd eraill		18
8,710	Dibrisiant ac amhariad ar asedau anghyfredol	5	8,926
39	Costau rheoli dyledion		38
96	Symudiad mewn darpariaeth dyledion drwg		137
15,823	**Cyfanswm Gwariant**		**16,546**
	Incwm		
(14,158)	Rhenti anheddau (Gros)		(15,181)
(172)	Rhenti nad ydynt ar gyfer anheddau (Gros)		(178)
(14,330)	**Cyfanswm incwm**		**(15,359)**
1,493	**Gwariant net Gwasanaethau y Cyfrif Refeniw Tai fel sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**		**1,187**
58	Cyfran y Cyfrif Refeniw Tai o'r Gwariant Corfforaethol		58
1,551	**Gwariant Net y Gwasanaethau Cyfrif Refeniw Tai**		**1,245**
	Cyfran y Cyfrif Refeniw Tai o'r incwm a gwariant sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		
24	Costau Gweinyddu Pensiwn	6	25
3,253	Llog yn daladwy a thaliadau tebyg		3,055
(10)	Incwm llog a buddsoddiadau		(13)
225	Llog net ar y rhwymedigaeth buddiannau net diffiniedig (ased)	6	214
(2,409)	Grantiau cyfalaf a chyfraniadau eraill a gafwyd		(3,540)
2,634	**(Gweddill) neu ddiffyg ar gyfer y flwyddyn ar wasanaethau Cyfrif Refeniw Tai**		**986**

Symudiadau'r Datganiad Cyfrif Refeniw Tai

2017/18 £000		2018/19 £000	
(2,547)	**Balans y Cyfrif Refeniw Tai ar 1 Ebrill**		**(2,203)**
2,634	(Gweddill) neu ddiffyg ar gyfer y flwyddyn ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cyfrif Refeniw Tai.	986	
(2,353)	Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifo a'r Sail Ariannu dan y Rheoliadau (gweler isod)	(427)	
281	(Cynnydd) neu leihad net cyn trosglwyddo i neu o'r cronfeydd wrth gefn		559
63	Trosglwyddiadau i neu (o'r) cronfeydd wrth gefn		(40)
344	(Cynnydd) neu leihad yn y flwyddyn ar y Cyfrif Refeniw Tai		519
(2,203)	**Balans y Cyfrif Refeniw Tai ar 31 Mawrth**		**(1,684)**

	Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail ariannu dan y Rheoliadau:		
	Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf		
	Gwrthdroad eitemau sydd wedi eu debydu a'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		
(8,710)	Y tâl a godir am ddibrisiant ac amhariad ar asedau anghyfredol	(8,926)	
2,409	Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a gymhwyswyd	3,540	
0	Gwariant Refeniw a Ariennir o Gyfalaf Trwy Statud	0	
(328)	Symiau'r asedau nad ydynt yn gyfredol a ddiddymwyd wrth waredu neu werthu fel rhan o'r enillion/colledion wrth waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(288)	**(5,674)**
	Cynnwys eitemau nad ydynt wedi eu debydu na'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		
2,703	Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiadau cyfalaf	2,853	
1,647	Gwariant Cyfalaf y codir tâl yn erbyn Balansau'r Cyfrif Refeniw Tai	2,442	
	Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Derbyniadau Cyfalaf		
328	Trosglwyddiad enillion gwerthiannau arian parod a gredydwyd fel rhan o'r enillion/colledion wrth waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cyfrif Refeniw Tai	288	
	Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol		
0	Y swm sy'n gwahaniaethu rhwng costau ariannu y codir tâl amdanynt i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r costau ariannu y codir tâl amdanynt yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol.	3	
	Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Gronfa Bensiynau		
(967)	Gwrthdroad eitemau mewn perthynas â buddiannau ymddeol sydd wedi eu debydu a'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfrif Refeniw Tai.	(945)	
579	Cyfraniadau pensiwn gweithiwr yn daladwy yn y flwyddyn	608	
	Addasiadau'n cynnwys y Cyfrif Absenoldeb Cronnol		
(14)	Y swm sy'n gwahaniaethu rhwng tâl swyddogion y codir amdanynt i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cyfrif Refeniw Tai ar sail gronnus, a'r tâl y codir amdanynt yn ystod y flwyddyn yn unol â gofynion statudol.	(2)	**5,247**
(2,353)	**Cyfanswm yr addasiadau**		**(427)**

Nodiadau ynglŷn â'r Datganiadau Atodol

1. Stoc Tai

Roedd cyfanswm stoc tai y Cyngor fel a ganlyn:

2017/18 Nifer yr Eiddo		2018/19 Nifer yr Eiddo
1,810	Tai	1,804
954	Fflatiau	957
616	Byngalos	617
3,380	**Cyfanswm**	**3,378**

Yn ystod y flwyddyn, gwerthwyd tri adeilad dan y Cynllun Hawl i Brynu, a phrynwyd pump yn ystod y flwyddyn a thynnwyd pedwar o'r stoc dai.

2. Ôl-ddyledion Rhent

Ar 31 Mawrth 2019, roedd ôl-ddyledion rhent y tenantiaid yn £647k, (£427k ar 31 Mawrth 2018) sy'n cynrychioli 4.26% o'r incwm net rhent sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn. Ni chafodd unrhyw ôl-ddyledion eu dileu yn ystod y flwyddyn. Gwnaethpwyd cyfraniad i'r ddarpariaeth Dyledion Drwg ac Amheus o £137k yn ystod y flwyddyn a'r balans ar ddiwedd y flwyddyn oedd £467k.

3. Derbyniadau Cyfalaf

Bu 3 gwerthiant Hawl i Brynu (RTB) yn 2018/19 ynghyd ag un pryniant tir. Er bod y "RTB" wedi ei atal, mae ceisiadau cyn-atal wedi eu cwblhau. Yn 2018/19 derbyniwyd £288k o werthiannau "RTB", £328k yn 2017/18.

4. Dadansoddiad Gwariant Cyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai

Yn ystod 2018/19, roedd gwariant cyfalaf o £8,632k ar welliannau i stoc tai y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau i'r stoc presennol a buddsoddiad mewn safleoedd i hwyluso datblygiad stoc tai ychwanegol. Mae hefyd yn cynnwys caffaeliad stoc tai blaenorol. Mae'r cyfanswm gwariant cyfalaf wedi'i ariannu gan bum ffynhonnell: Y Lwfans Gwaith Trwsio Mawr (grant y llywodraeth), derbyniadau cyfalaf (o'r cynllun 'Hawl i Brynu') cyfraniadau refeniw Uniongyrchol y Cyfrif Refeniw Tai, Benthyca Darbodus a grantiau eraill fel y nodwyd yn y tabl drosodd.

2017/18 £000	Gwariant Cyfalaf Tai	2018/19 £000
87	Rheoli Ansawdd Perfformiad – Prosiect TG	190
3,007	Caffaeliadau	2,715
5,906	Cynlluniau Gwella a wedi'i gynllunio	5,727
9,000	**Gwariant yn y Flwyddyn**	**8,632**
	Wedi'i ariannu gan:	
2,409	Lwfans Gwaith Trwsio Mawr (Grant)	2,412
82	Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiol	72
1,647	Cyfraniadau refeniw Cyfrif Refeniw Tai Uniongyrchol	2,458
4,862	Benthyca Darbodus	2,577
0	Grantiau eraill	1,113
9,000	**Cyfanswm**	**8,632**

5. Dibrisiant a Cholledion Amhariad ac Ailbrisio Asedau Anghyfredol

Yn unol â'r fframwaith Cyfrifo Adnoddau, bydd ffioedd dibrisiant, amhariad a cholledion adbrisio wedi'u cynnwys yn y Cost Gwasanaethau Net Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r ffi dibrisio yn seiliedig ar werth y Fantolen o'r anheddau ac asedau eraill ac mae'n adlewyrchu'r asedau sy'n bodoli ac a ddefnyddir wrth ddarparu'r gwasanaeth, yn hytrach na'r arian a wariwyd arnynt bob blwyddyn. Mae'r amhariad a'r colledion adbrisio yn deillio o ganlyniad i'r broses adbrisio. Mae'r ffi dibrisio, amhariad a cholledion adbrisio'n cael eu cildroi o Gostau Net Gwasanaethau drwy Symudiad ar Ddatganiad CRT. Mae'r cildroad yn dod â phris net cyfalaf i'r CRT yn ôl i bris statudol, sy'n cael ei gyfrifo yn unol ag Penderfyniad Cyffredinol ynghylch Eitem 8 Credyd ac Eitem 8 Debid (Cymru) 2015. Nid yw'r ffioedd dibrisio a cholledion amhariad ac ailbrisio yn cael effaith ar falansau'r Cyfrif Refeniw Tai.

Mae cyfanswm ffioedd dibrisio a cholledion amhariad ac adbrisio ar gyfer 2018/19 yn cael eu dangos isod:

2017/18 £000		2018/19 £000
2,111	Asedau Gweithredol – Anheddau	2,085
63	Asedau Gweithredol – Offer as Isadeiledd	52
2,174	**Cyfanswm Dibrisiant**	**2,137**
6,536	**Colledion Amhariad ac Adbrisiad**	**6,789**
8,710	**Cyfanswm Dibrisiad Amhariad a Cholledion Ailbrisiad CRT**	**8,926**

6. Trafodion yn Ymwneud â Buddion Ymddeol

Mae cost buddiannau ymddeol wedi'i gydnabod yng nghost net gwasanaethau pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan gaiff y buddiannau eu talu fel pensiynau. Ond, mae'r ffi i'r Cyfrif Refeniw Tai yn seiliedig ar gyfraniad y cyflogwr sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly bydd gwir gost y buddion ymddeol yn cael eu dileu yn y Datganiad Symudiad Cyfrif Refeniw Tai.

Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad Symudiadau Cyfrif Refeniw Tai yn ystod y flwyddyn.

2017/18 £000	Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	2018/19 £000
	Cost net y Gwasanaethau	
702	Costau Gwasanaeth Cyfredol	706
16	Costau Gwasanaeth y Gorffennol	0
	Gwariant Gweithredu Net	
24	Treuliau Gweinyddu Pensiwn	25
225	Gwariant Llog Net	214
967	**Ffi net i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**	**945**
	Symudiadau'r Datganiad Cyfrif Refeniw Tai	
(967)	Dileu ffioedd net ar gyfer buddion ymddeol yn unol â'r Cod	(945)
579	Cyfraniadau cyflogwr sy'n daladwy i Gynllun Cronfa Bensiwn Clwyd	608

Adran 5: Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Aelodau Cyngor Sir Ddinbych

Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Barn
Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
Mae datganiadau ariannol Cyngor Sir Ddinbych yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, y Datganiad Symud ar y Cyfrif Refeniw Tai a Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol.
Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018-19 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).
Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ddinbych ar 31 Mawrth 2019 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018-19.

Sail y farn
Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISA (UK)). Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol. Rwy'n annibynnol ar Gyngor Sir Ddinbych yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu' Cyngor Sir Ddinbych i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Gwybodaeth arall
Y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.
Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall er mwyn nodi anghysonderau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail yr wybodaeth a gefais wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol

anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau perthnasol ymddangosiadol, ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

Adroddiad ar ofynion eraill

Barn am faterion eraill
Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi ei baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018-19;
- Mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad
Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gyngor Sir Dinbych a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau archwiliad
Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ddinbych yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol
Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 11, y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.
Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu Cyngor Sir Ddinbych i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol
Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt

ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.
Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Anthony J Barrett
Tros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru
13 Medi 2019

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cyngor Sir Ddinbych sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Cyngor yw hygrededd gwefan Cyngor Sir Ddinbych a'r gwaith o gynnal y wefan honno: nid yw'r gwaith a gyflawnir gan archwilwyr yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldebau am unrhyw newidiadau a allai fod wedi cael eu cyflwyno i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

Adran 6: Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2018-19

Cyflwyniad

Mae fframwaith Darparu Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru Solace (2016) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Pwrpas hyn yw i ddangos fod Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor):

- Yn cynnal ei fusnes yn unol â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol;
- Yn cyfrif am ac yn diogelu arian cyhoeddus yn briodol;
- Yn defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, effeithlon ac effeithiol i gyflawni'r blaenoriaethau a gytunwyd sydd o fudd i'r bobl leol.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r 'Egwyddorion Craidd' sy'n sail i fframwaith CIPFA/Solace i ffurfio ei Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol. Mae'r saith egwyddor craidd wedi eu nodi isod ynghyd â throsolwg o fframwaith llywodraethu'r Cyngor:

Prif Elfennau Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor

Ffynonellau Tystiolaeth

- Cyfansoddiad
- Cynllun Corfforaethol
- Strategaeth Arweinyddiaeth
- Gwerthoedd Craidd
- Trefniadau cydraddoldeb
- Trefniadau Rhyddid Gwybodaeth
- Codau ymddygiad
- Polisi Twyll a Llygredigaeth.
- Polisi Rhannu Pryderon
- Cyngor a chanllawiau arbenigol
- Rheoli risg
- Rheoli prosiectau
- Rheolaethau mewnol
- Gwasanaeth Archwilio Mewnol
- Rheoli gwybodaeth
- Hyfforddiant aelodau etholedig a staff
- Adborth cwsmeriaid
- Proses gwyno
- Dogfen cyflenwi blynyddol
- Blaenoriaethau corfforaethol
- Cynllunio ariannol
- Rheoli perfformiad
- Trefniadau partneriaeth
- Strategaeth a pholisïau Adnoddau Dynol
- Rheoli caffael
- Llywodraethu partneriaethau
- Swydd-ddisgrifiadau
- Adroddiadau a gyhoeddwyd
- Cynllun Ymgysylltu â'r Gymuned
- Cynlluniau Dinas, Tref ac Ardal
- Grwpiau Ardal yr Aelodau
- Arolygon preswylwyr
- Strategaeth Gyfathrebu
- Ymgysylltu â staff
- Datganiad ac Amcanion Lles
- Asesiadau o Effaith ar Les

Ffynonellau Sicrwydd

- Adroddiadau perfformiad
- Adroddiadau ariannol
- Trefniadau democrataidd
- Adroddiadau rheoleiddwyr allanol
- Adroddiadau Archwilio Mewnol
- Heriau gwasanaeth
- Hunanasesiadau
- Adolygiadau cyfoedion
- Byrddau partneriaeth
- Arolygon staff
- Arolygon preswylwyr
- Adborth cwsmeriaid
- Ymgynghoriadau

Aelodau

- Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
- Pwyllgorau Craffu
- Pwyllgor Safonau

Cyfarfodydd y Cyngor

- Caiff yr holl gyfarfodydd eu cynnal yn gyhoeddus
- Caiff penderfyniadau eu cofnodi ar wefan y Cyngor

Pwyllgor Gwaith

- Tîm Gweithredol Corfforaethol
  - Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig (Prif Swyddog Gweithredol)
  - Trysorydd (Swyddog Adran 151)
  - Swyddog Monitro
- Uwch Dîm Arweinyddiaeth

Adolygu Effeithiolrwydd

Caiff effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu eu mesur mewn amryw o ffyrdd. Un adroddiad allweddol yw Adroddiad Blynyddol y Prif Archwilydd Mewnol sy'n darparu barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, risg a rheoli'r Cyngor ac i ba raddau y gall y Cyngor ddibynnu arno. Bydd yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym Mehefin 2019, a fydd yn crynhoi prif gasgliadau'r gwaith archwilio a wnaed yn 2018/19, gan gynnwys unrhyw feysydd o wendidau sylweddol yn yr amgylchedd rheoli mewnol.

Barn y Prif Archwilydd Mewnol, gan ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, yw y gellir dyfarnu sicrwydd canolig dros ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd amgylchedd rheoli mewnol cyffredinol y Cyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19. Mae hyn yr un fath â'r llynedd. Ond amlygwyd gwelliannau yn y meysydd canlynol:

Materion a nodwyd gan Archwilio Mewnol yn 2018/19	Cam gweithredu a gytunwyd
Adolygu a diweddaru'r Polisi Gwyngalchu Arian a chodi ymwybyddiaeth gyda swyddogion perthnasol.	Diweddaru'r Polisi Gwyngalchu Arian a hysbysu swyddogion sy'n casglu arian ar ran y Cyngor.
Diffinio awydd am risg a hyfforddiant rheoli risg i aelodau a swyddogion (staff).	Cytuno ar yr awydd am risg a threfnu hyfforddiant ar gyfer aelodau ac uwch reolwyr a rheolwyr canol ar reoli risg.

Amlygodd hunan asesiad a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y llynedd naw maes ar gyfer gwelliant yn ymwneud ag: adroddiadau pwyllgor; ymwybyddiaeth o'r cod ymddygiad; diffygion yn y gyllideb; newidiadau yn effeithio ar uwch reolwyr; partneriaethau, rheoli contractau, gwireddu budd; a gweithredu'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Mae gwaith dilynol gan Archwilio Mewnol yn cadarnhau fod yr holl feysydd yn derbyn sylw.

Adolygodd Grŵp Swyddogion Llywodraethu Corfforaethol yn cynnwys y Swyddog Monitro, Pennaeth Cyllid, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (SIRO) drefniadau'r Cyngor yn erbyn Fframwaith CIPFA/Solace. Roedd hyn yn cadarnhau fod trefniadau llywodraethu fel y Cod Ymddygiad, Rheoliadau Ariannol a phrosesau corfforaethol eraill wedi gweithredu fel a fwriadwyd yn ystod y flwyddyn. Cafodd y Cod Llywodraethu Corfforaethol ei ddiweddaru i adlewyrchu'r trefniadau presennol. O edrych ymlaen, mae'r meysydd canlynol wedi eu nodi ar gyfer gwelliant ar gyfer 2018/19:

Camau Gwella 2018/19:	Camau gweithredu a gytunwyd
Adolygu, diweddaru a hyrwyddo'r Strategaeth Atal Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo	Adolygiad cyfnodol o'r Strategaeth a chodi ymwybyddiaeth fel y bo'n berthnasol.
Adolygu Diwylliant Moesegol y Cyngor fel sy'n ofynnol o dan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus	Adolygiad Archwilio Mewnol wedi ei gynllunio ar gyfer 2019/20.
Cwblhau a hyrwyddo'r Fframwaith Partneriaethau	Fframwaith partneriaeth i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a hysbysu unigolion perthnasol ynglŷn â'r gofynion
Gwaith parhaus i hyrwyddo cod ymddygiad y swyddogion, datgan cysylltiad, rhoddion a lletygarwch a rhannu pryderon.	Modiwl e-ddysgu i'w ryddhau a Swyddog Monitro i friffio uwch reolwyr a rheolwyr canol.
Gwaith parhaus i weithredu gofynion y Rheoliadau Amddiffyn Data Cyffredinol.	Adolygiad Archwilio Mewnol o'r Rheoliadau Amddiffyn Data Cyffredinol.

Y Fframwaith Llywodraethu

Mae Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn cynnwys y Codau Ymddygiad ar gyfer aelodau a swyddogion ac yn mynnu safon uchel o ran ymddygiad. Caiff y rhain eu cefnogi gan ganllawiau mwy manwl fel y Strategaeth ar gyfer Atal a Chanfod Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyaeth, y Polisi Rhannu Pryderon, Rheoliadau Ariannol a Rheolau'r Weithdrefn Gontractau. Mae gan y Swyddog Monitro a'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 gyfrifoldebau i sicrhau fod penderfyniadau'r Cyngor yn diwallu gofynion cyfreithiol.

Egwyddor 2 – Sicrhau didwylledd ac ymgysylltu cynhwysfawr â budd-ddeiliaid

Mae'r Cyngor yn ymgysylltu gyda budd-ddeiliaid a phartneriaid drwy drefniadau cydweithio, byrddau partneriaeth a chynrychiolaeth ar fyrddau llywodraethu cyrff allanol. Mae'r arolwg preswylwyr yn hysbysu strategaethau ymgysylltu â'r gymuned yn ogystal â gwasanaeth. Mae'r Cyngor yn cyhoeddi gwybodaeth ar y wefan gan gynnwys gweminarau o gyfarfodydd y Cyngor. Mae sianelau cyfathrebu yn ymwneud â datganiadau i'r wasg ac arlein fel y cyfryngau cymdeithasol (facebook a trydar) a phorth Sgwrs y Sir https://countyconversation.denbighshire.gov.uk/customerportal

Egwyddor 3 – Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

Mae'r weledigaeth strategol ar gyfer Sir Ddinbych wedi ei hamlinellu yn ei Gynllun Corfforaethol. Ynddi mae'r Cyngor yn diffinio blaenoriaethau a chanlyniadau penodol i'w cyflawni a chaiff hyn ei reoli gan ddau fwrdd rhaglen. Mae bwrdd rhaglen ar wahân yn canolbwyntio ar sicrhau fod sefyllfa ariannol a gwasanaethau'r Cyngor yn gynaliadwy. Caiff Asesiad o Effaith ar Les ei gwblhau i hysbysu penderfyniadau allweddol.

Egwyddor 4 – Penderfynu ar yr ymyrraeth sydd ei angen i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd

Mae adroddiad Perfformiad Chwarterol yn olrhain perfformiad holl weithgareddau'r Cyngor yn nhermau'r prif ddangosyddion perfformiad a chyflawni'r prif ganlyniadau. Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu camau adferol sy'n cael eu cymryd pan fo llithriad yn digwydd. Mae Uwch Reolwyr ac Aelodau (drwy bwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol), yn sicrhau fod y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni ei amcanion a'i flaenoriaethau.

Egwyddor 5 – Datblygu medr, gan gynnwys gallu'r arweinyddiaeth ac unigolion o fewn y Cyngor

Caiff datblygiad ei gyfeirio gan y strategaeth arweinyddiaeth, cynlluniau prentisiaeth a chaiff porth e-ddysgu ei ddefnyddio i ddatblygu staff ar bob lefel. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio ar draws ystod eang o bartneriaethau a threfniadau cydweithio ac mae'n defnyddio prosesau comisiynu a chaffael i sicrhau'r medr uchaf posib drwy ddarparu gwasanaethau yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon.

Egwyddor 6 – Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth ariannol a rheolaeth fewnol gref

Caiff cofrestrau risg corfforaethol eu diweddaru ddwywaith bob blwyddyn, gyda risgiau sylweddol yn cael eu dwyn i sylw uwch reolwyr ac aelodau. Mae Archwilio Mewnol yn asesu ansawdd cyffredinol rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol ac yn cytuno ar gamau gweithredu ar gyfer gwella yn ôl yr angen. Mae gan y Cyngor hanes llwyddiannus mewn rheolaeth ariannol, gan ddarparu gwasanaethau o fewn y gyllideb a llunio cyfrifon 2017/18 yn amserol mewn ymateb i'r gofynion cau'n gynnar.

Egwyddor 7 – Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i ddarparu atebolrwydd effeithiol

Mae'r Cyngor yn darparu gwybodaeth glir a chywir ac mae wedi datblygu ei wefan a ffurf adroddiadau'r Cyngor i wella tryloywder a hygyrchedd. Caiff cofnodion o gyfarfodydd a phenderfyniadau allweddol eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae'r asesiad allanol o'r adran Archwilio Mewnol yn cadarnhau ei fod yn cydymffurfio gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Cyfranwyr allweddol o ran datblygu a chynnal y Fframwaith Llywodraethu

Y Cyngor	– Yn cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol – Yn cymeradwyo'r Cyfansoddiad – Yn cymeradwyo'r polisi a'r fframweithiau ariannol
Y Cabinet	– Prif gorff llunio penderfyniadau'r Cyngor – Yn cynnwys Arweinydd y Cyngor ac aelodau'r Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros bortffolios penodol
Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol	– Cynorthwyo i godi proffil materion yn ymwneud â rheolaeth fewnol, rheoli risg ac adrodd ar faterion ariannol o fewn y cyngor, yn ogstal â darparu fforwm ar gyfer trafod materion a godwyd gan archwilwyr mewnol ac allanol
Y Pwyllgor Safonau	– Mae'r Pwyllgor Safonau yn hyrwyddo safonau uchel o ran ymddygiad gan aelodau etholedig a chyfetholedig ac yn monitro gweithredu Cod Ymddygiad yr Aelodau.
Byrddau Rhaglenni	– Yn olrhain arbedion effeithlonrwydd, amlygu risg a chamau lliniaru i sicrhau cyflawni – Ystyried cadernid cynllunio effeithlonrwydd a rhagweld ac ystyried rhoi adnoddau i ddarpariaeth a gynlluniwyd – Cynllunio gweithgaredd cyfathrebu ac ymgysylltu
Pwyllgorau Craffu	– Adolygu a chraffu penderfyniadau a pherfformiad y Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgorau – Adolygu a chraffu penderfyniadau a pherfformiad cyrff cyhoeddus eraill gan gynnwys partneriaethau
Uwch Dîm Arwein-yddiaeth a Rheolwyr	– Yn gyfrifol am ddatblygu, cynnal a gweithredu fframwaith llywodraethu, risg a rheoli'r Cyngor – Yn cyfrannu tuag at lywodraethu a rheolaeth gorfforaethol effeithiol o'r Cyngor
Archwilio Mewnol	– Darparu barn annibynnol ar digonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaeth fewnol, rheoli risg a threfniadau llywodraethu – Darparu rhaglen o archwiliadau wedi eu seilio ar risg, gan gynnwys gwrth-dwylll ac ymchwilio – Nodi meysydd ar gyfer gwella o ran rheoli risg
Archwilio Allanol	– Archwilio ac adrodd ar ddatganiadau ariannol y Cyngor (gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol), gan ddarparu barn ar y cyfrifon a'r defnydd o adnoddau, gan ddod i gasgliad ar y trefniadau mewn grym ar gyfer sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y defnydd o adnoddau

Materion llywodraethu allweddol

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn dod i'r casgliad fod gan y Cyngor drefniadau effeithiol mewn grym. Tra'n bod yn cydnabod fod yna feysydd i'w gwella (gweler y camau gwella), mae'n bwysig nodi fod Grŵp y Swyddogion Llywodraethu Corfforaethol wedi penderfynu nad oedd yna unrhyw faterion allweddol yn 2018/19.

Bydd y meysydd ar gyfer gwella yr ydym wedi eu nodi yn ein hunanasesiad yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Mae'r cynllun hwn hefyd yn cynnwys unrhyw faterion a godwyd yng nghynllun gweithredu'r llynedd sydd heb eu datrys yn llawn.

Ardystiad

Dros y flwyddyn nesaf, rydym yn cynnig cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ein Cynllun Gweithredu Gwelliannau Llywodraethu er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r angen am welliant a nodwyd yn ein hadolygiad o effeithiolrwydd, a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

Llofnod: _____ Dyddiad: _____ 2019
Y Cynghorydd Hugh Evans
Arweinydd y Cyngor

Llofnod: _____ Dyddiad: _____ 2019
Judith Greenhalgh
Prif Weithredw

Adran 7: Geirfa

ADDASIAD BLWYDDYN FLAENOROL - Addasiadau materol sy'n ymwneud â blynyddoedd blaenorol sy'n deillio o newidiadau mewn polisïau cyfrifo neu o gywiro gwallau sylfaenol. Nid yw hyn yn cynnwys cywiriadau neu addasiadau dro ar ôl tro i'r rhagamcanion cyfrifo yn y blynyddoedd blaenorol.
ADENILLION A DDISGWYLIR AR ASEDAU PENSIWN - Mewn cynllun â buddion diffiniedig wedi ei ariannu, dyma gyfradd gyfartalog yr adenillion a ddisgwylir yn ystod gweddill oes y rhwymedigaeth sy'n berthynol i'r asedau gwirioneddol sydd wedi eu dal gan y cynllun. Mae'n cynnwys incwm a newidiadau i werth teg ond mae'n net o dreuliau'r cynllun.
AMHARIAD - Gostyngiad yng ngwerth ased anghyfredol nes bod yn is na'r swm sydd i'w gario ar y fantolen. Gall amhariad fod o ganlyniad i dreuliant budd economaidd (amhariad budd economaidd) neu gwymp cyffredinol mewn prisiau.
AMORTEIDDIAD - Dileu dyled yn raddol, megis benthyciad, trwy wneud taliadau rheolaidd dros gyfnod penodedig o amser. Rhaid i daliadau o'r fath fod yn ddigonol i gyfarch y prifswm a'r llog.
ARCHWILIO CYFRIFON - Adolygiad annibynnol o faterion ariannol yr Awdurdod.
ARDRETHI ANNOMESTIG - Ardoll ar fusnesau yw Ardreth Annomestig, sy'n seiliedig ar gyfradd genedlaethol yn y bunt, a osodwyd gan y llywodraeth a'i lluosi â gwerth trethiannol asesedig yr eiddo y maent yn ei feddiannu. Fe'i cesglir gan y Cyngor ar ran llywodraeth ganolog ac yna caiff ei hailddosbarthu i gefnogi costau gwasanaethau.
ARIAN PAROD - Yn cynnwys arian parod mewn llaw ac adneuon ar gais.
ARIANNU CYFALAF - Cyllid y cafwyd gafael arno i dalu am wariant cyfalaf. Mae amryfal ffyrdd o ariannu gwariant cyfalaf gan gynnwys benthyca, prydlesu, ariannu refeniw uniongyrchol, derbynion cyfalaf y gellir eu defnyddio, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd refeniw wrth gefn a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.
ASED - Eitem y mae iddi werth ariannol i'r awdurdod. Caiff asedau eu dosbarthu naill yn rhai cyfredol neu'n rhai anghyfredol.
• Bydd ased cyfredol yn cael ei defnyddio neu'n peidio â bod o unrhyw werth materol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf (e.e. arian parod a stoc);
• Bydd ased anghyfredol o fudd i'r Awdurdod ac i'r gwasanaeth y mae'n ei wasanaethu am gyfnod sy'n hwy na blwyddyn a gall fod yn ddiriaethol e.e. adeilad ysgol, neu'n anniriaethol, e.e. trwyddedau meddalwedd gyfrifiadurol.
ASED DIGWYDDIADOL - Ased tebygol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol yw ased digwyddiadol, na ellir cadarnhau ei fodolaeth ond trwy un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth yr Awdurdod.
ASEDAU ANNIRIAETHOL - Ased anariannol adnabyddadwy heb iddo unrhyw sylwedd ffisegol yw ased anniriaethol. Yr asedau anniriaethol y deuir o hyd iddynt amlaf o fewn awdurdodau lleol yw meddalwedd gyfrifiadurol.
ASEDAU CYMUNEDOL - Asedau y mae'r Cyngor yn bwriadu dal ei afael ynddynt am yr hir dymor, nad oes iddynt unrhyw oes ddefnyddiol benodadwy a gallai hynny gyfyngu ar sut y gellir eu gwaredu. Esiamplau o asedau cymunedol yw parciau ac adeiladau hanesyddol.
ASEDAU ISADEILEDD - Asedau anghyfredol sy'n perthyn i'r Cyngor na ellir eu trosglwyddo na'u gwerthu, na ellir ond adfer gwariant arnynt trwy wneud defnydd parhaus o'r ased a grëwyd. Mae priffyrdd, llwybrau a phontydd yn enghreifftiau.
BENTHYCA DROS DRO - Arian sy'n cael ei fenthyg am gyfnod o lai na blwyddyn.
BENTHYCIAD MEDDAL - Benthyciad a wnaed yn ddi-log neu ar gyfradd is na chyfradd y farchnad, fel arfer oherwydd rhesymau polisi. Bydd benthyciadau o'r fath yn aml yn cael eu rhoi i unigolion neu sefydliadau y mae'r Cyngor yn credu sy'n dod â budd i'r boblogaeth leol.
BUDD-DALIADAU TAI - System o gymorth ariannol i unigolion tuag at rai costau tai penodol a weinyddir gan awdurdodau ac y derbynnir cymhorthdal ar ei gyfer gan Lywodraeth Ganolog.

BUDDIANNAU Â DISGRESIWN (PENSIYNAU) - Buddiannau ymddeoliad, nad oes gan y cyflogwr unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, gytundebol nac adeiladol i'w dyfarnu, ac a gânt eu dyfarnu'n ôl pwerau disgresiwn yr Awdurdod megis y Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddiannau, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007.

BUDDIANNAU GWEITHWYR - Pob ffurf o gydnabyddiaeth a roddir gan y Cyngor yn gyfnewid am wasanaeth a gyflawnwyd gan ei weithwyr.

BUDDION YMDDEOL - Pob mathau o ystyriaeth sy'n cael ei roi gan gyflogwr i'w cyfnewid am wasanaethau gan y gweithwyr sy'n daladwy ar ôl cwblhau'r gyflogaeth.

BUDDSODDIADAU (CRONFA BENSIWN) - Gwneir cyfrif o fuddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn yn y datganiadau ar gyfer y gronfa honno. Fodd bynnag, mae'n ofynnol hefyd ar i awdurdodau ddatgelu, fel rhan o'r datgeliadau sy'n ymwneud â buddiannau ymddeol, pa gyfran o asedau'r cynllun pensiwn sydd i'w priodoli sy'n gysylltiedig â'u rhwymedigaethau gwaelodol.

BUSNES GWEITHREDOL - Y cysyniad fod y Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi gan dybio y bydd y Cyngor yn parhau i fodoli'n weithredol yn y dyfodol rhagweladwy.

BWRDD BENTHYCA GWAITH CYHOEDDUS (PWLB) - Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n darparu benthyciadau am un flwyddyn a mwy i awdurdodau ar gyfraddau llog sydd ddim ond ychydig yn uwch na'r cyfraddau llog y gall y llywodraeth ei hun eu benthyca.

BYWYD ECONOMAIDD DEFNYDDIOL (UEL) - Y cyfnod lle bydd y Cyngor yn cael budd o ddefnyddio ased anghyfredol.

CIPFA - Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

COSTAU ADNEWYDDU DIBRISIEDIG - Dull prisio sy'n rhoi brasamcan gydnabyddedig o werth eiddo arbenigol ar y farchnad. Mae'n rhoi amcangyfrif o werth defnydd presennol y tir ar y farchnad, ynghyd â'r costau adnewyddu gros presennol ar gyfer yr adeilad a llai dirywiad materol yr ased o gymharu â'i gyflwr materol presennol.

COSTAU GWASANAETH BLAENOROL (PENSIYNAU) - Mewn cynllun pensiwn â buddion diffiniedig, y cynnydd yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn mewn perthynas â gwasanaeth gweithiwr mewn cyfnodau blaenorol sy'n codi yn y cyfnod presennol o ganlyniad i gyflwyno neu wella buddiannau ymddeol.

COSTAU GWASANAETH CYFREDOL (PENSIYNAU) - Y cynnydd yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn â buddion diffiniedig, sydd i'w disgwyl o ganlyniad i wasanaeth gweithwyr yn ystod y cyfnod presennol.

COSTAU LLOG (PENSIYNAU) - Mewn cynllun â buddion diffiniedig, y cynnydd disgwyliedig yn ystod y cyfnod yng ngwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun oherwydd bod y buddion yn nes o un cyfnod at y setliad.

CREDYDWR - Swm sy'n ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaethau a gyflenwyd o fewn y cyfnod cyfrifo, ond na wnaed taliad ar eu cyfer cyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

CRONFA YMDDIRIEDOLAETH - Arian sy'n cael ei weinyddu gan yr Awdurdod ar gyfer pwrpasau fel gwobrau, elusennau, prosiectau penodol, ac ar ran plant dan oed.

CRONFEYDD WRTH GEFN - Croniant arian dros ben, diffyg ariannol a neilltuad arian dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cronfeydd refeniw wrth gefn ar gael a gellir eu gwario neu eu clustnodi ar ddisgresiwn y Cyngor. Ni ellir defnyddio rhai cronfeydd cyfalaf fel y Gronfa Adbrisio Wrth Gefn i dalu'r gwariant presennol.

CRONIADAU - Symiau a gânt eu cynnwys yn y cyfrifon terfynol i gydnabod incwm a gwariant refeniw a chyfalaf a enillwyd neu a wariwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, ond na dderbyniwyd neu na wnaed taliad gwirioneddol ar eu cyfer erbyn 31 Mawrth.

CYFNOD CYFRIFO - Y cyfnod amser y mae a wnelo'r cyfrifon ag o, sydd fel arfer yn gyfnod o ddeuddeg mis yn dechrau ar 1 Ebrill. Diwedd y cyfnod cyfrifo yw dyddiad y fantolen.

CYFRADD LLOG GWIRIONEDDOL - Dyma'r gyfradd llog sydd ei hangen i ddisgowntio amcangyfrif y llif yr arian prifswm a'r llog yn ystod oes ddisgwyliedig yr offeryn ariannol er mwyn bod yn hafal â swm y gydnabyddiaeth gychwynnol.

CYFRIF INCWM A GWARIANT - Cyfrif refeniw'r Cyngor sy'n adrodd am gostau net y flwyddyn ar gyfer y swyddogaethau y mae'n gyfrifol amdanynt, ac sy'n dangos sut mae'r costau hynny wedi cael eu hariannu o braeseptau, grantiau ac incwm arall.
CYFRIF REFENIW TAI (CRT) - Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys gwariant ac incwm sy'n deillio o'r ddarpariaeth tai a gynigir gan yr Awdurdod.
CYLLIDEB - Y refeniw net a'r gwariant cyfalaf rhagweladwy dros y cyfnod cyfrifo.
CYMHORTHDAL NEGYDDOL - Pe bai'r Cyfrif Cymhorthdal Refeniw Tai yn cynhyrchu canlyniad, sy'n tybio fod incwm y Cyngor yn uwch na'i wariant, byddai sefyllfa o 'Gymhorthdal Negyddol' yn digwydd. Pe digwydd hynny byddai'n rhaid i'r awdurdod dalu swm sy'n gyfwerth â'r gwarged tybiannol, o'i Gyfrif Refeniw Tai i'r Llywodraeth.
CYNLLUN ARIANNU PREIFAT(PFI) - Yn nodweddiadol, mae trefniadau PFI yn cynnwys endid sector preifat yn adeiladu neu'n gwella eiddo sy'n cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus, a gweithredu a chynnal yr eiddo hwnnw am gyfnod amser penodol ar ran y corff sector cyhoeddus. Bydd y corff sector cyhoeddus yn talu am gael defnyddio'r asedau a'r gwasanaethau cysylltiedig dros gyfnod y trefniant trwy daliad unedol.
CYNLLUN PENSIWN Â BUDDION DIFFINIEDIG - Cynlluniau pensiwn y mae'r buddion sy'n cael eu derbyn gan eu haelodau yn annibynnol ar y cyfraniadau a delir a heb fod yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r hyn sy'n cael ei fuddsoddi yn y cynllun.
CYWERTHOEDD ARIAN PAROD - Buddsoddiadau hynod hylifol, byr dymor, sy'n hawdd eu cyfnewid am symiau hysbys o arian parod ac sy'n amodol ar risg ansylweddol o unrhyw newid yn eu gwerth.
DARPARIAETH - Swm sy'n cael ei roi i un ochr yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau neu golledion i'r dyfodol sy'n debygol neu'n debygol iawn o ddigwydd, ond mae'r symiau neu'r dyddiadau y byddant yn digwydd yn ansicr.
DERBYNIADAU CYFALAF - Yr incwm a wneir wrth waredu tir neu asedau anghyfredol eraill. Gellir defnyddio cyfran o dderbyniadau cyfalaf Tai i ariannu gwariant cyfalaf newydd, yn rhwym wrth reolau sydd wedi eu hamlinellu gan y Llywodraeth, ond ni ellir eu defnyddio i ariannu gwariant refeniw ar wahân i Wariant Refeniw a Ariennir o Gyfalaf Trwy Statud.
DIBRISIANT - Mesuriad o gostau traul, defnydd neu ostyngiad arall yn oes economaidd ddefnyddiol asedau anghyfredol yr Awdurdod yn ystod y cyfnod cyfrifo, p'un ai bod hynny oherwydd defnydd, treigl amser, neu ddarfodiad o ganlyniad i newidiadau technolegol neu newidiadau eraill.
DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN - Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, boed ffafriol neu anffafriol, sy'n digwydd rhwng dyddiad y fantolen a'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon.
DULL RHAGAMCANU UNEDAU - Dull prisio buddion cronedig lle bydd y rhwymedigaethau cynllun pensiwn yn darparu ar gyfer rhagamcan enillion. Y buddion cronedig yw'r buddion ar gyfer gwasanaeth hyd at bwynt penodol mewn amser, dim ots a oes hawliau personol neu beidio.
DYLED - Dyled yw pan fo taliad yn ddyledus gan y Cyngor i unigolyn neu sefydliad arall.
• Mae dyled gyfredol yn swm a ddaw'n daladwy neu y gellid ei alw i mewn o fewn y cyfnod cyfrifo nesaf, e.e. credydwyr neu ddyled arian parod.
• Dyled ohiriedig yw swm sydd, trwy drefniant, yn daladwy y tu hwnt i'r flwyddyn nesaf ar ryw adeg yn y dyfodol, neu sydd i'w ad-dalu gyda swm blynyddol dros gyfnod o amser.
DYLED DDIGWYDDIADOL - Gall dyled ddigwyddiadol fod naill ai:
• yn rhwymedigaeth ddichonadwy sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol, na ellir cadarnhau eu bodolaeth ond trwy un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth yr Awdurdod, neu
• yn rhwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol pan nad yw'n debygol fod angen trosglwyddo buddiannau economaidd, neu pan na ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddigon dibynadwy.

DYLEDWR - Swm sy'n ddyledus i'r Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaethau a gyflenwyd o fewn y cyfnod cyfrifo, ond na wnaed taliad ar eu cyfer cyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

EIDDO BUDDSODDI - Eiddo sy'n cael ei ddal yn unig er mwyn cael enillion rhenti neu adbrisiant cyfalaf neu'r ddau.

EITEMAU ANGHYFFREDIN - Eitemau o bwys, sydd â graddfa fawr o abnormaledd, sy'n deillio o ddigwyddiadau neu drafodion oddi allan i weithgarwch arferol yr awdurdod nad oed disgwyl iddynt ddigwydd eto. Nid ydynt yn cynnwys eitemau eithriadol, nac yn cynnwys eitemau o gyfnod blaenorol dim ond oherwydd eu bod yn gysylltiedig â chyfnod blaenorol.

EITEMAU EITHRIADOL - Eitemau o bwys sy'n deillio o faterion neu drafodion sydd o fewn gweithgareddau arferol yr Awdurdod y mae angen eu datgelu ar wahân yn rhinwedd eu maint neu eu nifer er mwyn rhoi cynrychiolaeth deg o'r cyfrifon.

ENILLION A CHOLLEDION ACTIWARAIDD - Mewn cynllun pensiwn â buddion diffiniedig, y newidiadau mewn gwargedau neu ddiffygion actiwaraidd sy'n digwydd oherwydd:

- nad yw digwyddiadau wedi cyd-fynd â'r rhagdybiaethau actiwaraidd a wnaed ar gyfer y prisiad diwethaf (profi enillion a cholledion); neu
- fod y rhagdybiaethau actiwaraidd wedi amrywio

GRANT CYNNAL REFENIW - Grant a dalwyd gan y Lywodraeth Ganolog i awdurdodau, sy'n cyfrannu at gost cyffredinol eu gwasanaethau.

GRANTIAU LLYWODRAETH - Grantiau gan y llywodraeth tuag at wariant refeniw neu gyfalaf yn gyfnewid am gydymffurfiaeth yn y gorffennol neu yn y dyfodol ag amodau penodol yn ymwneud â gweithgareddau'r Cyngor. Gall y grantiau fod yn benodol i gynllun neilltuol neu gallant fod yn cefnogi gwariant refeniw neu gyfalaf (yn y drefn honno) yr Awdurdod yn gyffredinol.

GWAITH AR Y GWEILL - Cost gwaith a wnaed ar brosiect anghyflawn ar ddyddiad y fantolen, ac y dylid rhoi cyfrif amdano.

GWARIANT CYFALAF - Gwariant wrth gaffael ased anghyfredol, a fydd yn cael ei defnyddio i ddarparu gwasanaethau y tu hwnt i'r cyfnod cyfrifo presennol neu wariant sy'n ychwanegu at werth ased anghyfredol bresennol, yn hytrach na dim ond cynnal y gwerth hwnnw'n unig.

GWARIANT REFENIW - Gwariant darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd.

GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF TRWY STATUD (REFCUS) - Gwariant y gellir ei ddosbarthu fel arian cyfalaf i bwrpasau ariannu pan nad yw'n arwain at nodi gwariant ar y Fantolen fel ased anghyfredol. Mae hyn i'w alluogi i gael ei ariannu o adnoddau cyfalaf. Enghreifftiau o REFCUS yw grantiau o natur cyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI - Caffael a gwaredu asedau tymor hir a buddsoddiadau eraill nad ydynt wedi eu cynnwys o fewn cywerthoedd arian parod.

GWEITHGAREDDAU CYLLIDO - Gweithgareddau sy'n arwain at newidiadau ym maint ac yng nghyfansoddiad y prifswm a dderbyniwyd neu a ad-delir i ddarparwyr cyllid allanol.

GWEITHGAREDDAU GWEITHREDOL - Gweithgareddau'r Cyngor nad ydynt yn weithgareddau buddsoddi nac ariannu.

GWERTH DEFNYDD PRESENNOL - Y swm yr amcangyfrifir y dylai eiddo gyfnewid amdano ar ddyddiad prisiad rhwng prynwr parod a gwerthwr parod mewn gwerthiant hyd braich, yn dilyn ei farchnata'n briodol fel y bo'r partïon wedi gweithredu yn wybodus, yn ddarbodus a heb eu gorfodi. Tybir y rhoir meddiant, yn wag, i'r prynwr o bob rhan o'r eiddo y mae eu hangen ar y busnes gan ddiystyru unrhyw ddefnydd amgen posibl ac unrhyw nodweddion eraill o'r eiddo a fyddai'n achosi i'w werth ar y farchnad fod yn wahanol i'r hyn y byddai ei angen i gymryd lle'r potensial gwasanaeth gweddillol am y costau lleiaf.

GWERTH GWEDDILLIOL - Gwerth gwireddadwy net yr ased ar ddiwedd ei fywyd defnyddiol.

GWERTH LLYFR NET - Y swm a nodir ar gyfer asedau anghyfredol yn y fantolen, h.y. eu costau hanesyddol neu eu gwerth presennol llai y symiau cronnus a roddir ar gyfer dibrisiant ac amhariad.

GWERTH TEG - Gwerth teg unrhyw ased yw'r swm y gellir ei gyfnewid amdano, neu setliad dyled, rhwng partïon gwybodus, parod mewn gwerthiant hyd braich.
GWERTH TRETHADWY - Gwerth rhent tybiedig blynyddol yr eiddo, sy'n cael ei ddefnyddio i bwrpasau ardrethi annomestig.
INCWM - Symiau y mae'r Cyngor yn eu derbyn neu'n disgwyl eu derbyn o unrhyw ffynhonnell, gan gynnwys ffioedd, gwerthiannau a grantiau.
ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW - Yr isafswm y mae'n rhaid codi ar ei gyfer yn y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn gallu darparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau a symiau eraill sydd wedi cael eu benthyca gan y Cyngor.
LLIFOEDD ARIAN - Mewnlif ac all-lif arian parod a chywerthoedd arian parod.
MATEROLIAETH - Y cysyniad y dylai'r Datganiad Cyfrifon gynnwys yr holl symiau, y byddai disgwyl iddynt, pe caent eu gadael allan neu eu camddyfynnu, arwain at lurgunio'r datganiadau ariannol a chamarwain defnyddwyr y cyfrifon maes o law.
OFFERYN ARIANNOL - Unrhyw gontract sy'n peri bod ased ariannol gan y naill endid ac yn peri bod dyled ariannol neu offeryn ecwiti gan y llall. Mae'r term yn cynnwys asedau ariannol a dyledion ariannol, o dderbyniadwyon masnachu (anfonebau dyledus) a thaladwyon masnachu (anfonebau dyladwy) syml hyd at ddeilliadau cymhleth a deilliadau sefydlog.
PARTÏON CYSYLLTIEDIG - Credir bod partïon yn gysylltiedig os oes gan un parti y gallu i reoli'r parti arall neu ddylanwadu yn sylweddol ar y parti arall wrth wneud penderfyniadau ariannol neu weithredol.
PARTNERIAETHAU PREIFAT CYHOEDDUS (PPC) - Menter ar y cyd lle bydd partner sector preifat yn cytuno i roi gwasanaethau i, neu ar ran sefydliad sector cyhoeddus. Mae Cynllun Ariannu Preifat yn fath o PPC.
POLISÏAU CYFRIFO - Yr egwyddorion, y seiliau, y confensiynau, y rheolau a'r arferion penodol a gymhwysir gan y Cyngor wrth baratoi a chyflwyno ei ddatganiadau ariannol.
PRAESEPT - Yr ardoll y bydd awdurdodau praeseptio yn ei chodi ar awdurdodau bilio, sy'n ei gwneud yn ofynnol ar i'r olaf gasglu incwm gan drethdalwyr y cyngor ar eu rhan.
PRYDLES - Cytundeb pan fo'r prydleswr yn rhoi'r hawl i'r prydlesai ddefnyddio ased am gyfnod, yn gyfnewid am daliad neu gyfres o daliadau.
PRYDLES ARIANNOL - Prydles sy'n trosglwyddo bron y cyfan o'r risgiau a'r gwobrau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar ased i'r prydleswr.
PRYDLES WEITHREDOL - Prydles pan fo perchnogaeth yr ased anghyfredol yn aros gyda'r prydleswr.
RHAGLEN GYFALAF - Y cynlluniau cyfalaf y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gweithredu mewn cyfnod penodedig.
RHESTRAU EIDDO - Yr eitemau hynny o ddeunyddiau crai ac o gyflenwadau y mae'r Awdurdod wedi eu caffael ac sy'n cael eu dal ganddynt yn y disgwyl y bydd iddynt ddefnydd yn y dyfodol.
RHWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN PENSIWN - Rhwymedigaethau cynllun pensiwn â buddion diffiniedig ar gyfer treuliau sy'n ddyledus ar ôl dyddiad y prisiant. Mae rhwymedigaethau'r cynllun sydd wedi eu mesur yn defnyddio'r dull rhagamcanu unedau yn adlewyrchu'r buddiannau y mae'r cyflogwr wedi ymrwymo i'w darparu am wasanaeth hyd at ddyddiad y prisiad.
TÂL - Bydd pob swm sy'n cael ei dalu neu ei dderbyn gan weithiwr a symiau sy'n ddyledus trwy lwfansau treuliau (os yw'r symiau hynny yn berthnasol i dreth incwm y DU) a gwerth ariannol unrhyw fuddiannau sy'n cael eu derbyn, ac eithrio mewn arian parod.
TRAFODION PARTION CYSYLLTIEDIG - Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu unrhyw drafodion pwysig rhwng yr Awdurdod a phartïon cysylltiedig i sicrhau bod budd-ddeiliaid yn ymwybodol pan fydd y trafodion hyn yn digwydd a swm a goblygiadau hynny.
TREFNIADAU ASIANTAETHOL - Trefniant rhwng dau sefydliad pan fydd un yn gweithredu fel asiant, yn casglu arian ar ran y llall, ac yna'n talu'r arian iddo.. Enghraifft o hyn yw

casgliadau Ardrethi Annomestig Cenedlaethol, pan fo'r Cyngor yn gweithredu fel yr asiant bilio ar ran llywodraeth ganolog, yn casglu arian gan dreth dalwyr ar ran llywodraeth ganolog ac yna talu'r arian hwnnw yn ei flaen iddynt.

TREFNIANT CONSESIWN GWASANAETH - Mae cytundeb consesiwn gwasanaeth yn gyffredinol yn golygu y bydd y rhoddwr (corff sector cyhoeddus fel arfer) yn cyfleu i'r gweithredwr (endid sector preifat fel arfer), am gyfnod y consesiwn, yr hawl i ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi mynediad i'r cyhoedd i gyfleusterau economaidd a chymdeithasol mawr.

Y FANTOLEN - Datganiad ynglŷn ag asedau, dyledion a chronfeydd wrth gefn a gofnodwyd ar ddiwedd y cyfnod cyfrifo.